# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 16 CHWEFROR 2021 am 9.30 y. b. | TUESDAY, 16 FEBRUARY, 2021 at 9:30 a.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL | VIRTUAL MEETING |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts, *Sedd Wag/Vacant Seat*

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 28)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 17 Tachwedd, 2020
- 10 Rhagfyr, 2020 (arbennig)
- 17 Rhagfyr, 2020 (arbennig)

**3** **GOSOD CYLLIDEB 2021/2022 (CYLLIDEB REFENIW)** (Tudalennau 29 - 58)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

**4** **GOSOD CYLLIDEB 2021/2022 (CYLLIDEB GYFALAF)** (Tudalennau 59 - 84)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151.

**5** **ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

Cadeirydd y Panel i adrodd ar lafar.

**6** **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 85 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Alun Roberts, John Arwel Roberts.<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol), Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant) Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau) R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor), Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid)<br><br>**Trwy Wahoddiad**: Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid) |
| **WRTH LAW**: | Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Owain Jones, Nicola Roberts, Mrs Anest Frazer (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ac, er mwyn y recordiad, gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020 (Galw i Mewn) a 20 Hydref, 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

## 3 DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2020-2022

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol am gyfnod o ddeunaw mis o fis Hydref 2020 i fis Mawrth 2022 i'r Pwyllgor ei ystyried a chraffu arno. Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn canolbwyntio ar y gwaith y bydd yr Awdurdod yn ei wneud i gyflawni'r dyheadau a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2017-22.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor a nododd fod y Ddogfen yn cwmpasu cyfnod estynedig o ddeunaw mis a chyfeiriodd at yr her o lunio'r ddogfen mewn cyfnod o ansicrwydd oherwydd y pandemig Covid-19. Yr amcan wrth saernïo'r Cynllun, fydd yn cael ei adolygu wrth i amgylchiadau esblygu a newid, oedd bod yn uchelgeisiol ond yn realistig ac i gydnabod yr effaith bellgyrhaeddol y mae'r argyfwng Covid-19 wedi'i gael ar y Cyngor, trigolion yr Ynys, y gymdeithas a'r economi drwy gynnwys pedair rhaglen adfer thematig. Bydd y pedair rhaglen yn canolbwyntio ar adfer yr economi, adfer cyrchfan, adfer cymdeithasol a chymunedol ac adfer sefydliadol.

Cytunodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ei bod yn bwysig fod y rhaglen waith a grynhoir yn y Ddogfen Gyflawni yn ogystal â bod yn uchelgeisiol, yn un y gellir ei chyflawni er gwaetha'r pandemig presennol. Bydd y Ddogfen yn cael ei rhoi ar waith drwy gynlluniau busnes y gwasanaethau sy'n tystio bod y mesurau'n rhai y gellir eu cyflawni. Mae'r cyfnod amser hirach nag arfer yn cydnabod y sefyllfa bresennol ac yn caniatáu'r amser a'r cyfle i ddod allan o'r argyfwng ac i gyflawni'r Cynllun.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cwestiynau sgriwtini allweddol. Roedd y cwestiwn cyntaf yn ymwneud ag effaith pwysau ariannol posib a diffyg adnoddau ar allu'r Cyngor i gyflawni'r Cynllun arfaethedig o ystyried y bydd angen parhau i ddelio â'r pandemig. Gwahoddwyd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid i gyflwyno ei safbwynt ar y sefyllfa ariannol yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiad ar sefyllfa'r gyllideb refeniw a chyfalaf yn Chwarter 2 2020/21 yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd. Ar hyn o bryd, dengys y data bod tanwariant yn y gyllideb refeniw ac o dan amgylchiadau arferol byddai hynny'n cael ei groesawu. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd cyffredinol yn sgil yr argyfwng parhaus oherwydd y pandemig a pha mor gyflym y gall y sefyllfa newid, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth wneud penderfyniadau a bydd angen i'r Cyngor adolygu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pan fydd mewn sefyllfa well i asesu'r sefyllfa ariannol ac i gynllunio ar y sail hynny. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 fod ansicrwydd sylweddol yn parhau ynglŷn â beth fydd yn digwydd yn ystod y tri mis nesaf, er bod y data ariannol yn ymddangos yn addawol ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol yn 2021/22 ym mis Rhagfyr yn rhoi mwy o eglurder, ynghyd â chanlyniadau Chwarter 3 wedi hynny. Yn hanesyddol, gwelir pwysau ychwanegol yn ystod y gaeaf, yn arbennig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond y gobaith yw y bydd y sefyllfa ariannol yn gliriach

DRAFT

erbyn dechrau'r gwanwyn ac y gellir cyflwyno'r data hwn i'r Pwyllgor Gwaith i lywio ei benderfyniadau mewn perthynas â chyllideb 2021/22.

Wrth ymateb i gwestiynau am fforddiadwyedd y Cynllun, o ystyried y cyd-destun Covid-19 a'r effaith ar berfformiad y Cyngor, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod capasiti'r sefydliad i ddatblygu'r gwaith yn ystyriaeth bwysig. Er bod Swyddogion yn hyderus fod modd cyflawni'r rhaglen a amlinellir yn y Ddogfen Gyflawni a bod gweithlu'r Cyngor yn meddu ar y galluoedd a'r arbenigedd i'w chyflawni, dylid nodi y bydd gweithgareddau a gweithredoedd yn cael eu gyrru gan drywydd Covid-19 ar ddechrau'r flwyddyn newydd – os yw'r sefyllfa'n gwella bydd modd rhoi'r cynlluniau adfer ar waith ond os bydd y sefyllfa'n gwaethygu yna efallai y bydd rhaid adleoli staff i helpu gyda'r ymateb i'r argyfwng.

Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch gweithredu'r pedair rhaglen adfer ar yr un pryd â'r Ddogfen Gyflawni, eglurodd y Prif Weithredwr fod adfer yn broses dros gyfnod o amser ac y bydd natur gwaith y Cyngor yn addasu ac yn newid yn ystod y cyfnod hwn. Er y bydd cyfrifoldebau craidd y Cyngor yn parhau i gael eu cyflawni bydd unrhyw ymyraethau ychwanegol yn ddibynnol ar raglenni cenedlaethol ac argaeledd arian a chapasiti er mwyn i awdurdodau lleol ymgymryd â gwaith adfer pellach. Lluniwyd cynlluniau adfer drafft ond os na fyddant yn cael eu rhoi ar waith cyn y gwanwyn, yna gall nifer o bethau newid yn y cyfamser e.e. y penderfyniad diweddar i ymestyn y cynllun seibiant swyddi (ffyrlo) ac oblygiadau hynny o ran cyflogaeth leol. Oherwydd bod y Ddogfen Gyflawni'n gynllun deunaw mis, mae'n debygol yr ailymwelir â hi i sicrhau ei bod yn adlewyrchu cynnydd y broses adfer a blaenoriaethau adfer yr Awdurdod yn fwy effeithiol a bod y cynlluniau a gyflwynwyd yn derbyn mewnbwn wleidyddol, a bod cyfle i ddylanwadu arnynt a'u herio. Bydd blaenoriaethau'n cael eu harwain gan yr angen, boed hynny fesul cymuned neu fesul sector, heb anghofio hefyd am Brexit, fydd yn cael ei weithredu yn y dyfodol agos ac sy'n cymhlethu'r sefyllfa ymhellach o ran yr economi ac yn ychwanegu at y gymysgedd o ffactorau sydd oll angen sylw. Fodd bynnag, wrth i'r Awdurdod symud ymlaen a theimlo'n hyderus ei fod yn symud i'r cyfnod adfer bydd yn rhoi ystyriaeth, dan arweiniad y Prif Weithredwr, i'w waith dydd i ddydd, i waith adfer ychwanegol yn ogystal â gwaith argyfwng, gyda'r bwriad o gyfuno'r elfennau hyn mewn Cynllun Gweithredu newydd fydd yn diwallu anghenion cymunedau'r ynys, ei busnesau a'i heconomi.

Wrth ymateb i gwestiwn am bwysigrwydd gwaith partneriaeth i gyflawni'r ddogfen, rhoes yr Arweinydd enghreifftiau o ble mae cyfraniad partneriaid yn ffurfio rhan bwysig o'r ddogfen gan ychwanegu fod yr awdurdod wedi sefydlu cysylltiadau gwaith cynhyrchiol dros nifer o flynyddoedd gydag amrywiaeth o bartneriaid allweddol a bod yr argyfwng wedi cryfhau'r cysylltiadau hynny. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi ymrwymo i gydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau a phortffolios a bod yr argyfwng wedi rhoi amlygrwydd i'r agwedd hon. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gydweithio ac i weithio mewn partneriaeth lle bydd hynny'n caniatáu iddo ddylanwadu a chael effaith a lle bydd hynny'n ychwanegu gwerth.

Derbyniwyd sylwadau a chwestiynau ychwanegol fel a ganlyn -

- A yw ymrwymiad yr Awdurdod i ddefnyddio Premiwm y Dreth Gyngor i sicrhau fod tai addas ar gael i bobl leol yn eu cymunedau lleol drwy ddatblygu 3 tŷ gwag a rhoi cynnig i brynwyr tro cyntaf lleol eu prynu yn ddigon uchelgeisiol ac oni ddylid gosod targed mwy uchelgeisiol ar gyfer menter yr oedd y Pwyllgor yn ystyried yn un clodwiw. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai'r broses ble mae'r Cyngor yn gweithio gyda pherchnogion eiddo gwag sy'n dewis gwerthu eu heiddo i'r Cyngor yn hytrach nac ar y farchnad agored; mae'r Cyngor yn adnewyddu'r eiddo ac yna'n eu gwerthu i brynwyr tro cyntaf lleol ac yn cadw cyfran o'r ecwiti i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fforddiadwy. Eglurodd y Swyddog fod gan y Gwasanaeth Tai 3 eiddo o'r fath ar gyfer cyfnod y Cynllun sy'n cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd, er y cwblhawyd gwaith ar 7 eiddo yn barod.

- Cyfeiriwyd ymhellach at yr amwysedd sy'n bodoli mewn perthynas â'r dreth ar ail gartrefi ble mae ail gartrefi'n cael eu hail-ddynodi'n eiddo busnes (ar ôl i Asiantaeth y Swyddfa Brisio dystio eu bod yn bodloni'r meini prawf) gan olygu nad ydynt yn talu premiwm ail gartrefi'r Dreth Gyngor na'r Dreth Gyngor ond yn hytrach yn talu trethi busnes, er bod nifer o eiddo o'r fath yn gymwys i dderbyn rhyddhad trethi busnesau bach. Cadarnhaodd y Cynghorydd Robin Williams, yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid bod pryder a fynegwyd gan y Pwyllgor Gwaith ynglŷn â cholli incwm wrth i nifer gynyddol o ail gartrefi drosglwyddo allan o'r system dreth gyngor i drethi busnes wedi cael ei gyfleu mewn llythyr at Lywodraeth Cymru yr oedd y Prif Weinidog wedi ymateb iddo. Darllenodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid ymateb y Prif Weinidog a oedd yn cyfeirio at y ffaith mai Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Gyfunol ble rhoddwyd pwerau dewisol i awdurdodau lleol godi premiwm Treth Gyngor o hyd at 100% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor ac yn nodi hefyd y cyflwynwyd y darpariaethau hynny i gynorthwyo cynghorau i reoli problemau'n ymwneud â chyflenwad tai yn lleol yn hytrach nac fel mesur i gynhyrchu refeniw. Er bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod y broblem a grëir mewn cymunedau yn y Gogledd wrth i ail gartrefi gael eu trosglwyddo o drethi domestig i drethi busnes, a'r angen i ganfod atebion priodol i'r cymunedau hynny er mwyn sicrhau nad yw pobl leol yn cael eu prisio allan o'r cymunedau lle cawsant eu geni, mae'n datgan nad oes atebion cyflym a bod 4 trywydd posib yn cael eu hystyried fel syniadau ar gyfer y weinyddiaeth nesaf, sef amrywio lefel uwch y dreth trafodion tir ar gyfer ail gartrefi ar lefel ranbarthol; cynyddu'r cyfnod y mae'n rhaid gosod eiddo cyn y bydd yn gymwys ar gyfer trethi busnes; cyflwyno pwerau i awdurdodau lleol godi treth twristiaeth a chreu manteision i brynwyr tro cyntaf lleol. Daeth yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid i'r casgliad yr ymddengys na fydd Gweinyddiaeth bresennol Llywodraeth Cymru, sydd ddim yn ystyried fod amwysedd yn bodoli, yn mynd i'r afael â'r mater; mae hyn yn siomedig o ystyried ei bod yn broblem yn Ynys Môn ac yn effeithio ar nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru hefyd.
- Gan gydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i greu tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol, gan gynnwys dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gwnaed pwynt ynghylch angen sydd yr un mor ddybryd i gynyddu nifer y tai rhent gan nad yw pob tŷ a ddynodir yn dŷ fforddiadwy o fewn cyrraedd pawb yn ariannol. Eglurodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai fod cynllun prynu hen dai cyngor yr Awdurdod 30% yn uwch na'r targed a bod tai cyngor newydd yn parhau i gael eu datblygu (er yn is na'r targed eleni oherwydd y pandemig), gyda nifer o unedau ar y gweill a nifer yn barod i'w gosod fel rhan o'r nod o ddarparu stoc dai fforddiadwy.

**Ar ôl ystyried y Ddogfen Gyflawni Flynyddol am gyfnod o ddeunaw mis o fis Hydref 2020 i fis Mawrth 2022, a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Swyddogion ac Aelodau Porffolio yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor argymell y Ddogfen Gyflawni Flynyddol 2020-2022 i'r Pwyllgor Gwaith *(Bu i'r Cynghorwyr Aled Morris Jones a Bryan Owen atal eu pleidlais)***

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**4 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 2 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried a chraffu arno.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor yr adroddiad a chadarnhaodd fod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar yr adroddiadau chwarterol ar gyfer Ch4 2019/20 a Ch1 2020/21 ac y cytunwyd i beidio â'u cyhoeddi a'u trafod yn y pwyllgorau perthnasol. Mae delio â'r pandemig wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor – nid yn unig o

ran cynnal gwasanaethau rheng flaen a chynnal busnes arferol lle bo hynny'n bosib, ond hefyd o ran sicrhau fod trefniadau iechyd a diogelwch mewn lle i ddiogelu staff yr Awdurdod wrth iddynt ddarparu gwasanaethau. Bu'n rhaid i'r Cyngor ymateb i amgylchiadau sy'n newid yn gyflym ac addasu iddynt. Fodd bynnag, mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (88%) o'r dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn y targedau (statws CAG Gwyrdd neu Felyn) gyda phresenoldeb yn y gweithle (2.66 diwrnod o absenoldeb fesul ALlC yn ystod y cyfnod yn erbyn targed o 4.48 diwrnod) a'r dangosyddion o dan symud i wasanaethau digidol ymysg yr uchafbwyntiau ar gyfer y cyfnod adrodd.

Ymatebwyd fel a ganlyn i'r pwyntiau a'r cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor -

- Mewn perthynas â phwysigrwydd gwydnwch a llesiant staff o ran parhau i gynnal perfformiad da, cytunodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod llwyddiant y Cyngor wrth ymateb i'r argyfwng i'w briodoli i raddau helaeth i gydweithrediad ei weithlu a'i barodrwydd i addasu. Yn ei dro, mae'r Cyngor wedi ceisio cyfathrebu, ymgysylltu a darparu cymorth i'w staff mewn perthynas â'u lles a'u hanghenion wrth weithio o bell ac mae'r ymateb positif i'r Arolwg Staff Interim ar Weithio Gartref a ddosbarthwyd yn gynharach yn ystod y pandemig yn tystio i hynny. Yn ogystal, mae lefelau straen yn cael eu monitro fel rhan o'r broses o fonitro presenoldeb yn y gwaith ac mae'n galonogol nodi na chafwyd cynnydd yn lefelau straen staff o gymharu â'r un chwarter yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae rheoli straen yn bwysig ac mae staff yn cael eu hannog i gymryd egwyl o'u gwaith yn rheolaidd ac mae hynny'n cael ei danlinellu gan y Prif Weithredwr yn ei negeseuon wythnosol i staff ac mae rheolwyr y gwasanaeth yn cynorthwyo gyda hynny hefyd. Cydnabyddir y gall delio gyda'r pandemig dros fisoedd lawer achosi blinder, yn arbennig wrth i fisoedd y gaeaf ddynesu.
- Mewn perthynas â'r posibilrwydd fod gweithio gartref yn ffactor o ran y gwelliant mewn lefelau presenoldeb yn y gwaith, esboniodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod y gweithlu wedi dod ynghyd ar ddechrau'r pandemig ac wedi ymrwymo fel tîm i ymateb i'r argyfwng. Mae dadansoddiad o'r data o gymharu â'r llynedd a'r rhesymau am absenoldebau salwch yn dangos, er na fu newid yn y mathau o salwch, bu llai o achosion a rhaid cofio hefyd fod Chwarter 2 yn cyd-fynd â chyfnod o dywydd braf sy'n cael ei gysylltu ag iechyd gwell ni waeth a yw staff yn gweithio gartref neu yn y swyddfa. Yn draddodiadol, misoedd y gaeaf yw'r mwyaf heriol o ran presenoldeb yn y gwaith a rhagwelir y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau ar gyfer Ch3 a Ch4. Serch hynny, mae Swyddogion yn hyderus y bydd y cychwyn cadarn i 2020/21 yn golygu y bydd y targed ar gyfer presenoldeb yn y gwaith yn cael ei gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn, neu y rhagorir arno o bosib. Gellir priodoli'r gwelliant yn y ffigyrau i nifer o ffactorau mewn blwyddyn eithriadol.
- Mewn perthynas â'r diffyg a ragwelir yn y Dreth Gyngor a'r gorwariant ragamcanedig o £234k a'r goblygiadau i wasanaethau'r Cyngor mewn perthynas â chyflawni eu targedau, esboniodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid bod y posibilrwydd y byddai mwy o bobl yn methu talu eu Treth Gyngor ac yn gwneud cais i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o ganlyniad i broblemau ariannol yn deillio o'r pandemig. Er y bydd ymestyn y cynllun seibiant swyddi (ffyrlo) i ddiwedd mis Mawrth 2021 heb amheuaeth yn helpu'r sefyllfa ariannol, mae'n rhy gynnar o hyd i ragweld sut fydd y sefyllfa'n datblygu hyd at ddiwedd y flwyddyn a beth fydd sefyllfa'r Cyngor bryd hynny.
- Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y sefyllfa mewn perthynas â'r effaith ar incwm y Dreth Gyngor gan amlinellu sut y cyfrifir sylfaen y Dreth Gyngor ar sail yr eiddo y codir y Dreth Gyngor safonol arnynt, a'r eiddo y mae'n rhaid talu premiwm y Dreth Gyngor arnynt (premiwm o 100% yn

DRAFT

achos eiddo gwag tymor hir a phremiwm o 35% yn achos ail gartrefi). At ddibenion cyfrifo sail y dreth, defnyddir ffigwr o 80% o'r eiddo y gellir codi premiwm arnynt er mwyn adlewyrchu newidiadau yn ystod y flwyddyn yn nifer yr eiddo y mae'r premiwm yn daladwy arnynt a hefyd i sicrhau nad yw'r targed incwm o bremiwm y Dreth Gyngor yn cael ei osod ar lefel rhy uchel. Yn ystod y flwyddyn, mae nifer o ail gartrefi wedi trosglwyddo o drethi domestig i drethi busnes gan arwain at golli incwm dreth gyngor yn ogystal ag incwm o'r premiwm. Yn ogystal, gellir ôl-ddyddio ceisiadau i gofrestru ail gartrefi ar gyfer trethi busnes sy'n golygu fod rhaid i'r Cyngor ad-dalu'r dreth gyngor o ddyddiad y cofrestriad. Tra bod nifer yr ail gartrefi sy'n ailgofrestru fel busnesau wedi cynyddu, nid yw nifer y cartrefi yn y categori premiwm ail gartrefi wedi newid yn sylweddol, yn bennaf oherwydd bod pobl yn prynu eiddo sy'n talu'r Dreth Gyngor safonol fel ail gartrefi, sy'n cael eu nodi fel cartrefi o'r fath gan yr Awdurdod ac y codir y premiwm arnynt wedyn. Canlyniad y symudiadau hyn yw gostyngiad yn nifer yr eiddo y codir y Dreth Gyngor safonol arnynt ac mae hynny'n cael effaith ar refeniw'r Dreth Gyngor. Tra bod incwm y premiwm yn uwch na'r targed oherwydd mai dim ond 80% o'r eiddo cymwys a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo sail y Dreth Gyngor a bod hynny'n creu gwarged yn y gyllideb, mae incwm o'r Dreth Gyngor safonol yn is am y rhesymau canlynol - mae tai yn cael eu trosglwyddo i'r categori premiwm; mae eiddo'n symud allan o'r system dreth gyngor yn gyfan gwbl; mae perchnogion ail gartrefi yn derbyn ad-daliad ar y dreth gyngor a dalwyd ganddynt ar ôl cofrestru fel busnesau. O ran casglu'r Dreth Gyngor, er bod y gyfradd casglu yn is na'r llynedd, mae'r sefyllfa'n well na'r disgwyl yn rhannol oherwydd y cynllun seibiant swyddi (ffyrlo) sydd wedi caniatáu i bobl barhau i dalu'r dreth gyngor heb orfod troi at Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Fodd bynnag, ni wyddys beth fydd effaith tymor hir y pandemig ar y rhai sydd â dyledion Treth Gyngor a ni ddaw hynny'n glir hyd nes y bydd y broses casglu dyledion wedi'i gwblhau. Rhagwelir y bydd angen cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg fydd yn ei dro'n cael effaith ar y gyllideb refeniw.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach am refeniw'r premiwm ac a oes angen adolygu'r polisi oherwydd y man gwan yn y ddeddfwriaeth, cadarnhaodd y Swyddog fod y premiymau ar ail gartrefi ac eiddo gwag tymor hir yn cynhyrchu incwm o thua £1m a £500k y flwyddyn yn y drefn honno a bod cyfran sylweddol o'r incwm hwnnw'n cael ei ddyrannu i'r Gwasanaeth Tai i gefnogi tai yn lleol. Nid mater o ddewis yw newid tŷ o fod yn ail gartref i fod yn eiddo busnes – mae'n rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Brisio gadarnhau fod y meini prawf angenrheidiol wedi cael ei bodloni; y broblem yw a oes gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ddigon o gapasiti i fonitro cydymffurfiaeth â'r meini prawf yn dilyn cofrestru'r eiddo fel eiddo busnes. Cyflwynir adroddiad ar weithrediad y Premiwm ers iddo gael ei gyflwyno ar Ynys Môn i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr, 2020.

- Mewn perthynas â Dangosydd 43 (Canran o apeliadau cynllunio a wrthodwyd) a ddangosir yn Goch ar y cerdyn sgorio, gyda pherfformiad o 50% yn erbyn targed o 65, gofynnwyd ai'r Pwyllgor oedd wedi gwneud penderfyniadau yn groes i argymhelliad y swyddog yn achos y 3 apêl (allan o 6) a gadarnhawyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Eglurodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio fod y 3 apêl yn ymwneud â cheisiadau am anheddau newydd i gymryd lle hen eiddo ac mai Swyddogion oedd wedi penderfynu ar y ceisiadau. Mewn ymateb i sylwadau pellach ynghylch ymweliadau safle gan y Pwyllgor – maent wedi cael eu hatal ar hyn o bryd oherwydd Covid-19 – gan ddweud eu bod yn elfen bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio fod ymweliadau safle wedi cael eu hailgyflwyno ar ffurf rhithwir. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid trafod y mater ymhellach yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grwpiau.



DRAFT

- Mewn perthynas â Dangosydd 27 (Canran yr atgyfeiriadau plant sy'n ailgyfeiriadau o fewn 12 mis) sy'n Goch ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 38.89% yn erbyn taged o 10%, gofynnwyd beth oedd y rhesymau am y tanberfformiad. Eglurodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol mai dangosydd lleol yw hwn a gyflwynwyd er mwyn rhoi sylw i fater penodol a godwyd gan AGC. Nid yw ailgyfeiriad o angenrheidrwydd yn golygu fod y plentyn dan sylw'n cwrdd â'r trothwy ar gyfer asesiad neu ymyrraeth a bydd y dangosydd yn cael ei adolygu i benderfynu a yw'n addas i bwrpas. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro fod y dangosydd yn cyfeirio at nifer gymharol fechan o achosion yng nghyd-destun nifer y teuluoedd y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgysylltu â nhw a bod eu hanghenion yn newid ac yn esblygu gan olygu y gallant gael eu hailgyfeirio am gymorth sy'n diwallu'r anghenion newydd hynny. Canfu adolygiad o ffeiliau achosion a ailgyfeiriwyd fod pob un ohonynt wedi cael eu hailgyfeirio'n briodol i'r gwasanaeth am resymau a sefyllfaoedd newydd nad oedd modd eu rhagweld neu eu hatal.
- Mewn perthynas â Dangosydd 35 (nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod, ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod) sydd yn Goch ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 78 diwrnod yn erbyn targed o 26 diwrnod, cwestiynwyd y tanberfformiad. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai fod sefyllfa'r pandemig wedi cael effaith ar berfformiad ac nad oedd yn bosib gosod tai ar yr un raddfa oherwydd bod rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth coronafeirws a gofynion cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd y Gwasanaeth yn dadansoddi'r dangosydd hwn yn fanylach er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau am y tanberfformiad. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y broses gosod tai wedi parhau yn ystod y pandemig, ond bod y broses yn arafach e.e. cafodd 131 uned eu gosod eleni, o gymharu â 206 uned yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Er bod hyn yn gyflawniad o hyd o ystyried yr amgylchiadau heriol, bydd y Gwasanaeth yn ceisio dod â pherfformiad yn agosach at y targed yn ystod y misoedd nesaf.

**Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r diweddariadau a roddwyd gan Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac i argymell y mesurau lliniaru a amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 5 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Rhoes y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ynghylch cyfarfodydd mwyaf diweddar y Panel fel a ganlyn -

- Cyflwynwyd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi ac y cyflwynwyd adroddiad yn ei gylch i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 14 Medi 2020.
- Amlinellwyd y prif bynciau trafod yng nghyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, fel y nodir isod -
  - Y cynnydd o ran gwariant ar gyllideb gyfalaf 2020/21 gan nodi fod tanwariant o £16m yn y rhaglen yn Chwarter 1 oherwydd bod cynlluniau wedi cael eu gohirio, yn bennaf oherwydd y pandemig;
  - Perfformiad y gyllideb refeniw yn Chwarter 1, gan graffu'n benodol ar amrywiadau yng nghyllidebau gwasanaethau unigol a'r rhesymau am y tanwariannau/gorwariannau yn y cyfnod hwn.

- Ailgychwyn yr adolygiadau gwasanaeth er mwyn paratoi ar gyfer y broses gosod y gyllideb.
- Y rhagolygon ar gyfer cyllideb 2021/22 gan nodi y bydd y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi ar 22 Rhagfyr, 2020.

**Penderfynwyd nodi'r diweddariad a roddwyd ac i ddiolch i Gadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid am y wybodaeth.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd blaen raglen waith y Pwyllgor er ystyriaeth. Nododd y Cadeirydd fod dau gyfarfod arbennig wedi'u trefnu ar 10 a 17 Rhagfyr 2020 i ystyried y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ardal Llangefni.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y blaen raglen waith ar gyfer 2020/21.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir arbennig a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Alun Roberts, Nicola Roberts.

Aelodau Cyfetholedig: Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd), Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)
Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant)
Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)
Y Cynghorydd R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) *(Aelod Lleol mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen)*
Y Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd)
Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol)
Y Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)
Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau)

**WRTH LAW**:

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorwyr Richard Owain Jones a J A Roberts, Llio Johnson (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Dafydd Roberts, Mr Robat Idris Davies (ar ran Ysgol Talwrn a'r gymuned), Ms Bethan Roberts (Archwilio Cymru), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros

DRAFT

Dro, Swyddog Cyfathrebu (GJ) Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac estynnodd groeso arbennig i Mr Robat Idris Davies a oedd yn bresennol i gyflwyno sylwadau ar ran rhieni a disgyblion Ysgol Talwrn a chymuned ehangach yr ysgol. Gofynnwyd i Aelodau a Swyddogion gyflwyno eu hunain ac amlinellodd y Cadeirydd y broses yr oedd yn bwriadu ei dilyn mewn perthynas â'r busnes dan eitem 2 ar y rhaglen ac esboniodd y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Sgriwtini yn y cyfarfod heddiw yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2020.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn –

Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen fel aelod o gyrff llywodraethu Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

Datganodd Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 2 ar y rhaglen gan fod ei dad yng nghyfraith yn Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Talwrn.

**2 RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION Y CYNGOR - ARDAL LLANGEFNI: YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ynglŷn â'r rhaglen moderneiddio ysgolion mewn perthynas ag ardal Llangefni i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ym mis Chwefror/Mawrth 2020 ar Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig ac yn ceisio sylwadau'r Pwyllgor ar yr argymhelliad mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen, wedi ystyried yr holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a'r asesiadau effaith oedd bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol sef *cynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"*.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant yr adroddiad gan wneud sylwadau cyffredinol am y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion sydd, yn yr achos hwn, yn golygu pwyso a mesur ac asesu dyfodol Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a'r effaith y byddai hynny'n ei gael ar yr holl randdeiliaid, ac yn arbennig plant y ddwy ysgol. Pwysleisiodd y dylai buddiannau'r disgyblion fod ar flaen meddyliau'r holl gyfranwyr wrth iddynt ystyried y mater. Gall moderneiddio ysgolion fod yn fater cynhennus ac mae'n un o agweddau mwyaf heriol gwaith y Cyngor; gellir deall a gwerthfawrogi pryder rhieni ynglŷn â'r mater hwn. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol ysgolion dros y 50 mlynedd nesaf ar adeg pan maent yn wynebu pwysau oherwydd toriadau cyllidebol, costau cynnal a chadw beichus a chydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Newydd ac mae effaith Covid yn ffactor ychwanegol erbyn hyn. Mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried sut y gellir gwneud y gyfundrefn ysgolion yn fwy effeithiol o ran creu'r amodau i athrawon a disgyblion ffynnu a hefyd sut y gellir ei gwneud yn fwy effeithiol o ran gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau fod pob ysgol yn derbyn cyfran deg o'r gyllideb. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at strategaethau'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, fel y cânt eu nodi yn adran 2 yr adroddiad rhagarweiniol. Adroddodd fod swyddogion y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad statudol ar ddyfodol y ddwy ysgol dan sylw rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth 2020. Awdurdodwyd swyddogion i gynnal yr ymgynghoriad ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y papur cynnig ym mis Ionawr 2020. Daeth yr



DRAFT

ymgynghoriad i ben ar y diwrnod ysgol olaf cyn y cyfnod clo cyntaf, o ganlyniad i'r pandemig byd eang a drawsnewidiodd y ddarpariaeth addysg am gyfnod. Dywedodd fod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rhoi estyniad i'r Cyngor tan Fawrth 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig. Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 drwy gydol cyfnod y pandemig.

Mae'r gyrwyr newid allweddol, fel y cânt eu nodi yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018 yn cynnwys gwella safonau addysgol; gwella arweinyddiaeth a rheolaeth; sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas i'r diben; lleihau nifer y lleoedd gweigion; lleihau cost addysg yn gyffredinol a'r amrywiaeth yn y gost fesul disgybl; cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion. Ystyrir hefyd y byddai'r cynnig sy'n cael ei gyflwyno yn sicrhau digon o leoedd yn yr ysgol i'r dyfodol.

Roedd yr Aelod Portffolio Addysg yn cydnabod rôl yr aelodau etholedig o fewn y broses a'u bod, yn ogystal â bod yn atebol i'w cymunedau, yn ysgwyddo nifer o gyfrifoldebau rheoli strategol a chorfforaethol fel y rhai sy'n llunio polisïau'r Cyngor, gan gynnwys llywodraethu eu meysydd yn dda a chymryd rhan yn y gwaith o reoli a llywodraethu'r Cyngor, sydd hefyd yn cynnwys sgrwtini.

Gorffennodd yr Aelod Portffolio ei gyflwyniad drwy ddiolch i'r rheiny a oedd wedi cyfrannu i'r broses.

Wrth dywys y Pwyllgor drwy'r adroddiad ysgrifenedig, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mai'r cynnig gwreiddiol, sef cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei argymell ac ychwanegodd bod nifer o opsiynau amgen eraill wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori a bod adran 6 yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad ohonynt. Derbyniodd y Cyngor 57 o ymatebion ar-lein a 10 ymateb ar ffurf llythyrau a negeseuon e-bost i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd a chafwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau cymunedol (darparwyd crynodeb yn adran 5 yr adroddiad). Cyflwynwyd modelau addysgol eraill ac fe'u haseswyd gan swyddogion yn erbyn meini prawf a gyrwyr y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion cyfredol (adran 6.4 yr adroddiad), ac yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o'u gwendidau a'u cryfderau, ystyriwyd mai'r cynnig gwreiddiol yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen gan ei fod yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a'i fod yn cwrdd â gofynion y gyrwyr newid allweddol a nodir yn y Strategaeth fel a ganlyn -

- Mae angen i safonau ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'r rhagorol a byddai disgwyl iddynt fod yn y categori gwyrdd, sef y categori cefnogaeth isaf. Byddai'r ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal y radd Estyn ac i gadw'r categori gwyrdd yn y tymor canolig i dymor hir.
- Mae'n rhaid i arweinyddiaeth a rheolaeth fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Mae Penaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiadau dysgu. Yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd, rhagwelir na fyddai gan y Pennaeth unrhyw ymrwymiad addysgu. Byddai'n bosib adeiladu a datblygu uwch dîm rheoli a allai wella arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Mae angen i'r adeilad ysgol ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog pob disgybl i gyflawni eu potensial ym mhob maes dysgu ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd. Bydd adeilad yr 21ain ganrif newydd a chanddo gostau cynnal a chadw isel yn cael ei ddylunio i fanyleb BREEAM a bydd yn cydymffurfio'n llwyr â Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £408,500 ar gyfer y ddwy ysgol yn cael eu dileu.
- Mae angen i leoedd ysgol digonol fod ar gael yn yr ardal er mwyn cwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd yn y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn ac o du allan y dalgylch. Mae'r

cynnig yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig yn ogystal â chaniatáu i ddisgyblion Ysgol Talwrn gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn llai. Bydd llai o ddisgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd.

- Mae'n rhaid i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn gost effeithlon a rhaid iddi hefyd leihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol. Byddai'r gost rhagamcanol fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig newydd, sef £3,436 (ar sail cyllideb 2019/20) yn dileu'r amrywiaeth yng nghost y disgybl rhwng Ysgol Talwrn (£4,553) ac Ysgol y Graig (£3,429) ac mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd Ynys Môn (£3,988). Mae'r cynnig yn creu cost refeniw ychwanegol o tua £33k y flwyddyn (mae adran 7 yn cynnwys rhagor o wybodaeth), fodd bynnag mae'n dileu costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £408,500 a fyddai'n costio £32,000 y flwyddyn i'r Cyngor i'w gyllido trwy fenthyciad digymorth dros gyfnod o 20 mlynedd. Gellir dod i'r casgliad felly bod y cynnig yn agos at fod yn gost niwtral.
- Byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dda bresennol yn cael ei gynnal fan leiaf.
- Byddai'r gymuned ehangach yn parhau i gael budd trwy gael defnyddio'r adeilad ysgol newydd ehangedig.

Cynhaliwyd asesiadau effaith mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb, Iaith, Cymuned a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent wedi'u cynnwys fel un Asesiad Effaith cyfansawdd dan Atodiad 1 yr adroddiad ymgynghori. Roedd cyfanswm o 40 o ymatebwyr (70% ohonynt ar-lein) wedi gwneud sylwadau ar yr asesiad effaith a cheir dadansoddiad yn adran 6 yr adroddiad rhagarweiniol. Mae nifer yr ymatebion i'r cwestiwn ar yr asesiad effaith yn rhoi sicrwydd o 95% bod yr ymateb yn gywir ac yn cyfateb i deimladau gweddill y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae lefel hyder o 95% yn golygu, pe cynhelir yr arolwg 100 o weithiau, y byddech yn cael yr un canlyniadau 95% o'r amser. Mae'r Asesiad Effaith yn parhau i fod yn ddogfen fyw ac fe'i diweddarwyd i gynnwys sylwadau rhanddeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol; bydd y ddogfen yn parhau i gael ei diweddaru'n rheolaidd drwy gydol y cyfnod datblygu fel y gall y Cyngor roi mesurau lliniaru ar waith os bydd risg arall yn codi, er mwyn goresgyn y risg neu'r mater sy'n codi, mewn partneriaeth â'r gymuned leol. Bydd y trefniant hwn yn weithredol trwy gydol y cyfnod datblygu a bydd yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Gorfforaethol ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau.

Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth newydd arfaethedig yn costio tua £6m. Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cyfrannu 65% drwy raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a Chyngor Sir Ynys Môn yn cyfrannu 35%.

Wrth ystyried yr achos am newid a gyflwynwyd gan yr Aelod Portffolio Addysg a'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Gan y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn union cyn i'r pandemig Covid-19 ddechrau, a chyn i'r cyfnod clo cyntaf gychwyn, a oedd nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn uwch neu'n is na'r ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd ers 2017. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y derbyniwyd 57 o ymatebion i'r ymgynghoriad diweddaraf o gymharu â 50 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2018 a 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2019.
- Byddai'n ddefnyddiol derbyn ffigyrau ar wahân ar gyfer y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol oherwydd bod y Cadeirydd o'r farn y gellid gwahaniaethu rhwng y ddau ffigwr gan fod y costau cynnal a chadw cyfredol yn adlewyrchu gwaith sy'n hysbys ac y gellir ei fesur, tra bod y costau cynnal a chadw rhagamcanol yn amcangyfrif o waith posib yn y dyfodol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y swm o £408k yn cynrychioli cost rhagamcanol y gwaith fyddai angen ei wneud ar y ddwy ysgol pe byddai'r Cyngor yn parhau i gynnal y ddwy ysgol yn y dyfodol. Cadarnhawyd fod adeilad presennol Ysgol y Graig wedi agor yn 2009.



DRAFT

- Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, a fyddai oedi yng ngham nesaf y broses petai cyfnod clo pellach yn cael ei gyflwyno ar ôl y Nadolig? Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru, yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 pan oedd yr ysgolion ar gau, wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol a oedd yn mynd drwy'r broses moderneiddio ysgolion a oedd yn cyflwyno mân newidiadau i'r disgwyliadau o ran ymgynghori. Gan nad oedd y canllawiau ychwanegol (a oedd yn weithredol hyd at 25 Gorffennaf 2020) yn cynnwys unrhyw beth a oedd yn gwahardd awdurdodau rhag symud ymlaen â'r broses, gall yr Awdurdod symud ymlaen â'r cynnig ar yr amod ei fod yn cael ei gymeradwyo, ac yn amodol hefyd ar unrhyw ganllawiau newydd y gallai Llywodraeth Cymru eu cyhoeddi.
- Er bod hawl gan yr Awdurdod i symud ymlaen, a yw'n briodol i'r Awdurdod wneud hynny o ystyried y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig ac a yw'r Awdurdod yn gallu bod yn siŵr y bydd rhanddeiliaid yn ymateb os ceir cyfnod clo arall, gan y nodwyd yn sgil sylwadau y dywedodd Aelod Lleol iddo'u derbyn, fod rhieni yn anhapus fod yr Awdurdod yn brysio i symud ymlaen â'r rhaglen foderneiddio yng nghanol pandemig. Dywedwyd wrth y pwyllgor bod rhanddeiliaid angen cael gwybod yn derfynol beth yw'r sefyllfa o ran trefniadaeth ysgolion a bod Archwilio Cymru, yn ei asesiad o ymateb yr Awdurdod i'r argyfwng Covid-19 a'i ymagwedd o ran adfer dyddiedig 4 Tachwedd 2020 yn datgan "Efallai bydd y Cyngor hefyd yn gallu nodi cyfleoedd i barhau i gyflawni elfennau blaenoriaeth o'r rhaglen drawsnewid a ffurfioli cynlluniau adfer, a fydd yn cyfrannu at gydnerthedd gwasanaethau'r Cyngor". Gan nad yw'n hysbys am ba hyd y pery'r pandemig, mae'n rhaid i'r Awdurdod, er mwyn sicrhau gwytnwch ei wasanaethau i'r dyfodol symud ymlaen, serch mewn ffyrdd gwahanol a drwy fabwysiadu gwahanol ddulliau ymgysylltu. Yn ogystal, mae'r cyfyngiad amser mewn perthynas â chyllid Band B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ffactor pwysig wrth amserlennu'r cynnig a'r broses gysylltiedig.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y ffigwr diweddaraf ar gyfer lleoedd gweigion yn Ysgol Talwrn gan y nodwyd bod lleihau lleoedd gweigion yn un o yrwyr allweddol y rhaglen foderneiddio. Yn ogystal, ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch faint o ddisgyblion o du allan i ddalgylch yr ysgol sy'n mynychu Ysgol Talwrn, yn ogystal â faint o blant sy'n byw yn Nhalwrn sy'n mynychu ysgolion eraill. Dywedwyd wrth y Pwyllgor, ar sail y data diweddaraf ar y system rheoli gwybodaeth ysgolion SIMS, fod nifer disgyblion Ysgol Talwrn wedi gostwng ers yr ymgynghoriad a bod 36 o ddisgyblion ddechrau mis Rhagfyr, gan olygu fod nifer y lleoedd gweigion wedi cynyddu i 13, neu 27%. Yn ogystal, mae 33% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn byw ym mhentref Talwrn, mae 13% o ddisgyblion yr ysgol yn dod o ddalgylch Ysgol Goronwy Owen, mae 37% o ddisgyblion yr ysgol yn dod o ddalgylch Ysgol y Graig ac 17% o'r disgyblion yn dod o ddalgylchoedd eraill yn cynnwys Henblas, Bodffordd, Pentraeth, Llanfairpwll a Chorn Hir.
- A ddatblygwyd unrhyw fesurau lliniaru i leihau unrhyw effaith bosib ar yr iaith Gymraeg o ganlyniad i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig lle nad yw'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol tu allan i'r dosbarth mor gyffredin o bosib. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth allweddol ar gyfer holl ysgolion yr Awdurdod a bod 72% o ddisgyblion Ysgol y Graig yn siarad Cymraeg gartref a'r ffigwr ar gyfer Ysgol Talwrn yw 40%. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog yn flaenoriaeth i'r ysgol newydd, fel y mae ym mhob un o ysgolion yr Awdurdod, a byddai'r ysgol newydd estynedig arfaethedig yn ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg. Mae gan yr Awdurdod nifer o gynlluniau ar gyfer canolfannau iaith ledled yr Ynys ac mae'n gweithio i ddatblygu gwytnwch ym mhob ysgol o ran datblygu'r iaith Gymraeg.
- A yw'r cynnig ar gyfer ysgol estynedig newydd yn fforddiadwy ac yn rhesymol o ystyried effaith y pandemig Covid-19 ar economi'r Ynys a'i oblygiadau parhaus mewn perthynas â chyllid awdurdodau lleol, a chyllidebau addysg yn benodol. Hysbyswyd y



DRAFT

Pwyllgor, er bod nifer o gynlluniau dan y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion wedi cynhyrchu arbedion refeniw parhaus, y flaenoriaeth ar gyfer cynlluniau yn ardal Llangefni yw creu capasiti ychwanegol gan fod diffyg capasiti wedi cael ei nodi fel ffactor sy'n creu pwysau yn yr ardal y mae angen rhoi sylw iddo. Er bod costau benthyca i weithredu'r cynllun dan ystyriaeth yn uwch na'r arbedion refeniw a ragwelir, byddai peidio â symud ymlaen yn awr yn golygu bod perygl o golli arian grant o 65% gan Lywodraeth Cymru gan olygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor ysgwyddo costau llawn unrhyw fuddsoddiad yn gysylltiedig â'r ddwy ysgol yn y dyfodol. Oherwydd oedran adeilad yr ysgol, mae risg pellach y gallai costau eraill na chawsant eu rhagweld ac nad oes cyllideb ar eu cyfer o'r herwydd, ymddangos yn y dyfodol pe byddai Ysgol Talwrn yn aros ar agor. Mae'r cynnig yn dileu'r risg hwn.

- Mewn perthynas â phryderon a fynegwyd gan rieni y gallai fod yn anodd i ddisgyblion o Ysgol Talwrn ymgartrefu mewn ysgol mor fawr â'r Ysgol y Graig estynedig arfaethedig ac y byddai symud yn tarfu arnynt, pa gynlluniau sydd gan yr Awdurdod i roi sicrwydd i rieni a'u plant bod dyfodol hapus a llewyrchus iddynt yn Ysgol y Graig? Dywedwyd wrth y Pwyllgor, er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gallai'r newid fod yn anodd i rai disgyblion, yn arbennig o Ysgol Talwrn, byddai'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y trosglwyddiad mor llyfn â phosib ac i roi croeso cynnes i ddisgyblion o Ysgol Talwrn. Er bod gweithgareddau ar y cyd wedi cael eu cynnal rhwng ysgolion a oedd yn cael eu huno yn y gorffennol er mwyn i ddisgyblion ddod i adnabod ei gilydd, mae cyfyngiadau yn gysylltiedig â Covid-19 yn golygu bod hyn yn fwy heriol. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r profiad a gafwyd wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 drosglwyddo i Flwyddyn 7, lle trefnwyd gweithgareddau rhithwir ar ffurf teithiau rhithwir, fideos a phodlediadau, er mwyn llunio cynllun priodol. Yn ogystal, dywedwyd wrth y Pwyllgor na fydd y newid yn digwydd ar unwaith, gan na fyddai'r Ysgol y Graig estynedig arfaethedig yn barod tan haf 2023, a'r gobaith yw y bydd yr amgylchiadau'n wahanol erbyn hynny a'r heriau a grëwyd gan y pandemig wedi cilio.

Rhoddwyd cyfle i Mr Robat Idris Davies gyflwyno sylwadau ar y cynnig o safbwynt Ysgol Talwrn a'r gymuned. Nododd y Pwyllgor mai Mr Davies oedd yr unig berson i ofyn am gael siarad yn y cyfarfod dan Brotocol y Cyngor ar gyfer Siarad Cyhoeddus mewn cyfarfodydd rhithwir o'r Pwyllgor Sgriwtini. Dywedodd Mr Davies ei bod yn fraint fod y gymuned wedi gofyn iddo siarad ar ran ei rhan, a chododd y pryderon a ganlyn:

- Roedd yn dristwch fod rhaid iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod o gwbl i amddiffyn Ysgol Talwrn rhag cael ei chau gan mai hon yw'r trydydd ymgynghoriad mewn 3 blynedd, a dywedodd y bu sawl ymgais i gau'r ysgol cyn hynny hefyd. Mae hyn yn annheg ac yn sigo ysbryd ac mae'n sicr o fod wedi dylanwadu ar benderfyniad rhieni i fynd â'u plant i ysgolion tu allan i'r dalgylch, gan fod yr ansicrwydd parhaus yn boen iddynt.
- Mewn cyfnod pan mae cymunedau dan warchae am nifer o resymau, mae colli ysgol yn ergyd greulon; efallai na fydd yr effaith yn amlwg ar unwaith ond dros amser mae calon y gymuned yn cael ei cholli ac mae'r bobl ifanc yn symud allan. Mae ysgol yn fwy nag adeilad i addysgu plant yn ffurfiol; mae angen pentref i fagu plentyn.
- Mae'r papur ymateb i'r ymgynghoriad yn gatalog sy'n gwrthod pob dadl o blaid cadw Ysgol Talwrn ar agor ac yn gwrthwynebu pob dadl resymegol o blaid datrysiadau amgen i'r broblem wirioneddol o drefnu darpariaeth addysg dda ar gyfer plant yn ardal Llangefni. Nid dadl rhwng Talwrn a Llangefni yw hon.
- Wythnos yn unig a gafwyd i ddarllen ac ystyried dogfen mor hirfaith. A yw'n deg disgwyl i'r Pwyllgor wneud penderfyniad mor bellgyrhaeddol os nad yw wedi cael amser i ystyried y papur yn llawn ac yn rhesymol? Ydi'n rhesymol hefyd rhoi blaenoriaeth i'r mater hwn yng nghanol pandemig pan fu'n anodd i rieni drafod yn ystyrlon? Oni ddylid gohirio'r mater? Gan fod y mater wedi bod dan ystyriaeth am gyfnod mor hir, ni all fod gymaint â hynny o frys yn ei gylch ac eithrio am resymau'n ymwneud â chael arian gan Lywodraeth Cymru.

- Ymddengys mai ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad yw hyn – mae'r rhan fwyaf o bobl yn anghytuno â'n cynnig ond byddwn yn bwrw ymlaen beth bynnag; cyhyd â'n bod yn dilyn y broses yn gywir, byddwn yn cau'r ysgol. Y safbwyntiau yn yr adroddiad ymateb i'r ymgynghoriad yw safbwyntiau Swyddogion y Cyngor – nid yw'n dod yn safbwynt y Cyngor nes bod y Pwyllgor Gwaith wedi mabwysiadu'r papur a nodwyd bod y gwahaniaeth yn bwysig.
- Mae'n ofynnol dan y Côd Trefniadaeth Ysgolion bod y gwaith yn cael ei wneud â meddwl agored. Fodd bynnag, cyn belled ar yr oedd yn ymwybodol, ar ôl i'r cynllun gael ei dynnu'n ôl y llynedd nid yw Swyddogion y Cyngor wedi cysylltu â'r ddwy ysgol i geisio dod i gytundeb ar y ffordd ymlaen. Mae'r penderfyniad i beidio â derbyn barn groes yn amlwg yn yr adroddiad, ac er nad yw'n anghyffredin i rieni Ysgol Talwrn wrthwynebu cau'r ysgol dylai dyfnder gwrthwynebiad rhieni, staff, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol fod yn rhywbeth i fyfyrio arno. Cynigiodd Mr Davies enghraifft o unochredd yr adroddiad drwy gyfeirio at adran 5.2.1 y ddogfen lle ceir dyfyniad gan un rhiant o Ysgol Talwrn sy'n cytuno â'r cynnig, ond ni ddyfynnir unrhyw sylw a wnaed gan y 91% o ymatebwyr oedd yn anghytuno.
- Er y cydnabyddir y dylid cymryd y cam rhesymegol i gynyddu capasiti yn Llangefni, nid oes angen cau Ysgol Talwrn er mwyn gwneud hynny. Mae safonau addysgol yn yr ysgol yn dda ac er bod yr adeilad yn hen, nid yw ar fin dymchwel. Mae'r sylw na ellir gwarantu safonau yn yr ysgol yn y dyfodol yn berthnasol i unrhyw ysgol; mae dadleuon y Cyngor o ran cost fesul disgybl, amser digyswllt ar gyfer y pennaeth a dosbarthiadau aml-oedran yn osodiadau cyffredinol y gellir eu defnyddio i gau dwsinau o ysgolion gwledig yng Nghymru ac nid ydynt yn benodol i Ysgol Talwrn. Nid yw'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i gau ysgolion gwledig ac er y derbynnir ar lefel fathemategol bod y gost y pen o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledydd yn uwch nag mewn ardaloedd trefol lle mae'r boblogaeth yn uwch, mae llai o wasanaethau'n cael eu darparu mewn ardaloedd gwledig sy'n golygu bod cyfanswm gwariant y pen yn is mewn ardaloedd gwledig.
- Teimlir bod y datganiadau ynghylch yr effaith ar yr iaith a'r gymuned yn ddiffygiol ac nad ydynt wedi cael eu diweddaru i ystyried y newidiadau radical a achoswyd gan y pandemig. Mae ofn y bydd cau'r ysgol yn cael effaith ddinistriol ar y gymuned sy'n siarad Cymraeg – bydd teuluoedd â phlant yn llai tebygol o brynu tai mewn cymuned lle nad oes ysgol gan arwain at boblogaeth hŷn a chymuned lle mae nifer yr ail gartrefi yn debygol o gynyddu. I bobl sy'n symud i mewn, mae presenoldeb ysgol yn cryfhau'r cysylltiad â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ac o ganlyniad mae'n gwella gobaith y gymuned o oroesi.
- Gellid defnyddio'r materion a godwyd gan yr ymgynghoriad i lunio casgliad gwahanol a'r ffordd resymegol ymlaen fyddai gwneud cais am arian o gronfa Ysgolion yr 21ain Ganrif i ymestyn a gwella Ysgol y Graig, ac mae rhanddeiliaid Ysgol Talwrn yn cytuno fod angen gwneud hynny, ac ar yr un pryd, cynnwys swm cymedrol ar gyfer gwelliannau strwythurol yn Ysgol Talwrn, ac ar ôl gwneud hynny gellir ystyried modelau addysgol gwahanol ar gyfer yr holl ysgolion yn ardal Llangefni. O'i wneud yn gywir, gallai hyn ehangu gorwelion addysgol a chymdeithasol yr holl ddisgyblion.

Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod sylwadau Mr Davies ac mewn ymateb ail-bwysleisiodd nad yw'r broses yn cael ei brysio a bod angen canfod atebion. Gyda'r amrywiaeth yn y gost fesul disgybl wedi cyrraedd uchafbwynt, mae'n hynod o bwysig sicrhau tegwch a chysondeb ar draws pob cymuned. Er yr ystyriwyd ffedereiddio Ysgol Talwrn ag ysgol arall, dangosodd y dadansoddiad y byddai'n cwrdd yn rhannol yn unig â'r heriau a wynebir gan yr ysgol. Cydnabyddir bod safonau yn dda yn Ysgol Talwrn ar hyn o bryd, ond y gall safonau newid yn gyflym mewn unrhyw ysgol ac mae risg y byddai'r perfformiad hwn yn anodd ei gynnal yn y tymor hir. Er bod cymunedau â'u hunaniaeth eu hunain, mae Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ddigon agos i fod yn rhan o'r un gymuned estynedig. Mae ysgolion cynradd mwy yn dod dan bwysau



DRAFT

cynyddol hefyd sy'n golygu nad oes digon o gynaliadwyedd yn y system addysg bresennol. Mae'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig cyfle heb ei debyg i drawsnewid ysgolion ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg na fydd oedi pellach yn gwella'r sefyllfa a bod rhaid ystyried y darlun ar draws yr Ynys. Mae cyllid ac adnoddau yn ystyriaethau ymhlith nifer o resymau dros fod eisiau symud ymlaen ac, gan ei bod yn amhosibl bodloni anghenion a dewisiadau pob rhiant, mae ffactorau cyffredinol yn rhan o'r trafodaethau. Fodd bynnag, y prif amcan yw sicrhau tegwch cyffredinol ar draws yr Ynys.

Siaradodd y Cynghorwyr Nicola Roberts a Dylan Rees yn eu capasiti fel Aelodau Lleol yn ogystal ag aelodau o'r Pwyllgor. Roedd y ddau yn cydnabod safon uchel yr addysg yn Ysgol Talwrn a bod hynny, yn ogystal ag ethos gofalgar yr ysgol, yn esbonio pam ei bod yn ysgol o ddewis i lawer o rieni sy'n cofrestru eu plant yn yr ysgol. Mae'r ystyriaethau hyn yn golygu ei bod yn anodd iawn gwneud penderfyniad ynghylch dyfodol Ysgol Talwrn. Roedd y ddau aelod yn cydnabod hefyd bod dyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau fod holl ddisgyblion yn Ynys yn cael eu haddysgu yn yr ysgolion gorau posib sy'n gallu darparu'r adnoddau addysgol diweddaraf a'r rhai gorau, ond wrth wneud hynny ceisiwyd sicrwydd ganddynt ynghylch y materion canlynol -

- Ei bod yn briodol gwneud penderfyniad mor arwyddocaol yn ystod pandemig. Mae cyfyngiadau'n gysylltiedig â Covid wedi atal cymuned Talwrn rhag dod ynghyd fel cymuned i dafod ac i lunio ymateb i'r cynnig ac o ganlyniad maent yn teimlo'n ddifreintiedig. Canfyddiad y cyhoedd yw bod yn cynnig yn cael ei gyflwyno drwy'r drws cefn.
- Bod y cynnig, pe byddai'n cael ei gymeradwyo, yn rhoi sylw gwirioneddol i ddiffyg capasiti yn y rhan hon o Langefni yn y tymor hir. Mae ysgolion yr ardal, ac Ysgol Talwrn a'i chymuned yn arbennig, wedi dioddef ansicrwydd a'r pryder sy'n cyd-fynd â hynny am ormod o amser i'r broses hon gael ei hailadrodd eto.
- Y byddai modd goresgyn yr heriau o uno dwy ysgol mewn sefyllfa o bandemig heb gael effaith niweidiol ar y plant.
- Y rhesymau pam na ellir defnyddio'r model sy'n cael ei gynnig yn awr ar gyfer yr ysgolion yn y rhan arall o Langefni, lle mae Ysgol Bodffordd yn cael ei chadw yn awr ac ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol Corn Hir, yn achos Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig.
- Bod ystyriaeth ddigonol wedi cael ei roi i'r datblygiadau tai a gymeradwywyd ac a gynlluniwyd ar gyfer ardal Llangefni a bod eu goblygiadau o ran lleoedd ysgol wedi cael eu cynnwys yng nghynlluniau'r Awdurdod.
- Effaith bosib gweithredu'r cynnig ar y gymuned. Heriwyd casgliad yr Asesiad Effaith, sef y byddai'n cael effaith niwtral.
- Y bygythiad i weithgareddau cymunedol a gynhelir yn Nhalwrn o ganlyniad i gau'r ysgol a chyfeiriwyd yn benodol at y Clwb Cinio Pensiynwyr, sy'n weithgaredd sy'n pontio'r cenedlaethau gan ei fod wedi'i leoli yn yr ysgol; Cylch Meithrin Talwrn a'r Eisteddfod Leol y mae'r ysgol yn gonglfaen iddi. Gofynnwyd am sicrwydd y bydd yr Awdurdod yn ceisio darparu cymorth er mwyn caniatáu i'r gweithgareddau cymunedol hyn barhau.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr ymgynghoriad hwn wedi denu mwy o ymatebion sy'n dangos fod y gymuned wedi ymgysylltu fwy â'r broses. Byddai oedi pellach yn peryglu arian grant Llywodraeth Cymru a byddai oblygiadau i Ysgol y Graig. Er nad yw'r Awdurdod yn gallu darparu cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau cymunedol, rhoddodd sicrwydd y byddai'n gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r fath weithgareddau, fel y mae'n ei wneud ym mhob cymuned ar yr Ynys. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg nad oedd yn credu fod rhaid cael ysgol i gael gweithgareddau cymunedol a rhoddodd



DRAFT

enghreifftiau o bentrefi lle mae gweithgareddau o'r fath, yn cynnwys eisteddfodau lleol mewn rhai achosion, wedi parhau a ffynnu er nad oes ganddynt ysgol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y byddai'r Awdurdod yn defnyddio dulliau rhithwir eraill i ymgysylltu â disgyblion o Ysgol Talwrn a'u croesawu i'w hysgol newydd pe byddai cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i fod mewn grym, ac yn eu cynorthwyo i ymgyfarwyddo â'r trefniadau newydd. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd y newid yn digwydd dros nos ac y bydd yn cymryd amser i gwblhau'r estyniad arfaethedig i Ysgol y Graig er mwyn derbyn disgyblion o Ysgol Talwrn, ac y gallai'r sefyllfa fod yn wahanol bryd hynny. Cadarnhaodd y Swyddog bod yr Awdurdod wedi ystyried y datblygiadau tai newydd yn yr ardal (cyfeirir at hynny yn adran 5.4.8 yr adroddiad) ac roedd yn credu y byddai'r cynnig a gyflwynwyd yn darparu digon o leoedd ar gyfer y nifer uchaf o ddisgyblion yn yr ysgol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r Awdurdod yn trafod y posibiliadau o ran cynnal y Cylch Meithrin. Mae'r Awdurdod yn trin pob achos moderneiddio ysgolion ar sail unigol ac yn gwerthuso pob achos yn erbyn set o feini prawf penodol e.e. gwariant ar atgyweirio a chynnal a chadw, cyflwr a lleoliad yr adeilad, costau cludiant, cost fesul disgybl a dyraniad cyllideb cyn gwneud argymhelliad.

Ategodd y Cynghorydd R.G. Parry, OBE, FRAgS, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac Aelod Lleol, nad yw'r Awdurdod yn brysio i wneud penderfyniad a bod trefniadaeth ysgolion yn y dyfodol yn y rhan hon o Langefni wedi bod dan ystyriaeth ers cyfnod hir. Roedd wedi synnu fod cyn lleied o ddisgybion Ysgol Talwrn yn dod o'r pentref ei hun (roedd yr Aelod Portffolio Addysg wedi cadarnhau yn gynharach yn ystod y cyfarfod mai 14 oedd y ffigwr pan wnaeth o ymholiad beth amser yn ôl) a gofynnodd am ddadansoddiad, cyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr, o aelwydydd yr 14 disgybl h.y. a oeddent yn aelwydydd unigol neu'n aelwydydd gyda mwy nag un plentyn. Roedd yn cydnabod ei bod yn naturiol ac yn ddealladwy bod rhieni yn pryderu am newid yn nhrefniadau addysg eu plant a dywedodd bod pryderon tebyg yn bodoli cyn i ysgolion eraill gael eu huno dan y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn. Mae Penaethiaid Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen wedi cadarnhau bod disgyblion wedi ymgartrefu'n dda dan y trefniadau newydd yn eu profiad hwy.

Er bod Mrs Anest Frazer, Aelod Cyfetholedig a chynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru, yn cytuno fod y penderfyniad yn un anodd ei wneud, roedd o'r farn mai ei chyfrifoldeb hi fel aelod o'r Pwyllgor oedd ystyried anghenion holl ddisgyblion y Sir ac i sicrhau eu bod yn derbyn darpariaeth sy'n cwrdd ag anghenion y cwricwlwm newydd ac yn derbyn adnoddau ysgolion yr 21ain ganrif. Roedd yn cydnabod pwysigrwydd cadw cymunedau a'r iaith Gymraeg yn hyfyw, ond roedd yn teimlo nad tasg i ysgolion yn unig yw hynny ond ei fod yn gyfrifoldeb i bawb. Dyletswydd yr Awdurdod yw sicrhau bod gan ysgolion y gofod a'r adnoddau priodol i alluogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu.

Wrth gydnabod bod y broses yn un anodd, roedd Mr Dyfed Wyn Jones, cynrychiolydd Rhieni Lywodraethwyr y sector Cynradd, yn cytuno mai rôl y Pwyllgor yw ystyried y camau mwyaf priodol i'w cymryd yng nghyd-destun darparu'r amodau i blant fydd yn caniatáu iddynt ddatblygu a ffynnu yn addysgol. Cyfeiriodd at Ysgol Llanfairpwll fel enghraifft dda o ysgol gynradd fawr sy'n cynnal cymdeithas Gymraeg yn llwyddiannus ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu ar iard yr ysgol hefyd. Nid yw ysgolion cynradd mawr o reidrwydd yn negyddol a gallant fod yn gyfrwng i'r iaith Gymraeg ffynnu yng nghyd-destun siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Amlygodd Mr Jones yr angen i symud ymlaen â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion er budd cymunedau eraill ar Ynys Môn sy'n disgwyl am eu tro i elwa ar y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mynegodd y Cynghorydd Bryan Owen nifer o bryderon ynglŷn â'r cynnig o ran gwerth am arian ac amlygodd y byddai 10% o'r £2.1m (cyfraniad yr Awdurdod o 35%), y mae'r

Awdurdod yn bwriadu ei fenthyca dros gyfnod o 50 mlynedd i adeiladu'r ysgol estynedig newydd, yn ddigon i ddod ag Ysgol Talwrn i'r safon ofynnol. Mewn perthynas â'r anghysondeb wrth drin ardaloedd, dywedodd y barnwyd bod ffederasiwn yn ddatrysiad addas ar gyfer ysgolion yn Llanbedrgoch, Moelfre a Benllech, ond nid ar gyfer ysgolion yn ardal Cefni, ac mewn perthynas â lleoliad yr estyniad arfaethedig i Ysgol y Graig, gyferbyn â phrif adeilad yr ysgol ar ran o'r lôn brysur sy'n amgylchynu Llangefni, byddai'n rhaid i blant groesi'r ffordd i gyrraedd yr estyniad newydd. Yn ogystal, roedd y Cynghorydd Owen yn credu y byddai cau Ysgol Talwrn yn newid cymeriad y gymuned yn yr hirdymor wrth i eiddo gael ei brynu gan fewnfudwyr sydd eisiau prynu ail gartrefi yn yr ardal.

Eglurodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad mai nod y gwaith sy'n cael ei wneud yn y rhan hon o Langefni yw cynyddu capasiti er mwyn sicrhau bod digon o leoedd i gwrdd ag anghenion presennol ac anghenion yn y dyfodol; mae darpariaeth tai yn yr ardal yn cynyddu a dengys y gwaith a wnaed gyda'r Gwasanaethau Tai a Chynllunio y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y plant oedran cynradd. Byddai'n rhaid i'r Awdurdod gyllido unrhyw fuddsoddiad cyfalaf yn Ysgol Talwrn yn llawn gan mai prif bwrpas y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw darparu adeiladau ysgol ar gyfer y 50 i 60 mlynedd nesaf; er enghraifft, ni fyddai cynnig i brynu a gosod dosbarth symudol newydd yn Ysgol Talwrn yn cydymffurfio ag amcanion y Rhaglen. Yn ystod y deunaw mis diwethaf mae Swyddogion wedi edrych ar safleoedd posib ar gyfer yr estyniad i Ysgol y Graig; mae'r safle a ffafrir ar yr un ochr o'r ffordd â phrif adeilad Ysgol y Graig.

Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod lleoliad arfaethedig yr estyniad i Ysgol y Graig i'r chwith o'r briffordd ar yr un ochr â phrif adeilad yr ysgol sy'n golygu na fydd rhaid i blant groesi ffordd gyswllt Llangefni i fynd o un adeilad i'r llall. O ran diogelwch priffyrdd ac ystyriaethau cysylltiedig, dywedodd fod rhaid i'r estyniad arfaethedig newydd gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a derbyn caniatâd drwy'r broses gynllunio, ac fel rhan o'r broses gynllunio byddai asesiad o effaith trafnidiaeth yn cael ei gynnal a byddai'r cynllun yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Gwasanaeth Priffyrdd cyn cyflwyno'r cais. Yn ogystal, byddai'r cynllun arfaethedig yn cynnig cyfle i ddatrys y problemau parcio presennol yn Ysgol y Graig, yn arbennig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Er bod Ysgol y Graig wedi ei chynllunio fel ysgol werdd ac y darparwyd llwybrau cerdded a beicio ardderchog i'r ysgol, nid yw rhieni'n gwneud defnydd llawn ohonynt wrth fynd â'u plant i'r ysgol. Wrth adeiladu Ysgol y Graig, dilynodd yr Awdurdod ganllawiau Llywodraeth Cymru o ran darparu nifer sylfaenol o leoedd parcio er mwyn annog rhieni a phlant i gerdded a beicio, ond gyda'r datblygiad newydd byddai'r Awdurdod yn ceisio darparu'r nifer uchaf o leoedd parcio er mwyn cydnabod y ffaith nad yw'n ymarferol i blant o Dalwrn gerdded neu feicio i Ysgol y Graig. Yn ogystal, bydd cludiant ar fws yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim i blant o Dalwrn fyddai'n trosglwyddo i Ysgol y Graig. Dylid nodi hefyd bod llif y traffig heibio Ysgol y Graig wedi gostwng yn sylweddol ers i ffordd gyswllt newydd Llangefni agor yn 2017.

Wrth ymateb i'r mater o ffedereiddio, ategodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr opsiwn wedi cael ei ystyried a'i werthuso yn y ddogfen ymgynghori ond canfuwyd nad oedd yn cwrdd â'r gofynion nac yn mynd i'r afael â'r heriau yn yr achos hwn.

I gloi, rhoddodd y Cadeirydd grynodeb byr o'r prif faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Owen fod Ysgol Talwrn yn cael ei ffedereiddio ag Ysgol y Graig neu'r Ysgol Corn Hir newydd.

Yn dilyn hynny cafwyd trafodaeth bellach ynghylch addasrwydd y cynnig (gan nad oedd Ysgol Corn Hir yn cael ei hystyried fel rhan o fusnes y cyfarfod hwn) a gofynnodd y Cynghorydd Nicola Roberts gwestiynau ynghylch sut fyddai'r cynnig yn gweithio ar lefel ymarferol o ystyried bod Penaethiaid Ysgol y Graig ac Ysgol Corn Hir yn wynebu pwysau

llwyth gwaith llawn amser yn barod heb ofyn iddynt reoli endid mwy, a chan ystyried hefyd bod y Swyddogion o'r farn nad yw ffedereiddio'n ymarferol yn yr achos hwn. Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd, darparodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro gyngor ynghylch materion gweithdrefnol a chadarnhaodd y gellid gwneud y cynnig, ac ymhellach y gallai unrhyw aelod o'r Pwyllgor ofyn am eglurhad gan y cynigydd er mwyn deall y cynnig yn well a'r cyfiawnhad drosto. Cadarnhaodd y Cynghorydd Bryan Owen ei fod yn cynnig, er mwyn sicrhau hyfywedd parhaus cymuned Talwrn***, bod Ysgol Talwrn yn cael ei ffedereiddio ag Ysgol y Graig neu'r Ysgol Corn Hir newydd.*** Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Aled Morris Jones.

Gofynnwyd i swyddogion roi ei barn ar y cynnig a chadarnhawyd nad ffedereiddio oedd yr ateb mwyaf addas yn yr achos hwn yn eu barn hwy.

Yn y bleidlais a ddilynodd, trechwyd y cynnig o 8 pleidlais i 2.

Cynigiodd y Cynghorydd John Griffith, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Richard Griffiths, ***mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen yw cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.*** (h.y. yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog).

Yn y bleidlais a ddilynodd, cariwyd y cynnig o 8 pleidlais i 2.

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed, PENDERFYNODD y Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai barhau â'r cynnig gwreiddiol fel y ffordd fwyaf priodol ymlaen, sef cynyddu capasiti Ysgol y Graig i dderbyn disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir arbennig a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard O. Jones, Bryan Owen, Alun Roberts.<br><br>Aelodau cyfetholedig: Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant-Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd), Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)<br>Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid)<br>Y Cynghorydd R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) *(Aelod Lleol mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen)*<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd)<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol)<br>Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol (GWT)<br>Prif Swyddog Prisio (TDE)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIAD:** | Y Cynghorydd Richard Griffiths. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dafydd Roberts, Mr Dafydd Jones (Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir), Mr Gareth Parry (Aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Bodffordd), Rheolwr Rhaglen (AH), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth |

Lleol)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac estynnodd groeso arbennig i Mr Dafydd Jones, Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir ac i Mr Gareth Parry, aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Bodffordd yr oedd y ddau ohonynt yn bresennol i wneud sylwadau mewn perthynas â'r busnes o dan eitem 2 ar y rhaglen. Cyflwynodd yr Aelodau a'r Swyddogion eu hunain ac esboniodd y Cadeirydd y broses a fyddai'n cael ei dilyn wrth ddelio ag eitem 2 ar y rhaglen.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu gan y Cynghorydd Dylan Rees mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen fel Is-Gadeirydd corff llywodraethu Ysgol Bodffordd.

**2 RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION Y CYNGOR – ARDAL LLANGEFNI (YSGOL CORN HIR AC YSGOL BODFFORDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn perthynas â’r rhaglen moderneiddio ysgolion ar gyfer ardal Llangefni i’w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ym mis Chwefror / mis Mawrth 2020 ar Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac yn gofyn am farn y Pwyllgor ar yr argymhelliad mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen yn dilyn yr ymgynghoriad statudol yw'r dewis arall rhesymol sef *adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.*

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc a gwnaeth sylwadau cyffredinol am y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion sydd, yn yr achos hwn, yn cynnwys pwyso a mesur dyfodol Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd a'r effaith ar yr holl randdeiliaid o ganlyniad, ac yn arbennig ar blant y ddwy ysgol y dylai eu buddiannau a’u llesiant fod y brif ystyriaeth yn y mater hwn. Gall moderneiddio ysgolion fod yn fater dadleuol ac mae ymhlith agweddau mwyaf heriol ar waith y Cyngor a dywedodd ei fod yn deall ac yn sylweddoli pryderon rhieni ac eraill mewn perthynas â'r mater hwn yn llawn. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol ysgolion dros yr 50 mlynedd nesaf ar adeg pan maent dan bwysau oherwydd toriadau cyllidebol, costau cynnal a chadw beichus, cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Newydd yn ogystal ag effaith Covid erbyn hyn. Mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried sut y gellir gwneud y system ysgolion yn fwy effeithiol yn yr ystyr o greu'r amodau lle gall athrawon a disgyblion ffynnu a hefyd sut y gellir ei gwneud yn fwy effeithlon o ran gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau bod pob ysgol yn derbyn ei chyfran deg o'r gyllideb. Mae cyswllt rhwng y  Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2018, â phrif strategaethau a blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir yn adran 2 yr adroddiad rhagarweiniol ac mae'r cynnig hwn yn rhychwantu Band A a Band B yn amserlen y Strategaeth.

Rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth, 2020 cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar ddyfodol y ddwy ysgol dan sylw. Awdurdodwyd swyddogion i gynnal yr ymgynghoriad ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y papur cynnig ym mis Ionawr, 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar y diwrnod ysgol olaf cyn y cyfnod clo cyntaf o ganlyniad i'r pandemig byd-eang a drawsnewidiodd y ddarpariaeth addysg am gyfnod. Dywedodd yr Aelod Poertffolio y dylid nodi bod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rhoi estyniad i'r Cyngor tan fis Mawrth, 2021 i

gyhoeddi unrhyw gynnig. Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 trwy gydol cyfnod y pandemig.

Roedd y gyrwyr allweddol ar gyfer newid sydd wedi’u cynnwys yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018 yn cynnwys gwella safonau addysgol; gwella arweinyddiaeth a rheolaeth; sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas at i’r pwrpas; lleihau nifer y lleoedd gweigion (yn achos ardal Llangefni sicrhau bod digon o gapasiti) lleihau cost gyffredinol addysg a'r amrywiad mewn cost fesul disgybl; cynnal a gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio dros Addysg at rôl aelodau etholedig yn y broses ac yn ogystal â bod yn atebol i'w cymunedau unigol, dywedodd fod ganddynt, fel llunwyr polisîau'r Cyngor, nifer o gyfrifoldebau rheoli  strategol a chorfforaethol gan gynnwys llywodraethu eu hardaloedd yn dda a chymryd rhan yn y gwaith o reoli a llywodraethu'r Cyngor sydd hefyd yn cynnwys sgriwtini.

Daeth yr Aelod Portffolio â'i gyflwyniad i ben trwy ddiolch i bawb a oedd wedi cyfrannu at y broses.

Aeth y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc â’r Pwyllgor trwy’r adroddiad ysgrifenedig ac amlygodd y prif bwyntiau, Cyfeiriodd at yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth, 2020 a oedd yn ystyried nifer o gynigion gan gynnwys cynnig gwreiddiol y Cyngor ar gyfer y ddwy ysgol, *sef ail-leoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion o Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir*. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, y cynnig sy'n cael ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith yw'r dewis arall rhesymol, *sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.*

Cafwyd 823 o ymatebion ar-lein ac ar bapur i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd ymatebion gan staff, rhieni, llywodraethwyr a phlant mewn perthynas â'r ddwy ysgol yn ogystal â chan unigolion a sefydliadau (darperir crynodeb yn adran 5 yr adroddiad). Cadarnhaodd yr atborth sylweddol gan fwyafrif y rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â'r ddwy ysgol eu bod yn derbyn y cynnig gwreiddiol mewn perthynas â'r angen am ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ond roeddent yn cwestiynu pam y dylai hyn fod ar draul Ysgol Bodffordd. Fel rhan o’r broses, cyflwynwyd modelau addysgol eraill ac fe’u haseswyd gan swyddogion yn erbyn meini prawf a gyrwyr y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion gyfredol (dadansoddiad yn adran 6.4 o’r adroddiad). Ar ôl ystyried yr holl ddewisiadau amgen ac yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o'u cryfderau a'u gwendidau yn erbyn gyrwyr y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, ystyrir mai'r dewis arall rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen oherwydd ei fod yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd. Byddai hyn yn cyfateb i weithredu'r cynnig gwreiddiol yn rhannol h.y. byddai adeilad newydd yn cael ei ddarparu ar gyfer Ysgol Corn Hir, ond ni fyddai Ysgol Bodffordd yn cau ac ni fyddai ei disgyblion yn cael eu symud i adeilad yr ysgol newydd. Mae'r cynnig wedi newid am y rhesymau canlynol -

- Safonau yn Ysgol Bodffordd - mae Ysgol Bodffordd wedi gwella o ran ei chategori gan iddi symud i fyny o Ambr yn 2015 i Felyn (B) yn 2019.
- Cyflawni'r Cwricwlwm - mae Ysgol Bodffordd mewn sefyllfa gref i gydweithio ag ysgolion eraill yn yr ardal leol i gyflawni'r cwricwlwm.
- Y Gymraeg - gyda 60 o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd (85%) a 138 o ddisgyblion yn Ysgol Corn Hir (61%) yn siarad Cymraeg gartref (PLASC 2019) mae gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir y potensial i gynnal a datblygu ymhellach y Ddarpariaeth Gymraeg gyfredol.
- Capasiti - mae'r dewis arall rhesymol yn cwrdd â'r anghenion capasiti dan sylw fel rhan o'r cynnig gwreiddiol ac felly'n cwrdd â'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion yn y dyfodol.

DRAFT

- Trefniadau teithio - mae'r dewis arall rhesymol yn annhebygol o newid trefniadau teithio cyfredol disgyblion. Mae disgyblion o Fodffordd, sydd ar hyn o bryd yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol yn debygol o allu parhau i wneud hynny heb newidiadau tebygol i'r ôl- troed carbon.
- Canolfan Gymunedol Bodffordd - ni fydd unrhyw newidiadau. O ganlyniad, gellir parhau i ddefnyddio'r ganolfan gymunedol yn Ysgol Bodffordd fel y gwneir ar hyn o bryd.
- Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 - mae Ysgol Bodffordd wedi'i dynodi yn y Côd fel Ysgol Wledig, ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi dilyn set fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio'r dewis arall rhesymol. (Fodd bynnag, mae'r Côd yn nodi nad yw rhagdybiaeth o blaid ysgolion gwledig yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau).

Cynhaliwyd asesiadau effaith mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb, Iaith, y Gymuned a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent wedi eu cynnwys fel un Asesiad Effaith cyfansawdd dan Atodiad 1 i'r adroddiad ymgynghori. Cafwyd 338 o ymatebion i'r Asesiad Effaith ac mae dadansoddiad ohonynt yn rhan 6 o'r adroddiad rhagarweiniol. Mae nifer yr ymatebion i'r cwestiwn asesiad effaith yn rhoi sicrwydd o 95% bod yr ymateb yn gywir ac yn cyd-fynd â theimladau gweddill yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Mae lefel hyder o 95% yn golygu pe bai'r arolwg yn cael ei gynnal 100 gwaith, byddai'r un canlyniadau'n cael eu darparu 95% o'r amser. Mae'r Asesiad Effaith yn parhau i fod yn ddogfen fyw ac fe'i diweddarwyd i gynnwys sylwadau rhanddeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol; mae'r asesiad cyfredol yn cynnwys asesiad sy'n ymwneud â'r cynnig newydd a argymhellir i'w weithredu. Bydd yr Asesiad Effaith yn parhau i gael ei ddiweddaru'n rheolaidd trwy gydol y cyfnod datblygu ac felly pe bai risg / mater arall yn codi, gall y Cyngor, mewn partneriaeth â'r gymuned leol, roi mesurau lliniaru ar waith i oresgyn y risg neu'r mater sy'n codi. Bydd y trefniant hwn mewn grym trwy gydol y cyfnod datblygu a bydd yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau.

Amcangyfrifir bod y gost o adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir oddeutu £9m i £10m. Os caiff ei gymeradwyo, bydd yn cael ei ariannu gan gyfraniad o 50% gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Band A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn cyfrannu'r 50% arall.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y Pwyllgor ar hyn o bryd yn y cyfarfod ynghylch yr achos dros newid a gyflwynwyd gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

Estynnodd y Cadeirydd wahaoddiad i Mr Dafydd Jones, sef Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir, gyflwyno persbectif Ysgol Corn Hir mewn perthynas â'r cynnig.

Yn ogystal â diolch i'r Cadeirydd am y cyfle i siarad yn y cyfarfod hwn, diolchodd Mr Jones i'r Swyddogion am eu gwaith yn coladu a dadansoddi'r llu o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cadarnhaodd fod y cynnig a argymhellir i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ac i adael Ysgol Bodffordd fel y mae, yn dod fel rhyddhad i bawb yn Ysgol Corn Hir ac mai hwn yw'r tro cyntaf mewn 5 mlynedd i gynnig ynghylch dyfodol Ysgol Corn Hir beidio â bod yn ddarostyngedig i ddyfodol ysgol arall. Hyd y gwyddai nid oedd neb erioed wedi dadlau yn erbyn ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir - mae'r gwrthwynebiadau sydd wedi rhwystro cynigion blaenorol i gyd wedi bod yn gysylltiedig â'r bwriad i gau ysgolion eraill. Roedd o'r farn ei bod yn bwysig atgoffa'r Aelodau pam mae Ysgol Corn Hir angen eu cefnogaeth i'r cynnig hwn a chyfeiriodd at yr amodau presennol yn yr ysgol sy'n ei chael hi'n anodd oherwydd diffyg lle. Mae'r ysgol yn orlawn ac mae'r adeilad bellach yn gwbl annigonol ar gyfer anghenion addysgol heddiw heb sôn am ofynion y cwricwlwm newydd. Pan anerchodd y Pwyllgor hwn ddiwethaf ym mis Ionawr, 2020 roedd Ysgol Corn Hir 13% dros y capasiti o 203 disgybl; erbyn hyn mae ganddi 236

o ddisgyblion ac mae 17% dros gapasiti ac wedi gorfod gwrthod mynediad i 5 disgybl o ysgolion eraill ers mis Medi, 2020. Disgrifiodd Mr Jones wrth y Pwyllgor sut mae'r diffyg lle ynghyd â'r angen i gydymffurfio â chyfyngiadau Covid-19 yn effeithio ar fywyd yn yr ysgol sy'n golygu mai dim ond 4 disgybl ac athro (o ddosbarth o 24) y gall rhai o'r ystafelloedd dosbarth eu lletya gyda phellter cymdeithasol ac oherwydd bod y neuadd gymunedol yn rhy fach, bu'n rhaid cynnal 3 yn lle 2 eisteddiad cinio dyddiol ers Medi. Oherwydd y diffyg lle mae goblygiadau i iechyd a diogelwch a phreifatrwydd personol - mae'n rhaid cynnal sesiynau cwnsela mewn coridorau fel y gwneir gyda gwersi a roddir gan athrawon peripatetig; nid oes lle i gotiau a bagiau disgyblion sy'n creu perygl pan fydd disgyblion yn symud o un dosbarth i'r llall; ni all y neuadd ddal mwy na 30 o ddisgyblion ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol ac nid oes yno le i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan. Mae’r cyfleusterau toiled hefyd yn annigonol. Mae’r toeau'n gollwng mewn rhai ystafelloedd dosbarth oherwydd y gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni a heb gael ei wneud. Er gwaethaf yr anfanteision hyn ac anfanteision eraill sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r ysgol ffynnu, mae Ysgol Corn Hir serch hynny wedi llwyddo i gynnal safonau trwy gydol y flwyddyn ac mae'n parhau i fod yn ysgol categori Gwyrdd (ysgol sy'n perfformio'n dda ac sydd angen y lefel isaf o gefnogaeth). Cyfeiriodd Mr Jones ymhellach at y ffyrdd y mae Ysgol Corn Hir wedi cyfrannu'n amlwg at fentrau lleol a chenedlaethol gan gynnwys mewn perthynas â datblygu polisïau, datblygu cwrs hyfforddi athrawon yn y Brifysgol Agored, arwain ar baratoi ar gyfer deddfwriaeth ADY newydd a hunanarfarnu ysgolion. Roedd yn gobeithio ei fod wedi dangos pa mor galed y mae pawb yn Ysgol Corn Hir wedi gweithio i sicrhau'r safonau addysg uchaf posib, ond hyd yn oed gyda'r ymdrechion gorau ni fydd yr ysgol yn gallu cynnal y safonau hynny yn y blynyddoedd i ddod heb y buddsoddiad angenrheidiol, a dyna pam yr oedd yn gofyn i'r Pwyllgor gefnogi'r cynnig.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y Pwyllgor i Mr Dafydd Jones ond mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod 3 ymgynghoriad (gan gynnwys ymgynghoriad anstatudol) wedi'u cynnal mewn perthynas ag Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.

Wrth siarad ar ran Ysgol Bodffordd, diolchodd Mr Gareth Parry i'r Pwyllgor am y cyfle i siarad ac am y gwaith caled a wnaed gan Swyddogion dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Gan gyfeirio at y cynnig, pwysleisiodd nad oedd rhanddeiliaid yn Ysgol Bodfordd erioed wedi bod yn erbyn adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a’u bod yn cydnabod bod angen amdani ond eu bod wedi dadlau yn erbyn gwneud hynny ar draul Ysgol Bodffordd. Mae Ysgol Bodffordd yn ysgol sydd wedi ei dynodi'n ysgol wledig ac mae'n ysgol gymunedol ym mhob ystyr o'r gair; mae'n ysgol Gymraeg ei hiaith ac yn rhan annatod o ganolfan gymunedol brysur sydd wedi profi'n arbennig o werthfawr fel hyb cymunedol yn ystod y pandemig presennol. Mae hefyd yn ysgol sy'n llawn. Cadarnhaodd Mr Parry fod y cynnig a argymhellir am ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a chadw Ysgol Bodffordd yn cael ei groesawu gan Ysgol Bodffordd a phawb sy'n ymwneud â'r ysgol, ac yn amodol ar i'r cynnig gael ei gymeradwyo, dymunodd yn dda i Ysgol Corn Hir.

Dywedodd y Cynghorydd R G Parry, OBE, FRAgS, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac Aelod Lleol ei fod yn falch o’r cynnig i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gan fod gwir angen amdani oherwydd bod yr ysgol yn orlawn. Ailbwysleisiodd fod moderneiddio ysgolion yn cael ei wneud er budd y plant ac y bydd y plant yn Ysgol Corn Hir yn gallu mwynhau cyfleusterau modern mewn adeilad sy'n addas i’r diben, os caiff y cynnig ei gymeradwyo. Roedd yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig.

Esboniodd y Cynghorydd Dylan Rees, Aelod Lleol ac aelod o'r Pwyllgor, gan amlygu ei fod wedi bod yn gyson o'r cychwyn nad oedd eisiau gweld Ysgol Bodffordd yn cau, pam fod ei bersbectif yn yr achos hwn yn wahanol i'w safbwynt ynghylch Ysgol Talwrn ac fe grybwyllodd y rhesymau canlynol -

- Bod angen ystyried ac asesu pob achos yn unigol
- Bod Ysgol Bodffordd yn llawn tra bod gan Ysgol Talwrn leoedd gweigion
- Bod y ganolfan gymunedol yn rhan hanfodol o Ysgol Bodffordd gan nad oes gan y pentref unrhyw gyfleuster arall i gynnal gweithgareddau cymunedol gan gynnwys y 18 sefydliad sy'n defnyddio'r ganolfan. Mae gan Talwrn neuadd bentref sydd ar wahân i'r ysgol.
- Bod costau atgyweirio a chynnal a chadw yn Ysgol Bodffordd yn cyfateb i draean o'r costau sy'n gysylltiedig ag Ysgol Talwrn.
- Mae Ysgol Bodffordd wedi ei dynodi'n ysgol wledig dan Gôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 tra nad yw Ysgol Talwrn.

Nododd yr atborth sylweddol o'r ymgynghoriad a diolchodd i'r Swyddogion am wrando ar y sylwadau a wnaed ac yng ngoleuni'r rheini, am ddod i gasgliad gwahanol. Ychwanegodd ei fod wedi cynnal arolwg dros y ffôn gyda rhieni, ac y gallai gadarnhau bod 42 (89%) o'r 47 o rieni y cysylltwyd â nhw (yn cynrychioli 64 o blant sy'n mynychu Ysgol Bodffordd) wedi nodi eu bod yn anghytuno â'r cynnig gwreiddiol a oedd yn cynnwys cau Ysgol Bodffordd. Roedd yn cydnabod yr angen dybryd am ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gofynnodd am eglurhad ar y llinell amser ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad ei bod yn anodd rhoi dyddiad cwblhau ar gyfer prosiect cyfalaf nad yw wedi cychwyn eto oherwydd gall nifer o bethau ddigwydd ar hyd y ffordd i achosi oedi. Fodd bynnag, yn amodol ar gymeradwyaeth, byddai'r Awdurdod yn dymuno agor yr Ysgol Corn Hir newydd ym mlwyddyn addysg 2022/23.

Roedd consensws ymhlith aelodau'r Pwyllgor ynghylch rhinweddau'r cynnig. Gofynnodd y Cynghorydd John Griffith, wrth leisio'i gefnogaeth, am eglurhad ar oblygiadau ariannol y cyfraniad o £4.5m y byddai'r Cyngor yn ei wneud tuag at y prosiect o gofio'r sefyllfa economaidd sydd ohoni. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ei bod yn bwysig edrych y tu hwnt i gynlluniau unigol a'r costau sy'n gysylltiedig â hwy a'u gweld yn hytrach fel rhan o raglen moderneiddio ysgolion ledled yr Ynys lle mae rhai prosiectau'n cynhyrchu arbedion o ganlyniad i gau ysgolion tra bo eraill yn golygu costau oherwydd eu bod yn creu capasiti ychwanegol. Er bod y gost o fynd i'r afael â'r prinder lleoedd yn ardal Llangefni lle mae rhai ysgolion â llawer mwy o ddisgyblion na'u capasiti, yn uwch na chost y sefyllfa bresennol, dylid gweld y costau hynny yng nghyd-destun yr arbedion a grëwyd gan brosiectau moderneiddio ysgolion a weithredwyd eisoes mewn rhannau eraill o'r Ynys. Yn ogystal, mae argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru a fydd yn darparu 50% o'r arian yn yr achos hwn yn rhoi cyfle unwaith ac am byth efallai i fuddsoddi cyfalaf mewn ysgolion. Derbynnir bod angen ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a byddai'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â'r mater rywbryd yn y dyfodol yn ôl pob tebyg am gost lawer uwch na chost y prosiect a gynigir yn awr a fydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru.

Croesawodd y Cynghorydd Bryan Owen y cynnig amgen a fydd yn gweld Ysgol Bodffordd yn parhau i fod ar agor ac ailadroddodd ei farn am rôl ganolog ysgolion o ran sicrhau hyfywedd cymunedau gwledig a'r iaith Gymraeg gan dynnu sylw at y ffaith bod y Gweinidog Addysg o'r un farn. Gyda hyn mewn golwg, awgrymodd ei bod yn parhau i fod o werth i'r Pwyllgor Gwaith ystyried a ellid arbed y gwariant o £6m a gynlluniwyd ar ehangu Ysgol Y Graig a chau Ysgol Talwrn trwy ddylunio Ysgol Corn Hir newydd a fyddai'n ddigon mawr i gymryd y disgyblion dros ben yn Llangefni. Galwodd am bwyll wrth fynd â'r rhaglen moderneiddio'r ysgolion yn ei blaen mewn rhannau eraill o'r Ynys ac i ymgynghoriadau fod yn ystyrlon.

DRAFT

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth ymateb, er bod Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn cynnwys rhagdybiaeth o blaid ysgolion gwledig, mae hefyd yn cydnabod nad yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau. Er bod cau ysgol bob amser yn gynnig anodd, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod ysgolion a phlant ledled yr Ynys yn cael eu trin yn deg, bod adnoddau'n cael eu rhannu'n deg a bod cyfleoedd yn cael eu darparu'n gyfartal. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy lle mae amrywiad sylweddol yn y gost fesul disgybl a lle mae'r gost o gynnal stad yr ysgol bron yn £20m. Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r materion hyn lle mae'r baich cyllido'n cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru. Efallai na fydd y cyfle hwn ar gael yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y traul ar adnoddau yn sgil ymateb i bandemig Covid-19. Mae ysgol yn un elfen o gymuned; mae cynaliadwyedd yn dod yn fwy o her pan fydd rhieni, fel y mae eu hawl, yn dewis mynd â'u plant i ysgolion sydd mewn ardaloedd y tu allan i'w cymunedau. Mae'r Awdurdod bob amser wedi mabwysiadu agwedd gynhwysfawr tuag at ymgynghori ac yn y gorffennol - er nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny – mae wedi cynnal ymgynghoriadau anstatudol er parch at gymunedau. Cynhelir ymgynghoriadau yn unol â gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau, a Phobl Ifanc fod nifer o opsiynau wedi cael eu hystyried o ran cyfluniad ysgolion yn ardal Llangefni ac mae eu manteision a'u hanfanteision wedi'u gwerthuso'n ofalus yn erbyn y gyrwyr yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018. O ran Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd, y farn broffesiynol yn dilyn ymgynghoriad, yw bod y dewis arall rhesymol fel yr amlinellwyd yn cynrychioli'r ffordd orau ymlaen ar gyfer y rhan hon o Langefni. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod amrywiaeth o opsiynau wedi cael eu hystyried ar hyd y daith gyda chymunedau yn rhoi eu barn yn ystod y broses hon. Nid yw'r awgrym o opsiwn sy'n cynnwys ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir sy'n ddigon mawr i gymryd disgyblion dros ben yn Llangefni a pheidio ag ehangu Ysgol Y Graig wedi ffurfio rhan o'r ymateb cymunedol ac felly, fel opsiwn newydd, byddai'n rhaid ymgynghori arno a byddai' hynny'n creu mwy o ansicrwydd.

Siaradodd yr Aelod Portffolio dros Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc am y gwahanol elfennau sy'n ffurfio cymunedau a bod ysgol yn un ohonynt. Crybwyllodd effaith y polisi o fedru dewis ysgol ar y cymunedau hynny lle mae rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgolion heblaw eu hysgol gymunedol. Mae newid demograffig yn gallu digwydd ym mhob cymuned ac nid yw'n anochel bod cau ysgol yn arwain at ddirywiad cymuned. Cyfeiriodd at yr her o greu gwasanaeth addysg sy'n cwrdd ag anghenion pob rhiant ac amlygodd fod yr Awdurdod, yng ngoleuni'r ymateb i'r ymgynghoriad, wedi dod i safbwynt gwahanol yn yr achos hwn.

Roedd y Cynghorydd Richard Owain Jones yn dymuno cael sicrwydd nad yw'r pwyslais ar agweddau cymunedol Ysgol Bodffordd yn dod ar draul y ddarpariaeth addysgol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc sicrwydd trwy egluro mai'r rhan bwysicaf o ysgol yw ei phlant a'i phobl ifanc, wedi eu cefnogi gan gorff effeithiol o staff ar lefel ystafell ddosbarth sy'n gallu gweithio gyda'r plant. Er mwyn gwireddu hyn, mae angen arweinyddiaeth, gweledigaeth a chydweithrediad cadarn. O'i brofiad blaenorol fel Pennaeth, cafodd sicrwydd bod y weledigaeth a'r awydd i barhau i wella yn gryf yn Ysgol Bodffordd, a bod gan yr ysgol a'i chorff llywodraethu gynlluniau i wneud i hynny ddigwydd. Dyna yw blaenoriaeth yr ysgol a'r Gwasanaeth Dysgu ac mae'n berthnasol i Ysgol Bodfordd fel y mae i holl ysgolion yr Awdurdod. Ar ôl ystyried y safbwyntiau a gyflwynwyd gan rieni, staff, llywodraethwyr ac eraill yn ystod yr ymgynghoriad, mae'r Awdurdod wedi ei ddarbwyllo bod Ysgol Bodffordd mewn lle da ac mae'n hyderus y gall yr ysgol barhau ar ei thaith wella sydd, mewn gwirionedd, yn broses nad yw'n dod i ben oherwydd y parhau i chwilio am ffyrdd gwell o addysgu a dysgu ar gyfer pob ysgol.

Dywedodd Mrs Anest Frazer, Aelod Cyfetholedig a chynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru, wrth gydnabod bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd pan ystyrir dyfodol ysgolion, mai'r bygythiad mwyaf i gyfiawnder yw anghyfiawnder ac mai rôl y Pwyllgor heddiw yw edrych ar gysoni'r ddarpariaeth addysg ledled y sir, a sicrhau bod gan bob plentyn y lle angenrheidiol i'w helpu i lwyddo. Dywedodd, fel yn y cyfarfod yr wythnos diwethaf pan drafododd y Pwyllgor ddyfodol Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig, y byddai ei phenderfyniad yn seiliedig ar sicrhau darpariaeth a chyfle cyfartal i blant ysgol yr Ynys o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael a hefyd ar sicrhau bod yr adnoddau hynny'n cael eu defnyddio i gynnal safonau addysg ar gyfer pob disgybl.

I gloi, cafwyd crynodeb byr gan y Cadeirydd o'r prif faterion a gododd o'r drafodaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Owen, ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Dylan Rees fod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae h.y. yr opsiwn fel yr argymhellwyd gan y Swyddogion yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Yn y bleidlais a ddilynodd, derbyniwyd y cynnig yn unfrydol.

**Yn dilyn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, PENDERFYNODD y Pwyllgor yn unfrydol i argymell i'r Pwyllgor Gwaith mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen yn dilyn yr ymgynghoriad statudol yw'r dewis amgen rhesymol arall sef adeiladu ysgol newydd i Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae hi**.

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **16 Chwefror, 2022** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2021/22 (Refeniw)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried y cynigion cyllidebol terfynol ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio :** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Cytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllideb refeniw arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2021/22 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol yn adran 4 yr adroddiad) a chan gymryd i ystyriaeth y negeseuon allweddol a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor

- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
| --- |
| Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2021/22:<br><br>I. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r pecyn buddsoddi ychwanegol (fel y manylion yn Nhabl 5 o'r adroddiad ynghlwm)?<br>II. Ydy'r Pwyllgor yn meddwl fod angen cynnwys buddsoddiad ychwanegol yn y gyllideb i ddatrys unrhyw anghenion pellach (Atodiad 1 paragraff 10.7)?<br>III. A yw'r Pwyllgor yn ystyried y bydd unrhyw gynigion arbedion yn cael effaith andwyol ar ddinasyddion Ynys Môn neu unrhyw grwpiau sydd wedi'u gwarchod? A yw'r Pwyllgor yn ystyried y dylid cymryd unrhyw gamau pellach er mwyn lliniaru effaith y cynigion am arbedion ar ddinasyddion Ynys Môn neu grwpiau sydd wedi'u diogelu?<br>IV. Ydy'r Pwyllgor yn cefnogi codiad o 3.75% yn y Dreth Gyngor er mwyn cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2021/22? Os ddim, pa gynigion nodwyd gan y Pwyllgor Gwaith i'w gwireddu yn 2021/22 na ddylid eu gweithredu? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ariannol yn dod i'r amlwg fel model o arfer dda.

1.2 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn gan ein dinasyddion a hefyd lefel y Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau a godir[1]. Wrth iddi ddod yn fwyfwy anodd dod o hyd i'r lefel angenrheidiol o arbedion trwy arbedion effeithlonrwydd, bydd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth fanwl i'r holl opsiynau posib. Yn anochel, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol ac i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall hefyd yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau pobl leol wrth wneud y newidiadau angenrheidiol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen rhoi sicrwydd i'r Aelodau felly bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sy'n prinhau, yn enwedig adnoddau cyllidol

[1] Disgwyliadau Uwch – Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllaw i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin 2014)

1.3 Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hwy y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol) ac amcanion a blaenoriaethau tymor hir y Cyngor (fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor).

**2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2021/22**

2.1 Ynghlwm mae copi o adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2021/22 **(ATODIAD 1)** a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn ar 18 Ionawr, 2021. Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith
- Y setliad cychwynnol ar gyfer Llywodraeth Leol (Llywodraeth Cymru)
- Y sefyllfa gychwynnol ar gyfer cyllideb 2021/22
- Y Dreth Gyngor
- Cynigion ar gyfer arbedion
- Pwysau ar y gyllideb
- Risgiau
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol

Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2021/22 gan Lywodraeth Cymru ar 2 Mawrth, 2021. O'r herwydd, bydd yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 gyflwyno adroddiad ar lafar i'r Pwyllgor hwn yn manylu ar y cynigion cyllideb terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2021/22**

3.1 Mae craffu ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau craffu effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4. PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Mae Panel Sgriwtini Cyllid wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid sy'n canolbwyntio ar ffurfio grwpiau llai fel y gall Aelodau chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm.
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.2 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod diwethaf (12 Chwefror, 2021). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cyng Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel.

**5. Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD**

5.1 Gwelwyd yr ymarfer ymgynghori yn adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o dan gyfarwyddyd y Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori a sefydlwyd gyda phartneriaid yn y 3ydd Sector.

5.2 I'r perwyl hynny a chan fod eleni eto'n flwyddyn unigryw o ran amseriad cyhoeddi'r Setliad Cychwynnol a hefyd effaith barhaus Covid-19, gwelwyd y broses ymgynghori yn ymgymryd â'r camau canlynol:

i. Adroddiad cyllidol i bwrpas sylwadau ar wefan y Cyngor
ii. Fforwm Cyllid Ysgolion

Gwelwyd y cyfnod ymgynghori hwn yn rhedeg o 19 Ionawr tan 2 Chwefror, 2021.

Ynghlwm mae adroddiad y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Gwasanaeth Trawsnewid sy'n crynhoi prif negeseuon yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar (**ATODIAD 2**). Darperir adroddiad ar lafar ar y drafodaeth yn y Fforwm Cyllid Ysgolion yn y cyfarfod.

**6. MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2021/22 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb ddisymud ddrafft ac unrhyw gynigion am arbedion effeithlonrwydd. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft cychwynnol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[2] ar gynigion terfynol y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2021/22 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod).

6.2 Yng ngoleuni'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2021/22 hyd yma, cynigir y dylai'r Pwyllgor:

i. Ystyried y cynigion cyllidebol cychwynnol a chynnig sylwadau gall y Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn cytuno ar ei gynigion cyllideb terfynol ar 1 Mawrth, 2021
ii. Archwilio effeithiau tebygol y cynigion terfynol ar ddinasyddion
iii. Dod i farn am lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22.

| **6 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21, sy'n cynnwys ystyried y cynigion cyllideb terfynol |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|

[2] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth, 2021

| |
|---|
| **ATODIAD 1:** adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 ar y cyllidebau refeniw cychwynnol ar gyfer 2021/22<br>**ATODIAD 2:** adroddiad y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Gwasanaeth Trawsnewid yn crynhoi negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Cyngor |
| **9 – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad os gwelwch yn dda am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Dyddiad: 04/02/21**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 IONAWR 2021** |
| **PWNC / TESTUN:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2021/22** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 9 Mawrth 2021, ond, ar hyn o bryd, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol: -

- **(i)** Yr addasiadau i'r Gyllideb sydd wedi eu cynnwys yn y Gyllideb Ddisymud fel y nodir hwy ym Mharagraffau 4 i 7;
- **(ii)** Y gyllideb ddisymud ar gyfer 2021/22, sef £147.076m, ac a ddylai fod yn sail i gyllideb refeniw 2021/22 (para 7.1);
- **(iii)** Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 o 3.75%, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus (para 10.2);
- **(iv)** Diwygiadau arfaethedig ychwanegol i'r gyllideb, fel y nodir yn Nhabl 5;
- **(v)** Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2021/22 o £147.531m;
- **(vi)** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y cynnig ar gyfer y gyllideb arfaethedig a'r cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer 2021/22.

Mae'r adroddiad manwl ar baratoi cyllideb ddisymud 2021/22, y setliad dros dro a chyllido'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm yn Atodiadau 1-3.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD -** | **Gyda phwy yr ymgynghorwyd?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae sylwadau gan yr UDA wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Cyrff allanol / eraill** | |
| **E -** | **Risgiau a chamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldeb** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 - Adroddiad ar Gyllideb Refeniw Ddrafft 2021/22
- Atodiad 2 - Dadansoddiad o'r Symudiadau o Gyllideb Refeniw Derfynol 2020/21 i Gyllideb Ddisymud 2021/22
- Atodiad 3 - 2021/22 Cyllideb Ddisymud fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Cynllun Ariannol Tymor Canol 2021/22 - 2023/24 - Gweler Rhaglen Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 28 Medi 2020 - Eitem 8

**CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2021/22**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi cyllideb refeniw arfaethedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2021/22. Paratoir y gyllideb ar sail y rhagdybiaethau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2020, y setliad amodol ar gyfer llywodraeth leol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 22 Rhagfyr 2020, a'r arbedion refeniw arfaethedig a nodwyd gan y gwasanaethau unigol ac a drafodwyd yn y gwahanol weithdai a gynhaliwyd yn ystod yr haf a'r hydref.

**1.2.** Yna bydd y gyllideb arfaethedig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn destun proses ymgynghori gyhoeddus ffurfiol, a fydd yn rhedeg o 19 Ionawr 2021 hyd at 2 Chwefror 2021.

**1.3.** Ar ôl derbyn ffigyrau'r setliad terfynol ar 2 Mawrth 2021, adolygir y cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol gan y Pwyllgor Sgriwtini ar 16 Chwefror 2021, a bydd y gyllideb yn cael ei hargymell i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021, gyda'r gyllideb derfynol ar gyfer 2021/22 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2021.

## 2. PRIF RAGDYBIAETHAU YN CODI O’R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL

**2.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn nodi nifer o ragdybiaethau ac mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u hystyried wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2021/22. Mae'r gyllideb ddisymud yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i redeg gwasanaethau ar lefelau 2020/21 ond wedi'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) ac i adlewyrchu'r costau yn 2021/22.

**2.2.** Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y gyllideb ddisymud ynghyd â newidiadau manylach (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) sy'n caniatáu ar gyfer codiadau mewn costau y gwyddys amdanynt e.e. ymrwymiadau cytundebol a mân gywiriadau i'r gyllideb. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol, newidiadau y gwyddys amdanynt i gyllid grant a mân gywiriadau i'r gyllideb y bernir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu'n gywir y costau y mae'n eu hwynebu yn 2021/22.

## 3. NEWIDIADAU YR YMRWYMWYD IDDYNT

**3.1.** Mae newidiadau yr ymrwymwyd iddynt yn ddiwygiadau sy'n cael eu hystyried wrth lunio'r gyllideb ddisymud ac maent yn adlewyrchu cynnydd neu ostyngiad mewn costau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor neu'r gwasanaeth unigol. Gall y newidiadau gynnwys eitemau o gyllid unwaith ac am byth angenrheidiol neu sy'n disgyn allan o'r gyllideb, costau sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol, newidiadau mewn costau o ganlyniad i ymarfer tendro, costau cyllido cyfalaf ac ati. Cyfanswm yr addasiadau a wnaed i'r gyllideb yw £2,642k ac fe drafodir manylion y newidiadau mwyaf yn y paragraffau isod.

### 3.2. Contract Casglu Gwastraff a Glanhau Strydoedd

Yn dilyn proses gaffael ffurfiol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gytundeb newydd gyda Biffa ar gyfer darparu gwasanaethau casglu gwastraff a glanhau strydoedd. Mae'r contract newydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2021 a bydd yn rhedeg am gyfnod cychwynnol o 8 mlynedd. Mae'r pris contract y cytunwyd arno ar gyfer 2021/22 £909k yn uwch na'r gyllideb gyfredol. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cytuno i gyllido’r broses o brynu gwerth £4.5m o gerbydau a chyfarpar newydd y bydd Biffa yn eu defnyddio i gyflawni'r contract. Bydd y Cyngor yn defnyddio benthyca digefnogaeth i gyllido prynu'r cerbydau a'r peiriannau a bydd hyn yn arwain at dâl darpariaeth refeniw isaf (DRI) blynyddol o £563k ar y gyllideb refeniw ynghyd â chostau llog blynyddol ychwanegol o £68k.

Ym mis Ionawr 2020, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i gyflwyno tâl blynyddol am gasglu gwastraff gardd ac, ym mis Hydref 2020, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i godi tâl blynyddol o £35 yr aelwyd am y gwasanaeth hwnnw. Amcangyfrifir y bydd y tâl, net o gostau staffio ychwanegol, yn cynhyrchu £265k o incwm ychwanegol sy'n gwrthbwyso costau ychwanegol y contract newydd yn rhannol.

Felly, bydd angen £1.275m ychwanegol o gyllid ar gyfer y contract newydd, sy'n cyfateb i oddeutu 3% o gynnydd yn y Dreth Gyngor.

### 3.3. Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Cyngor yn dod yn fwyfwy dibynnol ar dechnoleg gwybodaeth i ddarparu ei wasanaethau ac mae'r newid hwn i wasanaethau digidol wedi bod o fudd mawr yn ystod y pandemig, gyda staff yn newid i weithio gartref a mwy o gwsmeriaid y Cyngor yn delio â'r Cyngor yn electronig. Mae'r cynnydd hwn yn y galw am ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn gofyn am lefel uwch o gefnogaeth dechnegol i gynnal isadeiledd a meddalwedd y Cyngor. Bellach mae angen adnoddau staffio ychwanegol a neilltuwyd £257k yng nghyllideb 2021/22 i gyllido'r adnoddau ychwanegol hyn.

Yn ogystal, mae'r bygythiad i systemau a data'r Cyngor yn cynyddu o hyd gydag ymdrechion dyddiol yn cael eu gwneud i hacio i mewn i systemau'r Cyngor. Mae £22k ychwanegol wedi'i neilltuo i uwchraddio systemau'r Cyngor i amddiffyn rhag ymosodiadau wystlo.

Mae cadw cysylltiad â holl staff y Cyngor wedi dod yn bwysicach yn ystod y pandemig ac mae wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod gan holl staff y Cyngor gyfrif e-bost corfforaethol. Bydd hyn yn ei golygu y bydd angen i'r Cyngor brynu 600 o drwyddedau ychwanegol ar gost flynyddol o £43k.

Yn ystod y pandemig, mae nifer sylweddol o staff wedi symud i weithio gartref mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru, ond mae gweithio gartref yn creu problemau mewn nifer o feysydd, yn enwedig o ran y system ffôn. Mae system ffôn gyfredol y Cyngor yn seiliedig ar gael ffôn ar bob desg - sy'n drefniant anhyblyg ac yn gostus i'w gynnal. Trwy symud i gyfeirio galwadau i staff trwy ddefnyddio 'Teams' bydd yn caniatáu i staff gael mynediad i alwadau yn eu cartrefi neu ar eu dyfeisiau personol eu hunain a bydd yn arwain at arbedion mewn gwariant cyfalaf h.y. ni fydd angen yr isadeiledd a ffonau newydd a bydd yn lleihau'r angen i staff fod â ffôn symudol corfforaethol. Cost y newid yw £85k y flwyddyn ond bydd arbedion ar gostau ffonau symudol, costau ynni a chostau cynnal a chadw. Bydd yr arbedion hyn ar gael ar gyfer cyllidebau refeniw yn y dyfodol pan fydd lefel yr arbedion gwirioneddol yn eglurach.

Mae angen gwelliannau i system ddi-wifr gyhoeddus y Cyngor ac mae angen £8k ychwanegol i gynnal y system bob blwyddyn.

### 3.4. Niferoedd Disgyblion

Bob blwyddyn, mae effaith y newid yn nifer y disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses gosod cyllideb. Ar gyfer 2020/21, mae hyn wedi arwain at gynnydd o £333k yn y sector uwchradd ond gostyngiad o £95k yn y sector cynradd.

Hyd at 2018/19, roedd Ysgol Arbennig y Cyngor (Canolfan Addysg y Bont) yn cyllido 85 o ddisgyblion. Fel rhan o gyllideb 2018/19, dyrannwyd £78k ychwanegol er mwyn cyllido 5 disgybl ychwanegol. Ers 2019/20, mae'r gyllideb wedi'i newid i adlewyrchu'r newidiadau yn nifer y disgyblion. Cynyddwyd y gyllideb £147k i adlewyrchu'r newid a ragwelir yn nifer y disgyblion yn 2021/22.

### 3.5. Cynnig Twf Gogledd Cymru

Yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2020, penderfynodd y Cyngor llawn ymrwymo i'r Cynnig Twf ar gyfer Gogledd Cymru. Yn ogystal â thaliad blynyddol i gwrdd â chyfraniad y Cyngor at gost rhedeg y Swyddfa Raglenni (£50k y flwyddyn), sydd eisoes wedi'i gynnwys yng nghyllideb refeniw'r Cyngor, cytunodd y Cyngor hefyd i gyfrannu at gyllido'r costau llog blynyddol o ganlyniad i'r angen i gymryd benthyg arian ym mlynyddoedd cynnar y prosiect. Amcangyfrifir y bydd cyfraniad blynyddol y Cyngor yn £67k y flwyddyn ac mae'r swm hwn wedi'i ychwanegu at y gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22.

### 3.6. Costau Pensiwn Hanesyddol

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud taliadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn yr Athrawon mewn perthynas â chyn weithwyr a ymddeolodd yn gynnar. Newidiodd y dull o gyllido ymddeoliadau cynnar yng nghanol y 2000au a daeth cyfraniadau blynyddol i ben, ond mae taliadau blynyddol yn parhau i gael eu gwneud mewn perthynas â gweithwyr a ymddeolodd yn gynnar cyn i'r newid ddigwydd. Er bod nifer y taliadau unigol yn gostwng wrth i nifer y cyn weithwyr hyn ostwng, trist dweud, oherwydd marwolaeth, mae'r swm sydd ei angen yn cael ei asesu gan actiwari'r cynllun pensiwn bob 3 blynedd ac mae hyn wedi arwain at orfod cynyddu cyfraniadau'r Cyngor. Mae'r swm newydd yn £150k ychwanegol o 2021/22.

### 3.7. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Hyd at 2013/14, roedd trethdalwyr a oedd yn gymwys i dderbyn gostyngiad yn eu biliau Dreth Gyngor yn derbyn y gostyngiad hwnnw trwy'r system fudd-daliadau ar ffurf Budd-dal Dreth Gyngor, a gyllidwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn 2013/14, disodlwyd Budd-dal Dreth Gyngor gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gyda'r cyllid ar gyfer y cynllun yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw. I ddechrau, ariannwyd y cynllun yn llawn ond, wrth i lefel y Dreth Gyngor godi ac oherwydd bod nifer yr hawlwyr wedi newid ers 2013/14, bu'n rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chost y cynllun (yn ychwanegol at y swm a ddarperir yn y Grant Cymorth Refeniw).

Y gyllideb ar gyfer 2020/21 oedd £6.016m, ond fel rheol bydd y gyllideb hon yn cael ei hadolygu ymhellach i ystyried unrhyw newidiadau yn y llwyth achosion a'r cynnydd terfynol yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, gall y pandemig byd-eang a'r dirywiad economaidd sy'n deillio o hynny arwain at gynnydd anghymesur yn y llwyth achosion. Mae hyn wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn darparu cyllid grant ychwanegol i gwrdd â'r costau uwch a gafwyd yn ystod 2021/22.

Fodd bynnag, bydd angen cynyddu'r gyllideb i gymryd i ystyriaeth y cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor yn 2021/22, gyda phob cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor yn golygu cynnydd o £60k yng nghost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. At ddibenion y gyllideb ddisymud, mae £301k ychwanegol wedi'i gynnwys i gwrdd â chost cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor (yn unol â'r CATC). Bydd y gyllideb derfynol yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r cynnydd terfynol y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

### 3.8. Ardoll Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r Gwasanaeth Tân yn codi ardoll bob blwyddyn sy'n cael ei rannu ar draws chwe Awdurdod Gogledd Cymru ar sail nifer y boblogaeth, sy'n amrywio bob blwyddyn rhwng y 6 awdurdod. Yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2020, penderfynodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gynnydd o 3.15% yn yr ardoll, sy'n arwain at gynnydd o £97k yn y gyllideb, sy'n golygu cyllideb ddisymud o £3.690m.

### 3.9. Eraill

Mae nifer o gyllidebau eraill wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaethau, mae'r rhain yn cynnwys cyllidebau incwm lle na all y Gwasanaeth godi'r incwm mwyach. Cyfanswm gwerth net yr addasiadau hyn yw gostyngiad o £54k.

## 4. CYLLIDEBAU WRTH GEFN

**4.1.** Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, mae nifer o gyllidebau wrth gefn wedi'u hymgorffori yn y gyllideb i gwrdd â chostau tymor penodol, risgiau posib y gall bod angen eu hariannu yn ystod y flwyddyn neu fel arian wrth gefn cyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i'r pwysau ar gyllidebau gynyddu neu fel mae pethau annisgwyl yn digwydd. Dangosir y newidiadau a wnaed i'r cyllidebau wrth gefn yn Nhabl 1 isod: -

| Tabl 1<br>Symudiadau yn y Cyllidebau Wrth Gefn rhwng 2020/21 a 2021/22 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Dyddiad Gorffen** | **Cyllideb 2020/21<br><br>£'000** | **Cyllideb Arfaethedig 2021/22<br>£'000** | **Newid<br><br>£'000** |
| Prosiect Rhanbarthol Stem | Wedi ei glustnodi | 2021/22 | 38 | 38 | - |
| Cais Twf Rhanbarthol | Wedi ei glustnodi | Yn parhau | 50 | 117 | + 67 |
| Risg Galw | Wedi ei glustnodi | Wedi ei drosglwyddo'i gyllidebau gwasanaeth | 486 | 0 | (486) |
| Cyflogau a Graddfeydd | Wedi ei glustnodi | Yn parhau | 150 | 150 | - |
| Pobl sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain | Wedi ei glustnodi | 2020/21 | 20 | 0 | (20) |
| Cymorth Dewisol Trethi Annomestig | | Yn parhau | | 70 | - |
| Cyllideb Wrth Gefn Gyffredinol | | Yn parhau | 372 | 362 | (10) |
| **CYFANSWM** | | | **1,186** | **737** | **(449)** |

**4.2.** Mae'r Gyllideb Wrth Gefn ar gyfer Cyflogau a Graddfeydd wedi'i chynnwys yng nghyllideb y Cyngor ers nifer o flynyddoedd i gwrdd â chost ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau, wrth i'r Cyngor ac ysgolion leihau'r gweithlu mewn ymateb i'r gostyngiad mewn cyllid. Mae'r sefyllfa ariannol well yn 2021/22 yn caniatáu i'r Cyngor gadw'r gyllideb hon ar lefel 2020/21, gan na ddisgwylir y bydd angen gwneud gostyngiadau sylweddol yn nifer y staff yn 2021/22.

## 5. COSTAU STAFFIO

**5.1.** Bydd costau tâl yn newid yn flynyddol i adlewyrchu'r newidiadau staff dros y flwyddyn (staff newydd yn cael eu penodi i bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn derbyn cynyddiadau cyflog blynyddol a'r dyfarniad tâl. Manylir ar effaith pob un ar y gyllideb isod: -

**5.2.** Mae cynyddiadau cyflog i staff a newidiadau mewn swyddi wedi arwain at gynnydd o £541k yn y costau.

**5.3.** Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, ym mis Tachwedd 2020, y rhewir cyflogau ar gyfer holl weithwyr y sector cyhoeddus (ac eithrio'r GIG) sy'n ennill dros £24,000 ac y byddai'r dyfarniad tâl i'r rheini sy'n ennill llai na £24,000 o leiaf £250. Fodd bynnag, nid Llywodraeth y DU sy'n pennu'r dyfarniad tâl ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol (staff y Cyd-Gyngor Cenedlaethol) ond fe'i gosodir gan y corff sy'n cynrychioli cyflogwyr llywodraeth leol. Yn ogystal, mae pennu'r dyfarniad tâl blynyddol i athrawon wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. O ganlyniad mae'r cyhoeddiad hwn wedi arwain at rywfaint o ansicrwydd o ran y dyfarniadau cyflog posib ar gyfer y 2 brif grŵp o weithwyr llywodraeth leol.

**5.4.** Roedd y dyfarniad tâl i athrawon ar gyfer y flwyddyn academaidd a ddechreuodd ym mis Medi 2020 yn amrywio o 2.5% i 3.75%. Cydnabu Llywodraeth Cymru fod y setliad hwn yn uwch nag y byddai'r Cynghorau wedi caniatáu ar ei gyfer yn eu cyllidebau ac o'r herwydd dyfarnodd grant ychwanegol i Gynghorau i gwrdd â'r gost ychwanegol. Derbyniodd Ynys Môn £90k i gwrdd â'r gost rhwng Medi 2020 a Mawrth 2021 ac mae'r grant hwn bellach wedi trosglwyddo i setliad 2021/22. O ystyried ei bod yn ymddangos mai dyma sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu o ran tâl Athrawon mae'n rhesymol tybio y dylai'r Cyngor ddarparu swm yn seiliedig ar chwyddiant tybiedig ar gyfer y dyfarniad tâl o fis Medi 2021 ymlaen. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n anodd amcangyfrif chwyddiant yn 2021 o ystyried effaith y pandemig a Brexit. Fodd bynnag, rhagolwg cyfredol Banc Lloegr yw y bydd chwyddiant oddeutu 1% erbyn canol 2021 ac felly gwnaed darpariaeth ar gyfer y ffigwr hwn fel chwyddiant ar gyfer tâl athrawon. Arweiniodd hyn at gynnydd o £171k yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer tâl.

**5.5.** Mae ceisio amcangyfrif beth fydd y dyfarniad tâl ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon yr un mor anodd ac ni wyddys a fydd y Cyflogwyr yn dilyn arweiniad Llywodraeth y DU ac yn rhewi cyflogau ar gyfer y grŵp hwn o staff. Byddai cynnydd o £250 i staff sy'n ennill llai na £24,000 yn cyfateb i gynnydd rhwng 1.05% ac 1.38% ar gyfer y grŵp hwn o staff ond gan nad yw'r staff ar y graddfeydd cyflog hyn ond yn cyfrif am gyfran o'r bil cyflog, byddai cynnydd ar gyfer y staff hyn a rhewi cyflogau ar gyfer y gweddill yn arwain at gynnydd cyffredinol o lai nag 1% yn y bil cyflogau. Gan ystyried hyn a chymryd y bydd staff yn derbyn rhyw fath o godiad cyflog a bod chwyddiant yn debygol o aros ar oddeutu 1% neu ychydig yn is yn 2021, caniatawyd 1% yn y gyllideb ddigyfnewid ar gyfer chwyddiant cyflog. Mae hyn yn arwain at gynnydd o £427k yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer tâl staff Cyd-Gyngor Cenedlaethol.

## 6. CHWYDDIANT NAD YW'N YMWNEUD Â THÂL

**6.1.** Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn caniatáu ar gyfer chwyddiant cyffredinol o 1.5%. Ar hyn o bryd, mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), a gydnabyddir yn eang fel y ffordd orau o fesur chwyddiant, yn 0.3% (ym mis Tachwedd 2020) a rhagwelir y bydd yn aros ar neu oddeutu 1% yn 2021. Fodd bynnag, ni wyddys beth fydd effaith Brexit a gallai arwain at gynnydd mewn chwyddiant pe bai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb a gallai unrhyw adferiad economaidd yn dilyn y pandemig hefyd godi lefel chwyddiant yn 2021. Felly, ystyrir bod cyfradd chwyddiant o 1.5% yn rhesymol a defnyddiwyd y gyfradd hon ar gyfer yr holl gyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol. Lle mae gan gontractau penodol ddulliau penodol i bennu'r chwyddiant, yna bydd y gyfradd benodol honno'n cael ei defnyddio ar gyfer y gyllideb berthnasol.

**6.2.** Dros y 3 blynedd diwethaf, defnyddiwyd ffigwr cynnydd cyfredol o 3% ar gyfer cyllidebau ffioedd a thaliadau statudol ac mae'r ffigwr hwn wedi'i ddefnyddio eto yn 2021/22, er bod gan wasanaethau'r disgresiwn i gynyddu ffioedd a thaliadau unigol gan swm sy'n fwy neu'n llai na'r ffigwr hwn, ar yr amod bod cynnydd o 3% yn eu hincwm cyffredinol.

**6.3.** Y cynnydd net yn yr addasiadau ar gyfer chwyddiant heblaw am gyflogau ac incwm anstatudol yw £1.009m.

## 7. CYLLIDEB DDISYMYD 2020/21

**7.1.** Yn seiliedig ar yr holl addasiadau a rhagdybiaethau y manylir arnynt uchod, mae'r gyllideb ddisymyu ar gyfer 2020/21 yn gyfanswm o £147.076m, sef cynnydd o £4.930m ar gyllideb derfynol 2020/21. Mae hyn yn cymharu ag Asesiad Gwariant Safonol Llywodraeth Cymru o £148.168m ar gyfer Ynys Môn. Mae crynodeb o'r newidiadau a wnaed ynghlwm fel Atodiad 2.

## 8. Y SETLIAD AMODOL

**8.1.** Mae'r setliad amodol ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 22 Rhagfyr 2020, yn dangos cynnydd o £177.0m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru, sy'n cyfateb i gynnydd o 4.0% mewn termau arian parod. Fodd bynnag, mae £5.126m yn ymwneud â grantiau a drosglwyddwyd i mewn a, phan addasir effaith y newidiadau hyn, mae'r gwir ffigwr yn dangos cynnydd o £171.9m yn y cyllid, sy'n gynnydd o 3.8%. Dangosir y manylion yn Nhabl 2 isod: -

| Tabl 2<br>Setliad Amodol 2021/22 | | |
|---|---|---|
| | **Ynys Môn** | **Cymru** |
| | **£'m** | **£'m** |
| Cyllid Allanol Cyfun 2020/21 | 101.004 | 4,474.444 |
| | | |
| Addasiad ar gyfer newid yn y Sylfaen dreth | 0.275 | 0.000 |
| | | |
| **Grantiau blynyddoedd cynt a drosglwyddwyd i mewn / (allan)** | | |
| Rheoli Risg i'r Arfordir | 0.000 | 1.145 |
| Tâl Athrawon | 0.090 | 3.981 |
| | | |
| **Cyllid Allanol Cyfun 2020/21 – wedi ei addasu** | **101.369** | **4,479.570** |
| **Cyllid Allanol Cyfun Amodol 2021/22** | **104.825** | **4,651.494** |
| **Cynnydd o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun 2020/21** | **3.821** | **177.050** |
| **Cynnydd % o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun 2019/20** | **+ 3.78%** | **+ 3.96%** |
| **Cynnydd o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun 2019/20 wedi ei addasu** | **3.456** | **171.924** |
| **Cynnydd % o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun 2019/20 wedi ei addasu** | **+ 3.41%** | **+ 3.84%** |

**8.2.** Mae'r ystadegau poblogaeth a ddefnyddiwyd yn y fformiwla cyllido wedi'u diweddaru ac mae Ynys Môn wedi gweld gostyngiad yn y Cyllid Allanol Cyfun oherwydd y newid hwn am fod y ffigyrau poblogaeth diwygiedig ar gyfer Ynys Môn yn is na'r rhagolwg blaenorol. Mae rhai awdurdodau wedi elwa o'r newid hwn, yn enwedig Casnewydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, tra bod eraill wedi colli oherwydd cwymp yn y boblogaeth, yn enwedig Wrecsam a Cheredigion. Mae newidiadau eraill hefyd yn bwydo i'r fformiwla ddosbarthu ac mae hyn yn esbonio pam mae'r dyraniadau i Gynghorau unigol yn amrywio o 2% i 5.6%.

**8.3.** Mae'r setliad dros dro hefyd yn cynnwys manylion nifer o grantiau, er nad yw'r dyraniadau unigol fesul Awdurdod wedi'u rhestru. Mae'r grantiau'n cynnwys y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd, sydd wedi cynyddu o £40m i £50m. Bydd Ynys Môn yn derbyn £230k ychwanegol (amcangyfrif) o'r cynnydd yn y grant hwn.

## 9. Y BWLCH CYLLIDO

**9.1.** Yn seiliedig ar gyllideb ddisymud o £147.076m a Chyllid Allanol Cyfun o £104.825m, dangosir y gwariant net i'w gyllido o'r Dreth Gyngor yn Nhabl 3 isod: -

| **Tabl 3**<br>**Y Bwlch Cyllido ar gyfer 2021/22** | | |
|---|---|---|
| | **£'m** | **£'m** |
| **Cyllideb Ddisymud** | | **147.076** |
| Cyllidir gan: | | |
| Grant Cymorth Refeniw (GCR) | 81.345 | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | 23.480 | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | | **104.825** |
| Cyfanswm y Gwariant Net i'w Cyllido o'r Dreth Gyngor | | **42.251** |
| Cyllideb Dreth Gyngor 2020/21 (wedi'i haddasu ar gyfer y newid yn y sylfaen dreth) | | (41.161) |
| **Bwlch Cyllido (cyn cynnydd yn y Dreth Gyngor)** | | **1.090** |

**9.2.** Dangosir effaith lefelau amrywiol o gynnydd yn y Dreth Gyngor ac ar y tâl cyfatebol Band D (£1,304.73 ar hyn o bryd yn 2020/21) yn Nhabl 4 isod: -

**Tabl 4**

**Effaith lefelau amrywiol o gynnydd yn y Dreth Gyngor ar y Bwlch Cyllido**

| **Cynnydd %** | **Dreth Gyngor £'m** | **Diffyg / (Gwarged) £'m** | **Effaith wythnosol ar Fand D £** | **Cyfanswm y cynnydd ym Mand D £** |
|---|---|---|---|---|
| 0.5 | 41.366 | 0.846 | 0.12 | 6.48 |
| 1.0 | 41.574 | 0.638 | 0.25 | 13.05 |
| 1.5 | 41.778 | 0.434 | 0.38 | 19.53 |
| 2.0 | 41.985 | 0.227 | 0.50 | 26.10 |
| 2.5 | 42.190 | 0.022 | 0.63 | 32.58 |
| 2.65 | 42.252 | (0.001) | 0.66 | 34.56 |
| 3.0 | 42.397 | (0.185) | 0.75 | 39.15 |
| 3.5 | 42.601 | (0.389) | 0.88 | 45.63 |
| 4.0 | 42.809 | (0.597) | 1.00 | 52.20 |
| 4.5 | 43.013 | (0.801) | 1.13 | 58.68 |
| 5.0 | 43.220 | (1.008) | 1.25 | 65.25 |

## 10. CYLLIDO PWYSAU ERAILL AR Y GYLLIDEB A GALWADAU GWASANAETH

**10.1.** Byddai'r gyllideb ddisymud o £147.076m yn caniatáu i'r Cyngor gynnal ei wasanaethau presennol, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau newydd ar ei gyllideb a galwadau newydd am wasanaethau na wnaed darpariaeth amdanynt yn y gyllideb ddisymud. Mae'r pwysau a'r galwadau hyn wedi dod yn fwy amlwg wrth i'r Cyngor ymateb i bandemig Covid.

**10.2.** Gellir cyllido’r pwysau a'r galwadau ychwanegol hyn mewn 3 ffordd, naill ai'n annibynnol neu mewn cyfuniad. Y 3 ffynhonnell cyllid ychwanegol yw: -

- Defnyddio Balansau Cyffredinol y Cyngor fel ffynhonnell cyllido;
- Gwneud arbedion mewn meysydd cyllideb eraill ac ailddyrannu'r arbedion i gwrdd â chostau'r pwysau ychwanegol a'r galwadau newydd;
- Cynyddu'r Dreth Gyngor yn fwy nag sydd raid ei wneud er mwyn cyllido’r gyllideb ddisymud.

**10.3.** Mae angen balansau cyffredinol i gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl neu sefyllfaoedd brys ac mae'r pandemig cyfredol wedi tynnu sylw at pam eu bod yn angenrheidiol. Mae lefel y balansau cyffredinol wedi gwella yn ystod 2019/20 ac roedd y balans ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2020/21 yn £7.06m. Rhagwelir y bydd cyllideb refeniw'r Cyngor yn tanwario oddeutu £1m yn 2020/21 a byddai hyn yn cynyddu balansau cyffredinol y Cyngor i £8m. Mae hyn gyfwerth â 5.44% o gyllideb ddisymud 2021/22. Mae hyn ychydig yn uwch na'r isafswm o 5%, sef amcan y Cyngor ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, dylid nodi y gall y sefyllfa alldro ar gyfer 2020/21 newid o gymharu â'r rhagolwg cyfredol. Er bod rhywfaint o sgôp i ddefnyddio balansau cyffredinol, dim ond cyllid tymor byr fydd hwnnw, e.e. blwyddyn yn unig ac nid yw eu defnyddio yn darparu ffynhonnell barhaol o gyllid. Y ffordd orau o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yw cyllido ar gyfer cyllido gwariant unwaith ac am byth e.e. cyllido prosiectau cyfalaf unwaith ac am byth.

**10.4.** Yn ystod haf 2020, gofynnwyd i'r Penaethiaid Gwasanaethau nodi unrhyw arbedion cyllideb posib yn y dyfodol y gellid eu gweithredu yn y tymor byr i'r tymor canol. Byddai mwyafrif yr arbedion a nodwyd yn arwain at ostwng lefel gwasanaethau i drigolion Ynys Môn ac nid oeddent yn cael eu cefnogi'n gyffredinol gan yr Aelodau a barn gyffredinol yr Aelodau, oedd na ddylid ond eu gweithredu os oedd sefyllfa'r gyllideb yn golygu bod raid gwneud arbedion i gydbwyso cyllideb refeniw'r Cyngor.

**10.5.** Ar ôl ystyried y gyllideb ddisymud ac o ystyried y ffaith bod angen cynnydd o 2.55% yn bennaf i gyllido’r cynnydd yng nghost y contract Casglu Gwastraff a Glanhau Stryd newydd, ystyriwyd cynnydd ychwanegol o 1.2% yn y Dreth Gyngor fel modd o gyllido’r pwysau a'r gofynion cyllidebol ychwanegol. Byddai cynnydd ychwanegol o 1.2% uwchlaw'r lefel sy'n ofynnol i gyllido’r gyllideb ddisymud yn cynhyrchu £494k ychwanegol.

**10.6** Mae'r meysydd blaenoriaeth y nodwyd bod angen cyllid ychwanegol arnynt fel a ganlyn:-

- **Staff Proffesiynol**
  Am nifer o flynyddoedd, bu'r Cyngor yn rhedeg rhaglen hyfforddeion lwyddiannus a roddodd gyfleoedd i’r rheini oedd yn ceisio dechrau gyrfa mewn Llywodraeth Leol i gael y sgiliau a’r profiad angenrheidiol i’w galluogi i gyrraedd eu nod yn ogystal â gadael i’r Cyngor gael cyflenwad o lafur oedd hefo’r cymwysterau a’r profiad angenrheidiol. Wrth i fesurau'r cyfnod llymder gael eu gweithredu ac oherwydd yr angen i'r Cyngor wneud arbedion, daeth y rhaglen hyfforddeion i ben. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ei chael hi'n fwyfwy anodd penodi staff proffesiynol â chymwysterau addas mewn nifer o feysydd ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Byddai cyllideb o £250k yn caniatáu penodi rhwng 8 a 10 hyfforddai a byddai'n darparu cyfleoedd i bobl leol ddechrau gyrfa mewn llywodraeth leol ac yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y dyfodol y bydd y Cyngor yn ei wynebu.

- **Capasiti yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**
  Mae'r pandemig presennol wedi tynnu sylw at rôl hanfodol Gwarchod y Cyhoedd o ran sicrhau bod iechyd y cyhoedd ar Ynys Môn yn cael ei gynnal. Bydd y disgwyliadau ar y Swyddogaeth yn parhau unwaith y bydd y pandemig presennol wedi dod i ben o ganlyniad i’r heriadau gweithredol ychwanegol a chyfrifoldebau yn codi o Brexit. Unwaith eto o ganlyniad i'r cyfnod llymder, mae'r Gwasanaeth hwn wedi gwneud arbedion mawr yn y gorffennol sydd wedi lleihau ei gapasiti yn sylweddol. Byddai cynnydd o £50k yn y gyllideb yn caniatáu i'r Swyddogaeth gynyddu ei gapasiti i gwrdd â'r gofynion cynyddol.

- **Cynhwysiant Addysg**
  Mae’r Gwasanaeth Addysg wedi comisiynu adroddiad i asesu’r ddarpariaeth addysgol i’n dysgwyr mwyaf bregus yn CA4 ac i adnabod sut gellid gwella’r gwasanaeth. Daethpwyd i gasgliad yr adroddiad yn dilyn : Arfarniadau mewnol o’r gwasanaeth (yn cynnwys adborth dysgwyr a rhieni); trafodaethau ac asesiad ar y cyd ag Estyn, adolygiad o arfer dda gydag Unedau Cyfeirio eraill, mewnbwn gan Benaethiaid a chomisiynu adolygiad allanol. Nodwyd yn glir yn yr adolygiad allanol fod angen gweithio'n agos gyda phenaethiaid a chydranddeiliaid eraill i ddatblygu model a fyddai’n diwallu anghenion disgyblion yn well. Mae’r cynllun arfaethedig yn seiliedig ar ddatblygu darpariaeth ymhob Ysgol Uwchradd ar yr Ynys. Mae’r cynllun arfaethedig yn seiliedig ar fodel ‘Llechan Lân’, sydd wedi’i selio ar fodel ‘Nurture +’ (Nurture UK) ac mae pob ysgol uwchradd eisoes wedi derbyn hyfforddiant ‘National Nurturing Schools Programme’ (NNSP) drwy’r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant. Golyga hyn y byddai’r modelau yma yn cydweddu a gweledigaeth a hyfforddiant yr Awdurdod i sefydlu ysgolion arloesol. £80k o gyllid grant ychwanegol i gefnogi’r model ond disgwylir, hefyd, i ysgolion fuddsoddi, ac mae angen £130k pellach i wireddu’r cynlluniau arfaethedig.

- **Cymorth TG i Ysgolion**
  Mae'r defnydd o TG mewn ysgolion fel dull o addysgu wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond mae'r newid hwn wedi'i gyflymu'n sylweddol mewn ymateb i'r pandemig a'r angen i ysgolion addysgu o bell. Wrth i'r defnydd o TG mewn ysgolion gynyddu, mae'r angen i gynnal a chadw'r offer TG yn cynyddu hefyd. Cwmni Cynnal sy'n gwneud y gwaith hwn ar hyn o bryd a'r gyllideb gyfredol ar ei gyfer yw £183k ac amcangyfrifir y bydd angen £100k ychwanegol i gyllido cost y gefnogaeth ychwanegol, p'un a yw hynny'n cael ei ddarparu trwy Cynnal neu drwy ffyrdd eraill.

- **Rheoli Twristiaeth**
  Rôl y Cyngor mewn perthynas â thwristiaeth fu hyrwyddo'r Ynys fel cyrchfan twristiaeth ond amlygodd haf 2020 yr angen i'r Cyngor ymgymryd â rôl fwy rhagweithiol wrth reoli twristiaid pan fyddant yn ymweld â'r Ynys. Byddai £50k ychwanegol yn caniatáu i'r Cyngor wella rheolaeth y traethau a'r blaendraethau a hefyd yn caniatáu ar gyfer gwella casglu data a dadansoddi data er mwyn gallu cyfeirio adnoddau yn well.

- **Newid Hinsawdd**

  Mewn ymateb i ddatganiad Llywodraeth Cymru bod argyfwng hinsawdd yng Nghymru, penderfynodd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 8 Medi 2020, ymrwymo i Sector Cyhoeddus Carbon Niwtral erbyn 2030. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf ac mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei strategaeth er mwyn bod mewn sefyllfa i fanteisio ar unrhyw gyllid cyfalaf allanol a ddaw ar gael. Bydd cyllideb gychwynnol o £50k yn caniatáu i'r gwaith hwnnw ddechrau er y derbynnir y gallai fod angen i'r gyllideb hon gynyddu dros y blynyddoedd i ddod.

**10.7.** Mae'r Cyngor wedi adolygu ffioedd parcio ei feysydd parcio tymhorol mewn lleoliadau glan môr ac wedi dod i'r casgliad bod y ffioedd a godir ar hyn o bryd yn isel o gymharu ag awdurdodau eraill a bod lle i gynyddu'r ffioedd hyn. Mae buddsoddiad y Cyngor mewn dulliau talu newydd bellach yn caniatáu i'r Cyngor gynyddu ffioedd heb orfod delio â'r anawsterau y byddai casglu symiau uwch o arian parod yn eu creu. Y cynnig yw i gynyddu’r ffioedd fel a ganlyn :-

Hyd at 1 Awr - Ffi Gyfredol £1.00, Ffi Newydd Arfaethedig £1.00
Hyd at 2 Awr - Ffi Gyfredol £2.00, Ffi Newydd Arfaethedig £3.00
Hyd at 4 Awr - Ffi Gyfredol £3.50, Ffi Newydd Arfaethedig £6.00
Hyd at 12 Awr - Ffi Gyfredol £4.50, Ffi Newydd Arfaethedig £10.00
Hyd at 12 Awr (car a threlar) - Ffi Gyfredol £6.00, Ffi Newydd Arfaethedig £20.00

Amcangyfrifir y bydd y cynnydd yn y ffioedd yn cynhyrchu dros £100k o incwm ychwanegol.

**10.8.** Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu'n anffurfiol i beidio â chynyddu prisiau prydau ysgol ym mis Medi 2021 pan fydd y contract arlwyo prydau ysgol newydd yn cychwyn. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i'r contractwr llwyddiannus ynghylch nifer y prydau bwyd a brynir ar ddechrau'r contract. Roedd y gyllideb ddisymud yn cynnwys cynnydd o 3% yn y gyllideb incwm a bydd gwrthdroi'r newid hwnnw'n golygu cynnydd o £13k yn y gyllideb net.

**10.9.** Mae'r gyllideb ddisymud yn caniatáu ar gyfer cynnydd o £300k yn gyllideb ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan fod y ffigwr hwnnw'n seiliedig ar y cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor a dybiwyd yn wreiddiol (yn unol â Chynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor). Bydd gostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 3.75% yn lleihau'r cynnydd y bydd angen ei wneud yn y gyllideb hon gan £75k.

**10.10.** Yn seiliedig ar y cynigion a nodir ym mharagraffau 10.5 i 10.9 uchod, mae'r cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol wedi'i nodi yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**

**Y cynnig ar gyfer cyllideb derfynol 2021/22**

| | **£'m** | **£'m** |
|---|---|---|
| **Cyllideb Ddisymud** | | **147.076** |
| **Cyllid Ychwanegol ar gyfer Pwysau ar y Gyllideb** | | |
| Rhaglen Hyfforddeion Proffesiynol | 0.250 | |
| Capasiti Ychwanegol - Gwarchod y Cyhoedd | 0.050 | |
| Cynhwysiant Addysg | 0.130 | |
| Cymorth TG i Ysgolion | 0.100 | |
| Rheoli Twristiaeth | 0.050 | |
| Newid Hinsawdd | 0.050 | |
| | | **0.630** |
| Incwm Ychwanegol o'r cynnydd mewn ffioedd parcio | | (0.100) |
| Rhewi Prisiau Prydau Ysgol | | 0.023 |
| Addasiad i Gyllideb CGDG | | (0.075) |
| Balans i'r Gyllideb Wrth Gefn Gyffredinol | | (0.023) |
| **CYLLIDEB ARFAETHEDIG Y CYNGOR YN 2021/22** | | **147.531** |
| **Cyllidir Gan** | | |
| Grant Cymorth Refeniw | 81.345 | |
| Ailddosbarthu Trethi Annomestig | 23.480 | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | | **104.825** |
| Dreth Gyngor gyda chynnydd o 3.75% | | 42.706 |
| **CYFANSWM CYLLID** | | **147.531** |

## 11. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL DIWYGIEDIG

**11.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn amcangyfrif y bydd angen cynnydd o £3.8m yn nghyllideb refeniw net y Cyngor yn 2022/23 a £3.6m yn 2023/24, dim ond er mwyn cwrdd â chostau chwyddiant cyflog a phrisiau, costau uwch ar gontractau a gafodd eu tendro a'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau.

**11.2** Nid yw setliad amodol 2021/22 yn rhoi unrhyw arwydd o beth fydd y sefyllfa gyllido yn y 2 flynedd ganlynol. Bydd llawer yn dibynnu ar lywodraeth y DU a'i chynlluniau ar gyfer gwariant cyhoeddus a fydd yn cael eu nodi yng nghyllideb y Canghellor ym mis Mawrth 2021. Dylid nodi y bydd unrhyw gyllid ychwanegol a gyhoeddir ar gyfer Lloegr yn arwain at gyllid ychwanegol i Gymru, ond mater i Lywodraeth Cymru yw penderfynu sut mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei wario. Nid yw'n dilyn yn awtomatig bod unrhyw gyllid ychwanegol a gyhoeddir ar gyfer Ysgolion neu Lywodraeth Leol yn Lloegr yn golygu y bydd cyllid ychwanegol ar gyfer Ysgolion a Llywodraeth Leol yng Nghymru.

**11.3** Pe bai'r setliad yn 2021/22 a 2022/23 yn dangos cynnydd sy'n cyfateb i chwyddiant h.y. tua 2%, bydd y Cyngor yn wynebu gwneud gostyngiadau pellach yn y gyllideb neu gynnydd o fwy na chwyddiant yn y Dreth Gyngor yn y blynyddoedd hynny (rhwng 3.5% a 4%).

## 12. MATERION I'W PENDERFYNU

**12.1** Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 9 Mawrth 2021, ond ar hyn o bryd, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol**:** -

- **i**. Yr addasiadau i'r Gyllideb sydd wedi eu cynnwys yn y Gyllideb Ddisymud fel y nodir hwy ym Mharagraffau 4 i 7;
- **ii.** Y gyllideb ddisymud ar gyfer 2021/22, sef £147.076m - i fod yn sail i gyllideb refeniw 2021/22 (para 7.1);
- **iii.** Cynnydd arfaethedig o 3.75% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus (para 10.2);
- **iv.** Diwygiadau ychwanegol i'r gyllideb arfaethedig fel y nodir yn Nhabl 5;
- **v.** Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2021/22 o £147.531m;
- **vi.** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio barn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig a'r cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer 2021/22.

**ATODIAD 2**

## DADANSODDIAD O'R SYMUDIADAU O GYLLIDEB DERFYNOL 2020/21 I GYLLIDEB DDISYMUD 2021/22 A CHYLLIDEB ARFAETHEDIG 2021/22

| | Cyllideb Ddisymud | | Cyfeiriad yn yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| | £'m | £'m | |
| **Cyllideb 2019/20** | | **142.146** | |
| **Newidiadau yr ymrwymwyd iddynt** | | | |
| Contract Casglu Gwastraff | 1.275 | | Para 3.2 |
| Staffio, Offer a Meddalwedd TG | 0.417 | | Para 3.3 |
| Niferoedd Disgyblion | 0.389 | | Para 3.4 |
| Cais Twf Gogledd Cymru | 0.067 | | Para 3.5 |
| Costau Pensiwn Hanesyddol | 0.150 | | Para 3.6 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 0.301 | | Para 3.7 |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân | 0.097 | | Para 3.8 |
| Mân newidiadau eraill | (0.054) | | Para 3.9 |
| | | **2.642** | |
| **Costau Staffio** | | | |
| Cynyddiadau cyflog | 0.541 | | Para 5.2 |
| Dyfarniad Tâl Athrawon | 0.171 | | Para 5.3 |
| Dyfarniad Tâl i staff nad ydynt yn athrawon | 0.567 | | Para 5.5 |
| | | **1.279** | |
| Chwyddiant ac eithro ar Dâl | | **1.009** | Para 6.3 |
| | | **147.076** | |
| **CYLLIDEB DDISYMUD 2021/22** | | | |
| **Cyllid Ychwanegol ar gyfer pwysau ar y gyllideb** | | | |
| Rhaglen Hyfforddeion Proffesiynol | 0.250 | | Para 10.6 |
| Capasiti ychwaenegol – Gwarchod y Cyhoedd | 0.050 | | Para 10.6 |
| Cynnwysedd Addysg | 0.130 | | Para 10.6 |
| Cefnogaeth TG i ysgolion | 0.100 | | Para 10.6 |
| Rheoli Twristiaeth | 0.050 | | Para 10.6 |
| Newid Hinsawdd | 0.050 | **0.630** | Para 10.6 |
| **Addasiadau Terfynol y Gyllideb** | | | |
| Incwm ychwanegol o Ffioedd Parcio uwch | (0.100) | | Para 10.7 |
| Rhewi prisiau Prydau Ysgol | 0.023 | | Para 10.8 |
| Addasu'r gyllideb CGDG i adlewyrchu'r cynnydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor | (0.075) | | Para 10.9 |
| Addasu'r Gronfa wrth Gefn Cyffredinol | (0.023) | **(0.175)** | |
| **CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2021/22** | | **147.531** | |

**ATODIAD 3**

| CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2021/22 FESUL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2020/21** | **Cyllideb Arfaethedig 2021/22** | **Symudiad** | **Newid %** |
| | **£'m** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 41.372 | 42.684 | 1.312 | 3.17 |
| Addysg Ganolog | 10.891 | 11.057 | 0.166 | 1.52 |
| Diwylliant | 1.244 | 1.211 | (0.033) | (2.65) |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **53.507** | **54.952** | **1.445** | **2.70** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 6.286 | 6.319 | 0.033 | 0.52 |
| Eiddo | 0.931 | 0.996 | 0.065 | 6.98 |
| Gwastraff | 8.030 | 8.820 | 0.790 | 9.84 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **15.247** | **16.135** | **0.888** | **5.82** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio & Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd ac Arforol | 1.882 | 1.955 | 0.073 | 3.88 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2.131 | 2.243 | 0.112 | 5.26 |
| | | | | |
| **Cyfanswm Rheoleiddio & Datblygu Economaidd** | **4.013** | **4.198** | **0.185** | **4.61** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **26.872** | **27.679** | **0.807** | **3.00** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | **11.012** | **11.180** | **0.168** | **1.53** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.346 | 1.618 | 0.272 | 20.21 |
| TGCh | 2.793 | 3.200 | 0.407 | 14.57 |
| Trawsnewid | 0.853 | 0.868 | 0.015 | 1.76 |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **4.992** | **5.686** | **0.694** | **13.90** |
| | | | | |
| **Tai** | **1.168** | **1.247** | **0.079** | **6.76** |
| | | | | |
| **Adnoddau** | **3.108** | **3.196** | **0.088** | **2.83** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **1.669** | **1.708** | **0.039** | **2.34** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **121.588** | **125.981** | **4.393** | **3.61** |
| | | | | |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.626 | 0.636 | 0.010 | 1.60 |
| Ardollau | 3.599 | 3.695 | 0.096 | 2.67 |
| Corfforaethol a Democrataidd | 2.785 | 3.010 | 0.225 | 8.08 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 6.939 | 7.499 | 0.560 | 8.07 |
| Budd-daliadau a dalwyd | 0.112 | 0.112 | 0.000 | 0.00 |
| Tâl a godir ar y CRT | (0.700) | (0.700) | 0.000 | 0.00 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6.016 | 6.242 | 0.276 | 3.75 |
| Cyllidebau Wrth Gefn | 1.035 | 0.985 | (0.050) | (4.83) |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 0.070 | 0.071 | 0.001 | 1.43 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Corfforaethol** | **20.482** | **21.550** | **1.068** | **5.21** |
| | | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB DDIGYFNEWID 2021/22** | **142.070** | **147.531** | **5.461** | **3.84** |

**Ymateb i Gynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2021/22**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Chwefror 2021**

**Awdur - Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglenni a Pherfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth - Carys Edwards, Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid**

## 1. *Rhagarweiniad*

1.1. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori ar y cynigion cyllidebol cychwynnol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Gwaith. Rhedodd y cyfnod ymgynghori am bythefnos o 19 Ionawr tan 2 Chwefror 2021 ac roedd yn canolbwyntio ar gynigion a gyflynwyd o blith holl wasanaethau'r Cyngor.

1.2. Canlyniad y broses flynyddol o osod cyllideb oedd y cynigion hyn ac ymgynghorwyd arnynt er mwyn cael barn y cyhoedd ac i sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith (wrth i'r broses ddirwyn i ben) yn gallu gwneud argymhellion gwybodus.

1.3. Ystyriwyd ystod eang o gynigion megis cynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor ar ben y 2.65% a glustnodwyd eisoes fel cynnydd blynyddol, a hynny er mwyn ariannu gwasanaethau hanfodol y Cyngor ac i fuddsoddi mewn delio â phwysau costau o ganlyniad i'r pandemig.

1.4. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynigion hyn mewn sawl ffordd ond defnyddiwyd llawer mwy o ddulliau digidol i'w hysbysebu nag mewn blynyddoedd blaenorol;

1.4.1. Cyhoeddwyd y cynigion ar wefan y Cyngor (hafan)

1.4.2. Defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol - Twitter, Facebook ac Instagram i hysbysebu'r cynigion i ystod ehangach o drigolion

Nod pob un o'r sianeli uchod oedd rhoi cyhoeddusrwydd a chreu brwdfrydedd ymhlith dinasyddion a staff i ymgysylltu â'r cynigion cychwynnol ac ymateb iddynt .

1.5. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad trwy'r dulliau canlynol:

- Arolwg ar-lein ar ein gwefan
- E-bost

Dilynodd yr ymgynghoriad eleni batrwm tebyg i ddigwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn y blynyddoedd diwethaf, ond nid oedd mor eang oherwydd yr amserlen fyrrach a orfodwyd ar y Cyngor gan Lywodraeth Cymru ac wrth gwrs effaith y pandemig ar y gallu i ymgynghori wyneb yn wyneb â thrigolion Ynys Môn. O ganlyniad, rhoddwyd y pwyslais eto eleni ar gael ymateb electronig trwy wneud defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol o ganlyniad i'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig a'r ffaith na allai cyfarfodydd cyhoeddus arferol gymryd lle.

Cafodd y cynigion eu marchnata fel a ganlyn trwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol -

13 gwaith trwy gyfrif facebook Cymraeg

13 gwaith trwy gyfrif Facebook Saesneg

13 gwaith trwy gyfrif Twitter Cymraeg

13 gwaith trwy gyfrif Twitter Saesneg

3 gwaith trwy gyfrif Instagram dwyieithog

Derbyniodd y Cyngor bron i 600 o ymatebion trwy ddulliau electronig. Derbyniwyd gohebiaeth hefyd trwy e-bost. Mae'r ymatebion hyn yn nifer gweddol fawr o gymharu â'r niferoedd a gafwyd mewn ymateb i'r broses gosod cyllideb flynyddol yn y gorffennol pan gafwyd oddeutu 500 o ymatebion bob blwyddyn ar gyfartaledd. Yr eithriad oedd pan dderbyniwyd mwy na 5,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2019/20

O gofio bod ymgynghoriad eleni wedi rhedeg am  bythefnos yn unig, mae hwn yn ymateb priodol gan drigolion Ynys Môn i'r ymgynghoriad ac yn un i'w groesawu.

Mae'r canlyniadau / canfyddiadau fel a ganlyn -

| **1. Ydych chi'n cytuno i gynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor gan y Cyngor Sir er mwyn ariannu'r gweithgareddau / gwasanaethau uchod?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran** | **Nifer yr ymatebion** |
| 1 | Ydw | | 12.33% | 72 |
| 2 | Nac ydw | | 87.67% | 512 |
| | | | Wedi ateb | 584 |
| | | | Heb ateb | 4 |

Mae'r ymateb uchod yn dangos nad yw'r mwyafrif (bron i 9 o bob 10 o bobl) a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig i gynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor er mwyn ariannu'r gweithgareddau a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

| **2.Os nad ydych yn cytuno, pa weithgareddau / gwasanaethau o blith yr isod y credwch y dylai'r Cyngor Sir roi blaenoriaeth iddynt a'u hariannu o gynnydd yn y Dreth Gyngor ? (dewiswch gynifer o'r opsiynau isod y credwch y dylid eu hariannu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran** | **Nifer yr ymatebion** |
| 1 | Cyflwyno rhaglen Staff Proffesiynol Lefel Mynediad newydd i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc lleol | | 14.23% | 76 |

**2.Os nad ydych yn cytuno, pa weithgareddau / gwasanaethau o blith yr isod y credwch y dylai'r Cyngor Sir roi blaenoriaeth iddynt a'u hariannu o gynnydd yn y Dreth Gyngor ? (dewiswch gynifer o'r opsiynau isod y credwch y dylid eu hariannu)**

| | | | **Canran** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Cynyddu Capasiti'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i gynnal iechyd y cyhoedd ar Ynys Môn yn y dyfodol | | 18.54% | 99 |
| 3 | Gwella darpariaeth addysgol ar gyfer y dysgwyr mwyaf bregus yn CA4 drwy wneud buddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth Cynhwysiant Addysg | | 19.10% | 102 |
| 4 | Cymorth TG ychwanegol i Ysgolion i alluogi a chynyddu gweithgarwch TG mewn Addysg | | 21.54% | 115 |
| 5 | Rheoli traethau a'r blaendraethau yn well ynghyd a gwella trefniadau casglu data er mwyn cynorthwyo buddsoddiad mewn Twristiaeth yn y dyfodol | | 14.23% | 76 |
| 6 | Addasiadau Newid Hinsawdd | | 15.17% | 81 |
| 7 | Dim un o'r uchod – parhau fel yr ydych heb fod angen buddsoddiad pellach | | 45.69% | 244 |
| | | | Wedi ateb | 534 |
| | | | Heb ateb | 54 |

Mae'r uchod yn rhoi darlun o ble y byddai'r rheini nad ydynt eisiau gweld cynnydd o 1.1% yn y Dreth Gyngor i ariannu Gwasanaethau'r Cyngor yn blaenoriaethu pe bai angen. Gellir gweld yn glir y byddai'r mwyafrif yn parhau i nodi na ddylid buddsoddi o gwbl ac y dylai'r Cyngor barhau fel y mae

heb yr angen i wneud buddsoddiad pellach. Yr opsiwn hwn a gafodd yr ymateb mwyaf, sef oddeutu 46% a'r ail uchaf oedd buddsoddiad ychwanegol mewn cymorth TG i ysgolion er mwyn galluogi a chefnogi mwy o weithgaredd TG yn y maes addysg.

**2. Er mwyn cefnogi'r mentrau hyn ymhellach a chodi swm arfaethedig o £100,000, mae'r Cyngor hefyd yn cynnig codi ffioedd parcio ceir mewn lleoliadau glan môr gan ei fod wedi dod i'r casgliad bod y ffioedd presennol yn isel o gymharu ag awdurdodau a chyrchfannau eraill ac mae'n credu bod lle i gynyddu'r ffioedd hyn.**
**Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu'r ffioedd fel a ganlyn –**
**Hyd at 1 Awr – Ffi Bresennol £1.00, Ffi Newydd Arfaethedig £1.00**
**Hyd at 2 Awr – Ffi Bresennol £2.00, Ffi Newydd Arfaethedig £3.00**
**Hyd at 4 Awr – Ffi Bresennol £3.50, Ffi Newydd Arfaethedig £6.00**
**Hyd at 12 Awr – Ffi Bresennol £4.50, Ffi Newydd Arfaethedig £10.00**
**Hyd at 12 Awr (car a threlar) – Ffi Bresennol £6.00, Ffi Newydd Arfaethedig £20.00**
**A fyddech chi'n cytuno â'r cynigion hyn**

| | | | **Canran** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Byddwn | | 38.50% | 226 |
| 2 | Na fyddwn | | 61.50% | 361 |
| | | | Wedi ateb | 587 |
| | | | Heb ateb | 1 |

Mae'r cwestiwn uchod sy'n ymwneud â ffioedd parcio uwch yn dangos rhaniad clir ym marn ymatebwyr gyda rhaniad bras o 60:40 yn erbyn cynnig o'r fath. Derbyniwyd gohebiaeth gan Glwb Hwylio a Chwaraeon Dŵr lleol ynghylch y cynnig uchod, a oedd yn nodi -

"The Club recognise that the Covid 19 Pandemic has put enormous strain on Council budgets and reductions in the support from the UK Government via the Welsh Assembly over the years have forced local councils across Wales to have to make difficult decisions.

However, Members had a number of concerns about the potential impact a substantial increase in car parking fees could have on Club participation levels". Mae gan y Clwb ei hun dros 600 o aelodau, ac mae tua 250 ohonynt yn blant.

Mae'r Clwb yn ei ymateb yn gofyn i'r Cyngor Sir gydnabod ei bryder, gan fod llawer o'i aelodau yn ddefnyddio maes parcio Traeth Bychan yn rheolaidd am ddiwrnod llawn. Gallai cynnydd afresymol yn y ffi nid yn unig effeithio ar gyfranogiad yng ngweithgareddau'r Clwb, ar y dŵr ac oddi ar y dwr, ond gall hefyd ostwng ffynhonnell o incwm tymor hir i'r Cyngor Sir, sef incwm sicr i bob pwrpas am y tymor cyfan .

Mae hefyd yn deall bod y Cyngor yn cynnig cyflwyno peiriannau  tocynnau mwy modern mewn rhai meysydd parcio. Os yw hyn yn wir, byddai'r Clwb yn cynnig y byddai o fudd i'r Clwb a'r Cyngor Sir gyflwyno cynllun sy'n gwobrwyo'r rheini sy'n defnyddio meysydd parcio'n rheolaidd, fel aelodau'r clwb, trwy gynnig disgownt  teyrngarwch i ddefnyddwyr sy'n barod i brynu blociau o docynnau parcio ymlaen llaw.

Mae cynnig tebyg (sef y gellid codi tâl parcio is ar drigolion) hefyd wedi'i gynnig gan aelod etholedig i'w ystyried ymhellach.

**3. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig defnyddio rhywfaint o'i arian wrth gefn cyffredinol i gyllido'r prosiectau gwella unwaith ac am byth canlynol -**

**Prosiectau Datblygu Economaidd a llesiant amgylcheddol. Arian cyfatebol i'w ddefnyddio pan fydd arian grant allanol ar gael i'w hawlio er mwyn gwireddu prosiectau fydd o fudd i'r Ynys- £95,000**

**Cyfrifiaduron Chromebook ar gyfer ysgolion. Cyllido 1,672 o gyfrifiaduron Chromebook ar gyfer ysgolion Uwchradd a Chynradd i sicrhau bod cyfrifiaduron Chromebook ar gael i ddisgyblion, cynyddu cymhareb y cyfrifiaduron Chromebook i ddisgyblion a chyfrannu at gynllun ehangach Hwb 2019-2023 - £305,000**

**Ailwynebu ardaloedd chwarae. Ailwynebu dwy ardal chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi  - £300,000**

**Cynlluniau Atal Llifogydd. Darparu arian cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach a darparu arian cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau mawr a flaenoriaethwyd er mwyn denu arian grant gan Lywodraeth Cymru. Felly, byddai grant LlC yn dod i gyfanswm o £2.295m ac yn caniatáu adeiladu Cynlluniau Atal Llifogydd yn Nhraeth Coch, Porthaethwy a Fali- £405,000**

**Ydych chi'n cytuno â'r gweithgareddau a gynigir uchod?**

| | | | Canran | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydw | | 51.55% | 300 |
| 2 | Nac ydw | | 48.45% | 282 |
| | | | Wedi ateb | 582 |
| | | | Heb ateb | 6 |

Mae'r ymateb i gynnig y Cyngor ynghylch sut i ddefnyddio ei gyllid cyfalaf dros y 12 mis nesaf yn groes i'r sylwadau blaenorol, gyda mwyafrif bach o blaid y cynigion.

Ceir sylwadau pellach ynghylch rhai o'r cynigion hyn a barn ymatebwyr mewn ateb i gwestiwn olaf yr ymgynghoriad fel a ganlyn.

**5. Os nad ydych yn cytuno, ymhle ac ar beth ddylai'r Cyngor fuddsoddi yn ystod y 12 mis nesaf?**

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi eu rhannu ar sail thematig fel y gellir eu dadansoddi'n rhwyddach. Fe'u rhestrir yn nhrefn nifer yr ymatebion h.y. y nifer fwyaf yn gyntaf / y nifer lleiaf yn olaf.

**Anfodlon: 69**

Dyma'r nifer a oedd yn anfodlon â'r awgrym o gynyddu'r dreth gyngor. Gwnaed sawl pwynt, ond fe wnaeth ychydig o themâu godi'n amlach na rhai eraill. Ail gartrefi - neu gartrefi gwyliau - oedd y brif thema y cafwyd ymatebion iddi. Roedd teimlad y dylai'r Cyngor fod yn ceisio cynyddu'r dreth ar gyfer y rheini nad ydynt yn byw yn Ynys Môn trwy gydol y flwyddyn ac sy'n berchen ar gartrefi gwyliau, yn hytrach na chynyddu'r dreth gyngor yn gyffredinol. Ar ben hynny, roedd ymatebwyr yn awyddus i nodi bod llawer o'r rhai sy'n berchen ar ail gartrefi yn elwa trwy redeg eu hail gartrefi fel 'AirBnB'. Nododd ymatebwyr hefyd ei bod yn annheg iawn awgrymu cynyddu'r dreth gyngor gan ystyried bod tâl o £35 bellach am wagio biniau gwyrdd, ynghyd â'r baich a'r gost sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Roedd llawer o bobl yn teimlo'n gryf na allent ddelio ag unrhyw gostau pellach. Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr eisiau sicrhau bod eu teimladau'n cael eu clywed o ran pa mor dda y mae rhai o'r cynghorwyr yn cael eu talu.

I ffwrdd o'r dreth gyngor, roedd mwyafrif y bobl a ymatebodd yn hollol yn erbyn y syniad o gynyddu ffioedd parcio ceir ar draethau a chyrchfannau twristiaeth eraill. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo y byddai'n achosi mwy o broblemau - pobl yn parcio ar ochrau ffyrdd a'r pryder y gallai droi rhai twristiaid i ffwrdd. Mae'r safbwyntiau hyn yn cyd-fynd â barn y Clwb Hwylio a Chwaraeon Dŵr a grybwyllwyd eisoes.

- **Dim Gwariant Pellach - Gwneud gyda'r hyn sydd gennym eisoes: 38**

Yn gyffredinol, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'n well ganddynt, oherwydd Covid, weld dim buddsoddiad ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir eleni os yw'n golygu bod yn rhaid cynyddu eu treth gyngor.

- **Priffyrdd 35**

Roedd nifer o ymatebwyr yn awyddus i nodi eu bod am weld gwelliant i'r ffyrdd ar Ynys Môn. Ar ben hynny, nid oedd hon yn farn a leisiwyd mewn rhai ardaloedd o'r ynys yn unig gan mai dyna oedd y farn gyffredinol ledled yr ynys gyfan. Tynnodd ymatebwyr sylw'n aml at y ffaith bod tyllau yn y ffyrdd ac wynebau gwael y ffyrdd wedi achosi difrod i'w ceir.

- **Addysg: 27**

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r syniad o sicrhau 'chromebooks' i'r ysgolion. Gellir gweld hyn yn nifer y bobl a gefnogodd welliant mewn addysg. Fodd bynnag, roedd yr ardal chwarae gwerth £300,000 yng Nghaergybi yn cael ei weld fel swm 'hurt' o arian i'w wario ar gyfleuster o'r fath.

- **Cynlluniau Atal Llifogydd: 23**

Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i wneud gwaith ychwanegol ar gyfer cynlluniau lleddfu llifogydd. Cyfeiriodd llawer at y llifogydd diweddar fel eu rheswm dros fod eisiau cyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau atal llifogydd mewn gwahanol rannau o'r Ynys.

- **Iechyd a Llesiant: 20**

Mae sawl elfen wahanol i'r ymatebion i'r pwynt hwn. Yn gyntaf, mae llawer o ymatebwyr yn teimlo bod angen cyllid ychwanegol tuag at sicrhau bod oedolion a phlant yn gallu derbyn gwasanaeth cwnsela iechyd meddwl pan fyddant ei angen. Roedd teimlad hefyd bod angen sicrhau bod arian ar gael tuag at les teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.  Yn olaf, roedd ychydig o ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol i'r henoed a'r anabl.

- **Mwy o Weithgareddau: 17**

Roedd llawer yn awyddus i weld mwy o lwybrau beicio a llwybrau cerdded ar yr ynys - yn enwedig ffyrdd o amgylch ardal Llangefni. Nododd pobl hefyd yr hoffent weld mwy o feysydd chwarae, neu feysydd chwarae'n cael eu hadnewyddu  - gan dynnu sylw nad oes digon o fannau i blant chwarae mewn sawl ardal. Gellir cyplysu'r  pwynt hwn â'r sylwadau a nodir uchod ynghylch iechyd a lles trigolion.

- **Tai: 15**

Gwnaed dau brif bwynt yma. Roedd ymatebwyr yn awyddus i weld cynnydd yn nifer y tai sydd ar gael i brynwyr tro cyntaf - hoffent weld menter gan y Cyngor sy'n cefnogi pobl iau i brynu eu tŷ cyntaf. Yn ail, roeddent yn awyddus i weld naill ai mwy o dai Cyngor yn cael eu prynu, neu welliant yng nghyflwr amryw o dai Cyngor.

- **Sbwriel a Gwastraff: 13**

Roedd yr ymateb hwn yn canolbwyntio'n enfawr ar faterion baw cŵn yn fwy na dim. Mae pobl wedi cael llond bol ar weld baw cŵn ar draethau a hoffent weld cyllid ychwanegol yn cael ei roi tuag at gael biniau ar draethau.

- **Gwella cymunedau: 11**

Roedd thema gyffredinol - yn enwedig o ran Caergybi - bod ymatebwyr eisiau gweld gwelliannau i drefi. Yn y bôn, roeddent yn awyddus i weld hen adeiladau blinedig yn cael eu hadnewyddu a'u gwneud i edrych yn fwy deniadol.

- **Busnesau Bach: 10**

Teimlai ymatebwyr fod angen cyllid ychwanegol ar fusnesau bach er mwyn eu helpu trwy'r pandemig. Mae effaith Covid wedi bod yn gostus iawn i fusnesau bach sydd wedi gorfod cau o ganlyniad i gyfyngiadau cyfnodau clo.

- **Twristiaeth: 10**

Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid sicrhau bod arian ar gael ar gyfer gweithgareddau twristiaeth. Roeddent yn teimlo mai twristiaeth oedd y ffordd orau i chwistrellu arian i'r economi leol ar ôl Covid, ac felly roeddent yn teimlo y dylai'r Cyngor geisio buddsoddi mewn atyniadau a allai ddenu mwy o bobl i ymweld ag Ynys Môn. Roedd hwn yn cael ei weld fel cyfle.

- **Mwy o gyfleon am swyddi: 9**

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn awyddus i weld buddsoddiad yn cael ei wneud i sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu cael swyddi. Amlygodd 5 o'r ymatebwyr yr hoffent weld cynnydd yn nifer y cyfleoedd i bobl ifanc yn benodol.

- **Gwella'r Amgylchedd: 6**

Soniodd ychydig o ymatebwyr yr hoffent weld cyllid ar gael er mwyn sicrhau bod Ynys Môn yn fwy ecogyfeillgar. Roedd yr ymatebion yn amrywio o fod eisiau gweld mwy o orsafoedd gwefru ceir trydan, i fod eisiau gweld mwy o goed ac ati yn cael eu plannu.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **16 Chwefror, 2021** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2021/22 (Cyfalaf)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried cynigion cyllidebol terfynol ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio :** | **Y Cynghorydd Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllideb gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2021/22 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 isod) a chan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan y Panel Sgriwtini Cyllid. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor

- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2021/21:

i. O ystyried yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael, a yw'r Pwyllgor o'r farn bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o ffynonellau cyllid?
ii. Sut mae cynigion cyfalaf 2021/22 yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn y tymor canol, yn ogystal â chydbwyso blaenoriaethau tymor byr?
iii. Sut mae'r Cyngor wedi paratoi dros y blynyddoedd diwethaf ar gyfer cyllid cyfalaf sy'n prinhau. Beth yw'r risgiau wrth symud ymlaen?
iv. Ydy'r gyllideb ddrafft yn galluogi'r Cyngor i fanteisio ar gyfleoedd grantiau posibl i gefnogi'r amcanion strategol?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ariannol yn dod i'r amlwg fel model o arfer dda.

**1.2 Strategaeth Gyfalaf 2019/20 – 2021/22**

Mae Côd Darbodus diwygiedig CIPFA [1] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth gyfalaf er mwyn:

- Nodi'r cyd-destun tymor hir y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi ynddo
- Fel ffordd o sicrhau bod Cynghorau'n gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion a blaenoriaethau gwasanaeth
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd ystyriaeth briodol o stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd wrth osod eu rhaglenni cyfalaf.

Mabwysiadwyd strategaeth gyfalaf a rhaglen gyfalaf yr Awdurdod am 2019/20 - 2021/22 gan y Cyngor Llawn ym mis Mai, 2019.[2] Mae'n nodi'r amcanion, yr egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cymryd penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi yn unol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid lleol. Un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth yw

[1] Côd Darbodus Diwygiedig (CIPFA) dyddiedig Medi 2017
[2] Cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 14 Mai, 2019.

canolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion allweddol Cynllun y Cyngor ac sy’n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:

i. Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
ii. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
iii. Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, gan amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllido cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2019/20 - 2021/22. Hefyd, mae'r strategaeth yn nodi'r egwyddorion tymor hir sy'n sail i gynllunio cyfalaf i'r dyfodol.

**1.3 Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn trafod nifer o egwyddorion tymor hir a ddylai fod yn sail i raglen gyfalaf y Cyngor:

- Dylai'r rhaglen gyfalaf flynyddol ganolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at y blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017/2022
- Dylid dyrannu cyllid cyfalaf bob blwyddyn i sicrhau buddsoddiad ynn yr asedau cyfredol
- Bydd y Cyngor yn sicrhau'r cyllid cyfalaf allanol mwyaf posib os oes modd gwneud hynny ac os yw’n fforddiadwy
- Blaenoriaethir cyllid cyfalaf hefyd i’w wario ar asedau sydd raid wrthynt i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol
- Ymrwymiad parhaus i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac i ddefnyddio'r cyllid allanol sydd ar gael yn llawn

**1.4 Ffynonellau Cyllido’r Gyllideb Gyfalaf**

Ariennir rhaglen gyfalaf flynyddol y Cyngor trwy nifer o ffynonellau cyllid:

- Derbyniadau Cyfalaf
- Cyfraniad gan Refeniw
- Benthyca â Chefnogaeth
- Benthyca Di-gefnogaeth
- Grant Cyfalaf Cyffredinol
- Grantiau Allanol
- Lwfans Atgyweirio Mawr

**1.5** Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hirach y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol a’r Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - 2021/22) ac amcanion a blaenoriaethau tymor hir y Cyngor (fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor).

**2 GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2021/22**

**2.1** Ynghlwm mae adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2020/21 **(ATODIAD 1)** a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn ar 18 Ionawr, 2021. Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Sefyllfa gyllideb gyfalaf gychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2021/22
- Lefel y gwariant cyfalaf
- Effeithiau benthyca ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf
- Costau refeniw parhaus (fel cynhaliaeth)
- Pwysau cyllidebol
- Risgiau
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol a Chynllun y Cyngor

Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2021/22 gan Lywodraeth Cymru ar 2 March, 2021. O'r herwydd, bydd yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 gyflwyno adroddiad ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith yn manylu ar y cynigion cyllideb terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2021/22**

3.1 Mae sgriwtini ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau sgriwtini effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 PANEL SGRIWTINI CYLLID**

**4.1** Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod diwethaf (12 Chwefror, 2021). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel.

**5 Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD**

**5.1** Gwelwyd yr ymarfer ymgynghori yn adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o dan gyfarwyddyd y Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori a sefydlwyd gyda phartneriaid yn y 3ydd Sector.

**5.2** I'r perwyl hynny a chan fod eleni eto'n flwyddyn unigryw o ran amseriad cyhoeddi'r Setliad Cychwynnol ac effaith barhaus Covid-19, gwelwyd y broses ymgynghori yn ymgymryd â'r camau canlynol:

i. Adroddiad cyllidol i bwrpas sylwadau ar wefan y Cyngor
ii. Fforwm Cyllid Ysgolion

Gwelwyd y cyfnod ymgynghori hwn yn rhedeg o 19 Ionawr, 2021 tan 2 Chwefror, 2021.

| |
|---|
| Ynghlwm mae adroddiad y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Gwasanaeth Trawsnewid sy'n crynhoi prif negeseuon yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar (**ATODIAD 2**).<br><br>**6 MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**<br>**6.1** Mae proses gosod cyllideb 2021/22 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb gyfalaf ddrafft ac unrhyw risgiau. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft terfynol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[3] ar gynigion cyfalaf cychwynnol y Cyngor ar gyfer cyllideb gyfalaf 2021/22 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod). |
| |

| **6 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22, sy'n cynnwys ystyried y cynigion cyllideb cychwynnol ar gyfer y gyllideb gyfalaf. |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| **ATODIAD 1:** adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2021/22<br>**ATODIAD 2:** adroddiad y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Gwasanaeth Trawsnewid yn crynhoi negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Cyngor |
| **9 – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad os gwelwch yn dda am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Dyddiad: 04/02/21**

[3] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth, 2021

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **18 IONAWR 2021** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB GYFALAF GYCHWYNNOL 2021/22** |
| **Deiliad(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **R MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amh** |

**A –Argymhelliad/au a rheswm/rhesymau**

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1.1** Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2021.

**2. Argymhellion**

**2.1** Argymell i'r Cyngor llawn y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2021/22:-

| | **Cyf** | **£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2020/21 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Thabl 2 | 3,970 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau | Para 4.2.2 a Thabl 3 | 4,167 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Prosiectau Blaenoriaeth) | Para 5.2 - 5.6 a Thabl 4 | 780 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Yn amodol fod cyllid ar gael) | Para 5.6 | 325 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Para 6 | 6,600 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 20,313 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2021/22** | | **36,155** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,163 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 2,158 |
| Balansau Cyffredinol | | 596 |
| Balansau Cyffredinol (os oes digon o gyllid ar gael) | | 325 |
| Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 2,897 |
| Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 498 |
| Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn y Flwyddyn | | 15,639 |
| Benthyca Digefnogaeth gan yr CRT | | 2,000 |
| Grantiau Allanol | | 5,909 |
| Cyllid 2020/21 a Ddygwyd Ymlaen | | 3,970 |
| **2021/22 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | | **36,155** |

- Nodi'r gofynion cyllido posibl yn y dyfodol ar gyfer 2022/23 ymlaen (Atodiad 1, Tabl 3 a pharagraff 5.3).

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae nifer o gynlluniau ychwanegol i'w hystyried yn y rhaglen gyfalaf a'r prif ffactor sy'n sbarduno'r cyllid yw fforddiadwyedd a manteisio i'r eithaf ar gyllid grant allanol. |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Dirprwyir y mater i'r Pwyllgor Gwaith i gynnig y gyllideb gyfalaf. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydi |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Amh |

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA)**(gorfodol) | Maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(gorfodol) | Amh – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amh |
| 5 | **Eiddo** | Adlewyrchwyd gofynion y gyllideb yn y gyllideb arfaethedig |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Adlewyrchwyd gofynion y gyllideb yn y gyllideb arfaethedig |
| 7 | **Caffael** | Amh |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amh |
| 10 | **Eraill** | |

**E – Yr effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac mae'n rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun corfforaethol y Cyngor. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut:-** | Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau mwy yn y dyfodol. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod â phwy:** | Mae prosiectau cyfalaf mewn perthynas ag Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r CRT yn cyd-fynd â blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan yn y gwaith o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Bydd y gyllideb gyfalaf yn destun ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb cyn bod y Cyngor yn ei chymeradwyo'n derfynol ym Mawrth 2021. |
| **5** | **Amlinellwch pa effaith y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | Mae elfennau o'r rhaglen gyfalaf yn cyfrannu at yr agenda Cydraddoldeb e.e. Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Mynediad i'r Anabl mewn Ysgolion, prynu Llyfrau Chrome ar gyfer disgyblion ysgol. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2021/22
Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig 2021/22

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad y Strategaeth Gyfalaf – Cyngor llawn 10 Mawrth 2020
Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Cyngor llawn 10 Mawrth 2020

**ATODIAD 1**

# CYLLIDEB GYFALAF DDRAFFT 2021/22

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2021/22, a nodir isod, yn ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2020 a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2020.

## 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFALAF

**2.1.** Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/21 gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn a chaiff ei diweddaru ar gyfer 2021/22 i adlewyrchu'r lefelau cyllid newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodir yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2021/22, a gaiff eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf bresennol yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth benderfynu ar ei raglen gyfalaf :-

- Bob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei neilltuo i sicrhau y buddsoddir mewn asedau presennol i'w diogelu i'r dyfodol;
- Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn fforddiadwy;
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol;
- Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o'r cyllid allanol sydd ar gael trwy'r Rhaglen.

**2.3.** Aeth y strategaeth wedyn ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ar sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu darparu a chafodd y pwyntiau allweddol canlynol eu cynnwys:-

- Bod rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol;
- Bod amnewid asedau presennol neu asedau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes yn gostwng costau refeniw a bod swm yn cael ei neilltuo yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i wella, neu amnewid, offer TG presennol, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor;
- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl a bydd cyllid yn cael ei neilltuo bob blwyddyn yn y rhaglen gyfalaf i gydymffurfio â'r gofyniad hwn;
  Bydd swm yn cael ei neilltuo bob blwyddyn i gyllido gwelliannau ffyrdd. Bydd y swm yn dibynnu ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau gwerth isafswm contractau, lefel y cyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod;
- Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol yn cael eu hasesu fesul achos, bydd y penderfyniad i ymrwymo cyllid ai peidio yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a'r gymhareb o gyllid y Cyngor i'r cyllid grant;
- Ni fydd prosiectau a gyllidir o fenthyca digefnogaeth ond yn cael eu cyflawni os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw neu'r incwm uwch a gynhyrchir yn ddigon i dalu am y costau cyllido cyfalaf ychwanegol a grëir.

**2.4.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn nodi sut y dylid sgorio unrhyw fid newydd fel a ganlyn:-

- Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol – sgôr allan o 20;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol – sgôr allan o 10;
- A fydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw – sgôr allan o 10;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg gorfforaethol – sgôr allan o 10.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2021/22

**3.1.** Mae'r cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22 i'w weld yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi bod y ffigyrau ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau'r setliad Llywodraeth Leol dros dro. Ni fydd y ffigwr terfynol yn hysbys tan y cyhoeddir ffigyrau'r setliad terfynol ar 2 Mawrth 2021. Mae lefel y cyllid o dan y ddau bennawd wedi parhau yn gymharol gyson dros nifer o flynyddoedd a ni ragwelir y bydd newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

**Tabl 1**
**Cyllid Cyfalaf a Ragwelir fydd ar gael ar gyfer 2021/22**

| Ffynhonnell y Cyllid | £'m | £'m |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | | |
| Cynlluniau/Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2020/21 | 3.970 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2.163 | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.158 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | - | |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | - | |
| TAW Hamdden Wrth Gefn | 0.750 | |
| Grantiau Allanol a Chyfraniadau | 0.030 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)** | | **9.071** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.897 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 0.498 | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 3.205 | |
| **Cyllid ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | **6.600** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| Arian wrth gefn CRT | 6.079 | |
| CRT - Gwarged yn y flwyddyn | 9.560 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru | 2.674 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 2.000 | |
| **Cyllid ar gyfer CRT** | | **20.313** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2021/22** | | **35.984** |

**3.2.** Mae'r potensial ar gyfer unrhyw dderbyniadau cyfalaf sylweddol yn gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o unrhyw asedau sy'n weddill nad ydynt wedi'u gwerthu eisoes wedi'u clustnodi i gyllido prosiectau cyfalaf presennol neu brosiectau cyfalaf yn y dyfodol (Ysgolion yr 21ain Ganrif, gwelliannau hamdden a mân-ddaliadau).

**3.3.** Mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyllid wedi bod ar gael o gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol i gyllido prosiectau cyfalaf. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd y gronfa hon fel ffynhonnell cyllido ond mae'r balans wedi gostwng yn sylweddol a bydd y balans sy'n weddill yn cael ei gadw i gyllido unrhyw waith cyfalaf brys a allai godi yn ystod y flwyddyn neu i ddarparu arian cyfatebol pe bai'r cynnig o gyllid grant sylweddol yn cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn a oedd yn gofyn am swm bach o gyllid cyfatebol.

**3.4.** Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau CRT yn unig ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw brosiectau eraill. Mae'r cynllun yn caniatáu defnyddio £6.079m yn 2021/22, gan adael £1.5m fel yr arian wrth gefn parhaus. Mae hyn yn unol â Chynllun Busnes y CRT sydd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol gan y Cyngor.

## 4. RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT (Cynlluniau a Ymrwymwyd)

### 4.1. Cynlluniau 2020/21 a Ddygwyd Ymlaen

Ni fydd y cynlluniau canlynol yn cael eu cwblhau yn 2020/21 a byddant yn cael eu dwyn ymlaen i 2021/22:-

**Tabl 2**
**Cynlluniau 2020/21 a Ddygwyd Ymlaen**

| Cynlluniau 2020/21 a Ddygwyd Ymlaen | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|
| Unedau Porth | 2,032 | - | - |
| Porth Twristiaeth | 1,290 | 170 | - |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 210 | 190 | - |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II y Fenter Treflun Treftadaeth) | 438 | 350 | 200 |
| **Cyfanswm y Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **3,970** | **710** | **200** |

**4.1.1** Unedau Porth – Cynllun a gyllidir gan grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yw hwn i adeiladu unedau diwydiannol newydd ar safle'r porth, gyda'r prosiect yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2021.

**4.1.2** Porth Twristiaeth – Cynllun wedi'i gyllido gan grant yw hwn ac ni fydd angen unrhyw gyllid ychwanegol gan y Cyngor yn 2021/22.

**4.1.3** Partneriaeth Tirwedd Caergybi – Cynllun yw hwn sy'n cael ei gyllido'n llawn gan grantiau allanol ac ni fydd angen unrhyw gyllid gan y Cyngor i gwblhau'r cynllun.

**4.1.4** Adfywio Caergybi (Cyfnod II y Fenter Treflun Treftadaeth) - Sicrhawyd £75k o gyllid cyfatebol yn 2020/21 ar gyfer y cynllun hwn, gyda'r gweddill yn cael ei gyllido drwy grant. Bydd y cynllun nawr yn rhedeg tan 2023/24 ac ni fydd angen cyllid ychwanegol gan y Cyngor i gwblhau'r cynllun.

### 4.2. Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol

**4.2.1** Bob blwyddyn, neilltuir symiau yn y rhaglen gyfalaf er mwyn cynnal, uwchraddio neu amnewid asedau presennol. Mae'r symiau a neilltuwyd wedi'u hadolygu gan y Tîm Cyllid mewn ymgynghoriad â'r gwasanaeth perthnasol ac argymhellir y symiau canlynol ar gyfer 2021/22:-

- **Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) –** Mewn blynyddoedd blaenorol, neilltuwyd £750k ac ategwyd hyn yn 2018/19 a 2019/20 drwy ddefnyddio grantiau'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi bod y defnydd o grant y Gronfa Gofal Canolraddol i ychwanegu at y gyllideb graidd yn bosibl yn 2021/22 ac, felly, bydd cyllideb graidd o £500k yn ddigonol yn 2021/22, er y bydd angen cynyddu'r gyllideb graidd yn ôl i £750k yn 2022/23.

- **Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg** - Neilltuwyd £300k i dalu cost yr addasiadau hyn mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r Gwasanaethau Eiddo wedi nodi bod angen gwario £978k mewn 5 ysgol uwchradd ac mae wedi rhaglennu'r gwaith hwn i ddigwydd dros 3 blynedd. O ganlyniad, argymhellir neilltuo £300k eto ar gyfer 2021/22 gan mai dyma ail flwyddyn y rhaglen 3 blynedd.

- **Adnewyddu Ysgolion** – Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sydd angen ei wneud mewn ysgolion yn sylweddol ac ni ellir ei gyllido yn y tymor byr i'r tymor ganol. Er y gall rhywfaint o hyn gael ei liniaru gan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae angen gwneud rhywfaint o waith brys ar adeiladau nad yw'r rhaglen hon yn effeithio arnynt o hyd. Mae'r Tîm Gwasanaethau Eiddo wedi nodi'r gwaith brys pennaf y dylid defnyddio'r dyraniad arferol o £1m arno. Fodd bynnag, yn ddelfrydol, mae angen i'r swm y gellir ei wario ar ysgolion gael ei wneud dros gyfnodau gwyliau er mwyn osgoi risgiau iechyd a diogelwch a tharfu ar ysgolion. Mae hyn yn golygu bod angen dechrau rhai prosiectau tymor hir nawr fel y gellir eu cwblhau cyn i risgiau difrifol godi. Mae ysgolion uwchradd yn arbennig mewn cyflwr gwael iawn ac mae angen buddsoddiad sylweddol arnynt. Fodd bynnag, mae rhai materion adeiladau yn hollbwysig ac ni allant aros am raglen Ysgolion yr 21 Ganrif. Yn ddelfrydol, dylai'r Awdurdod neilltuo tua £2.5m y flwyddyn.

- **Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion –** Unwaith eto, nodwyd ôl-groniad o waith y mae angen ei wneud yn swyddfeydd y Cyngor, cartrefi preswyl, cyfleusterau gofal dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ac nid oes digon o gyllid i wneud y gwaith hwn mewn un flwyddyn. Neilltuwyd £600k yn y flwyddyn flaenorol a bydd y lefel hon o gyllid yn ddigonol i dalu cost y rhan fwyaf o'r gwaith blaenoriaeth y mae angen ei wneud.

- **Ail-wynebu Priffyrdd** - Mae priffyrdd wedi asesu bod y dyraniad o £1.250m a ariennir o gyllid cyfalaf craidd y Cyngor yn ddigonol ar gyfer 2021/22. Mae hyn yn amodol ar gyhoeddiad yn y setliad dros dro fod y Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus eto'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru ar yr un lefel ag yn 2020/21. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, mae'r Adroddiad Statws Blynyddol ac Opsiwn yn cadarnhau bod angen cyllideb flynyddol o £2m er mwyn cynnal Cyflwr Ataliol ein ffyrdd. Byddai cyllideb sy'n is na'r swm gofynnol hwn yn anochel yn arwain at lai o effeithlonrwydd a llai o werth am arian gyda chostau ychwanegol i'r Awdurdod Priffyrdd gyda mwy o arian yn cael ei wario ar waith brys a hefyd y risg y bydd mwy o hawliadau trydydd parti yn cael eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod. Cynhaliwyd rhaglen Adnewyddu Priffyrdd Llywodraeth Cymru, a neilltuodd £20m gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Cynghorau i adnewyddu priffyrdd, o 2018-2021 ac, hyd yma, ni chyhoeddwyd unrhyw gyllid pellach i'r perwyl hwn.

**Cerbydau –** Mae swm o £150k wedi'i neilltuo mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn gallu prynu cerbydau newydd yn lle'r rheini sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac i brynu cerbydau mwy effeithlon o ran tanwydd / e.e. ceir trydan. Fodd bynnag, yn ychwanegol at brynu cerbydau newydd yn lle hen rai fel mater o drefn, mae bysiau mini cludiant Cymunedol Môn yn cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol ac mae angen eu newid, gan fod costau trwsio yn cynyddu ac mae risg gynyddol na fydd cerbydau ar gael pan fyddir eu hangen. Mae rhaglen amnewid wedi cychwyn ac mae angen £45k ychwanegol yn 2021/22. Yn ogystal, bydd angen £100k pellach yn 2022/23 i ail-gychwyn uwchraddio'r fflyd graeanu.

- **Asedau TG –** Mae angen buddsoddiad parhaus i gynnal isadeiledd craidd y Cyngor ac i amnewid dyfeisiau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd bod angen swm o £171k i gynnal yr isadeiledd craidd a bod angen £121k ar gyfer dyfeisiau bwrdd gwaith. Mewn blynyddoedd blaenorol, ariannwyd costau trwyddedu o gyllid cyfalaf ond gan fod y pwysau ar y gyllideb refeniw wedi lleddfu ychydig, mae'r costau hyn wedi'u trosglwyddo i'r gyllideb refeniw sy'n rhyddhau rhywfaint o arian cyfalaf.
- **Asedau TG (Ysgolion) -** Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant sylweddol o £50m ar gyfer 2019/20 er mwyn trawsnewid Technoleg Addysg o fewn Ysgolion Gwladwriaeth Cymru ymhell i'r dyfodol. Bydd y cyllid o gymorth i sicrhau'r isadeiledd sydd ei hangen ar ysgolion er mwyn gallu bodloni safonau digidol Llywodraeth Cymru. Disgwylir i Lywodraeth Cymru fuddsoddi £30m yn 2020/21, £20m yn 2021/22 a £10m yn 2022/23. Bydd mwyafrif y cyllid ar gyfer 2021/22 (90%, tua £0.270m ar gyfer Ynys Môn) yn cael ei ddal gan Lywodraeth Cymru a bydd awdurdodau lleol yn prynu offer o ffynhonnell ganolog a drefnir gan Lywodraeth Cymru. Darperir 10% (a amcangyfrifir fel £30k ar gyfer Ynys Môn) o'r cyllid i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi gweithrediad y cynllun. Mae'r cyllid hwn yn ddibynnol ar ymrwymiad y Cyngor i newid yr offer rhyw dro yn y dyfodol pan fydd yn dod i ddiwedd ei oes. Bydd angen trafodaethau pellach fel rhan o gyllidebau yn y dyfodol o ran sut i greu cyllid digonol er mwyn cyllido'r buddsoddiad angenrheidiol pan fydd yr offer yn dod i ddiwedd ei oes defnyddiol.

**4.2.2** Ceir crynodeb o'r cyllid craidd yr argymhellir ei ddefnyddio uchod yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Cyllid sy'n cael ei argymell ar gyfer Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol 2021/22 – 2023/24**

| Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 500 | 750 | 750 |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg | 300 | 300 | 300 |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | 2,500 | 2,500 |
| Adnewyddu Adeiladau nad ydynt yn Adeiladau Ysgol | 600 | 600 | 600 |
| Priffyrdd | 1,250 | 2,000 | 2,000 |
| Cerbydau | 195 | 295 | 250 |
| Asedau TG | 292 | 292 | 292 |
| Asedau TG Ysgolion | 30 | 15 | - |
| **Cyfanswm** | **4,167** | **6,752** | **6,692** |

**4.2.3** Cyfanswm y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 yw £4.321m. Ychydig o gynnydd a fu yn y dyraniad cyfalaf cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ers nifer o flynyddoedd wrth i gyllid cyfalaf ychwanegol gael ei gyfeirio at brosiectau penodol e.e. Ysgolion yr 21ain Ganrif. Os bydd y lefel hon o gyllid yn parhau yn 2022/23 a thu hwnt i hynny, bydd rhaglen gyfalaf y Cyngor naill ai wedi ei chyfyngu i adnewyddu ac amnewid yr asedau cyfredol neu bydd yn rhaid lleihau'r dyraniadau a ddangosir uchod er mwyn rhyddhau cyllid i dalu am ymrwymiadau eraill.

## 5. BIDIAU ERAILL AM CYLLID YCHWANEGOL

**5.1.** Gofynnwyd i'r gwasanaethau gyflwyno bidiau am gyllid cyfalaf. Aseswyd y bidiau hyn gan y Tîm Cyllid, gan ddefnyddio'r dull sgorio a nodwyd yn y Strategaeth Gyfalaf ac yna fe'u gosodwyd yn nhrefn blaenoriaeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ac eithrio'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai, cyfanswm y cyllid craidd cyffredinol a oedd ar gael ar gyfer 2021/22 oedd £4.321m, ac mae angen £4.167m ohono ar gyfer yr uchod, gan adael £0.184m i gyllido unrhyw brosiectau untro newydd.

**5.2.** Ar ôl sgorio'r prosiectau, ac yn dilyn yr adolygiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, argymhellir y dylid cynnwys y prosiectau canlynol yn rhaglen gyfalaf 2021/22 (gweler Tabl 4 isod):-

**Tabl 4**
**Prosiectau Cyfalaf Untro a Argymhellir eu Cyllido yn 2021/22**

| Teitl y Prosiect | Disgrifiad | Swm a Argymhellir £'000 |
|---|---|---|
| Prosiectau Llesiant Amgylcheddol a Datblygu Economaidd | Cyllid cyfatebol i'w ddefnyddio pan fydd cyllid grant ar gael. | 95 |
| Llyfrau Chrome i ysgolion | Cyllido 1,672 o lyfrau Chrome ar gyfer Ysgolion Uwchradd a Chynradd i sicrhau bod llyfrau Chrome ar gael i blant, cynyddu cymhareb y llyfrau Chrome i ddisgyblion a chyfrannu at gynllun ehangach hwb 2019-2023. | 305 |
| Ail-wynebu mannau chwarae | Ail-wynebu dwy ardal chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi. | 300 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | Darparu Cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach a hefyd darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau mawr wedi'u blaenoriaethu er mwyn denu cyllid grant Llywodraeth Cymru. Felly, byddai grant Llywodraeth Cymru yn dod i gyfanswm o £2.295m. | 405 |
| **CYFANSWM BIDIAU NEWYDD AM GYLLID CYFALAF YN 2021/22** | | **1,105** |

**5.3.** Mae'r bidiau a nodir yn Nhabl 4 yn fwy na'r cyllidarian sydd ar gael o £0.921m a, gan nad yw'r prosiectau'n cynhyrchu unrhyw incwm ychwanegol neu'n lleihau gwariant refeniw, yna nid ystyrir bod benthyca digefnogaeth yn opsiwn. Yr unig opsiwn cyllido sydd ar ôl yw defnyddio, felly, yw balansau cyffredinol y Cyngor.

**5.4.** Mae balans presennol y Cyngor o gronfeydd cyffredinol wrth gefn yn £7.06m (ar 1 Ebrill 2020) a, gan y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd cyllideb refeniw 2020/21 yn tanwario £1m, mae potensial i'r gronfa gyffredinol gynyddu i tua £8m erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r Cyngor wedi gosod targed o 5% o'r gyllideb refeniw net fel y targed ar gyfer y lefel isaf o falansau cyffredinol ac yn seiliedig ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2021/22 byddai hyn yn cyfateb i isafswm balans o tua £7.0m.

**5.5.** Pe bai'r balansau cyffredinol yn codi i £8m mae potensial i ddefnyddio £1m o falansau cyffredinol i gyllido'r gwariant cyfalaf ychwanegol yn 2021/22. Fodd bynnag, pe bai sefyllfa'r gyllideb refeniw yn gwaethygu dros ail hanner y flwyddyn ariannol, gall lefel y cyllid sydd ar gael fod yn llai na £1m.

**5.6.** O'r 4 cynllun a nodir yn Nhabl 4, ystyrir bod y cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau Datblygu Economaidd a phrynu llyfrau Chrome i ddisgyblion yn gynlluniau blaenoriaeth y mae angen eu cyllido'n llawn yn 2021/22. Os nad oes digon o arian wrth gefn ar gael h.y. bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn is na'r hyn a ragwelwyd, yna gellir cwtogi'r ddau gynllun terfynol fel a ganlyn:-

- Gall cwtogi'r gwaith o osod wyneb newydd ar y ddwy ardal chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi fel mai un yn unig a gwblheir yn 2021/22. Bydd hyn yn lleihau cost y cynllun tua £100k.

- Mae'r cyllid cyfatebol ar gyfer y cynlluniau atal llifogydd yn cynnwys £225k fel cyllid cyfatebol i wneud cynllun atal llifogydd gwerth £1.5m yn Nhraeth Coch. Er y byddai peidio â sicrhau bod y cyllid cyfatebol ar gael ar gyfer y cynllun hwn yn arwain at golli £1.275m yng ngrant Llywodraeth Cymru, ystyrir bod y cynllun yn gynllun is o ran blaenoriaeth na'r cynlluniau mawr eraill yn y Fali a Phorthaethwy sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

**5.7.** Nododd y broses bidio hefyd nifer o brosiectau nad oes angen cyllid arnynt yn 2021/22 ond y gallai fod angen eu cyllido yn 2022/23 neu wedi hynny. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:-

- TGCh ysgolion – Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant sylweddol o £50m ar gyfer 2019/20 i drawsnewid Technoleg Addysg o fewn Ysgolion Gwladwriaeth Cymru ymhell i'r dyfodol. Bydd y cyllid yn helpu i roi'r isadeiledd hwb sydd ei angen ar ysgolion i fodloni safonau digidol Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru fuddsoddi £30m yn 2020/21 ac, £20m yn 2021/22 ac yn olaf, £10m yn 2022/23. Llywodraeth Cymru fydd yn dal y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer 2021/22 (90%, tua £0.270m ar gyfer Ynys Môn) a bydd awdurdodau lleol yn prynu offer o ffynhonnell ganolog a drefnir gan Lywodraeth Cymru. Darperir 10% (tua £30k ar gyfer Ynys Môn) o'r cyllid i awdurdodau lleol i helpu i weithredu'r rhaglen. Mae'r cyllid hwn yn dibynnu ar ymrwymiad y Cyngor i ddisodli'r offer rywbryd yn y dyfodol pan fydd yn cyrraedd diwedd ei oes. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw neilltuo cyllid cyfalaf bob blwyddyn i greu cronfa wrth gefn fydd ar gael pan fydd angen. Byddai swm o £500k y flwyddyn dros 4 blynedd o 2021/22 yn sicrhau cronfa o £2m o fewn pedair blynedd.

- Cynllun lliniaru llifogydd ar y B5109 yn Fryars Bay. Gan nad oes unrhyw eiddo mewn perygl o lifogydd yn yr ardal hon, nid yw'r cynllun yn denu cyllid grant gan Lywodraeth Cymru o dan ei gynllun presennol. Os bydd cyllid grant ar gael, efallai y bydd angen i'r Cyngor ystyried rhyddhau cyllid cyfatebol er mwyn cwblhau'r gwaith lliniaru.

- Mae gwasanaethau dydd anabledd dysgu'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'n bosibl bydd canlyniad yr adolygiad hwnnw'n argymell buddsoddi cyllid cyfalaf mewn un neu ddwy ganolfan er mwyn moderneiddio'r gwasanaeth. Nid yw'n glir ar hyn o bryd faint o gyllid cyfalaf fyddai ei angen ond mae'n debygol o fod yn swm sylweddol.

- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn paratoi cynllun gwella cyfleusterau hamdden er mwyn nodi'r hyn fydd ei angen i gynnal a gwella'r cyfleusterau hamdden yn nhair prif ganolfan hamdden y Cyngor. Mae tua £750k mewn cronfa wrth gefn benodol ar gyfer hamdden a gellid cynyddu'r cyllid sydd ar gael trwy werthu'r cwrs golff, os bydd y Cyngor yn dod i'r casgliad hwnnw. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy o gyllid na hynny a bydd angen cyllid allanol ychwanegol i'w weithredu.

- Mae offer y cynllun Cyswllt Môn presennol yn agos at ddiwedd ei oes ddefnyddiol ac, er mwyn cynnal y cysylltiadau â'r sefydliadau a wasanaethir ganddo ar hyn o bryd, bydd angen am newid yr offer neu drosglwyddo'r cysylltiadau i Rwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA). Amcangyfrifir y bydd angen £180k dros gyfnod o 3 blynedd i gwblhau'r trosglwyddiad. Fodd bynnag, byddai symud i ffwrdd o Cyswllt Môn yn golygu y gellid gwerthu'r mastiau a byddai hynny'n cynhyrchu derbyniadau cyfalaf.

- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi symiau dros y blynyddoedd diwethaf i foderneiddio ei brosesau busnes trwy fuddsoddi mewn systemau swyddfa gefn a gweithredu'r system Rheoli Perthynas Cwsmer (CRM). Y cam nesaf yw dechrau datblygu systemau ymateb awtomataidd i ddelio ag ymholiadau gan gwsmeriaid (ChatBots). Er nad yw'r Cyngor mewn sefyllfa i weithredu'r dechnoleg ar hyn o bryd, nodwyd yr angen i fuddsoddi mewn technoleg o'r fath fel bid cyfalaf i'r dyfodol.

## 6. YSGOLION YR 21AIN GANRIF

**6.1.** O ganlyniad i'r cyllid sylweddol y bydd y cynlluniau'n ei ddenu gan Lywodraeth Cymru a'r angen i foderneiddio'r stad ysgolion bresennol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido'r cynlluniau hyn drwy'r defnydd o fenthyca digefnogaeth a'r derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu hen safleoedd ysgolion. Mae Rhaglen Gyfalaf 2021/22 yn golygu y gellir cwblhau prosiectau Band A â chychwyn prosiectau Band B. Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith fydd pa brosiectau i ymgymryd â nhw a phryd y byddant yn dechrau.

**6.2.** Amcangyfrifir mai cost y rhaglen yn 2021/22 yw £6.600m (yn net o unrhyw dderbyniadau cyfalaf) a fydd yn cael ei gyllido drwy grant o £3.205m gan Lywodraeth Cymru, £2.897m o fenthyca â chefnogaeth a £0.498m o fenthyca digefnogaeth.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1.** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyfrif wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2021/22 yn parhau i fuddsoddi yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau SATC, gyda £9.555m yn cael ei fuddsoddi. Bydd £10.758m arall yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac mewn prynu eiddo hawl i brynu yn ôl.

**7.2.** Bydd y rhaglen yn cael ei chyllido drwy: Arian Wrth Gefn y CRT (£6.079m), gwarged y refeniw a grëwyd yn 2021/22 (£9.560m), grantiau Llywodraeth Cymru (£2.674m) a benthyca digefnogaeth newydd (£2.000m).

## 8. CRYNODEB RHAGLEN GYFALAF A ARGYMHELLIR 2021/22

**8.1.** Ceir crynodeb o'r rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2021/22 yn Nhabl 5 isod a cheir dadansoddiad manylach yn Atodiad 2:-

**Tabl 5**
**Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2021/22**

| | Cyf | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2020/21 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Thabl 2 | 3,970 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau | Para 4.2.2 a Thabl 3 | 4,167 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Prosiectau Blaenoriaeth) | Para 5.2 - 5.6 a Thabl 4 | 780 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Yn amodol fo cyllid ar gael) | Para 5.6 | 325 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Para 6 | 6,600 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 20,313 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2021/22** | | **36,155** |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,163 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 2,158 |
| Balansau Cyffredinol | | 596 |
| Balansau Cyffredinol (os oes digon o gyllid ar gael) | | 325 |
| Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 2,897 |
| Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 498 |
| Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn y flwyddyn | | 15,639 |
| Benthyca Digefnogaeth CRT | | 2,000 |
| Grantiau Allanol | | 5,909 |
| Cyllid 2020/21 a Ddygwyd Ymlaen | | 3,970 |
| **2021/22 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | | **36,155** |

**Ymateb i Gynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2021/22**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Chwefror 2021**

**Awdur - Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglenni a Pherfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth - Carys Edwards, Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid**

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori ar y cynigion cyllidebol cychwynnol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Gwaith. Rhedodd y cyfnod ymgynghori am bythefnos o 19 Ionawr tan 2 Chwefror 2021 ac roedd yn canolbwyntio ar gynigion a gyflynwyd o blith holl wasanaethau'r Cyngor.

1.2. Canlyniad y broses flynyddol o osod cyllideb oedd y cynigion hyn ac ymgynghorwyd arnynt er mwyn cael barn y cyhoedd ac i sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith (wrth i'r broses ddirwyn i ben) yn gallu gwneud argymhellion gwybodus.

1.3. Ystyriwyd ystod eang o gynigion megis cynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor ar ben y 2.65% a glustnodwyd eisoes fel cynnydd blynyddol, a hynny er mwyn ariannu gwasanaethau hanfodol y Cyngor ac i fuddsoddi mewn delio â phwysau costau o ganlyniad i'r pandemig.

1.4. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynigion hyn mewn sawl ffordd ond defnyddiwyd llawer mwy o ddulliau digidol i'w hysbysebu nag mewn blynyddoedd blaenorol;

1.4.1. Cyhoeddwyd y cynigion ar wefan y Cyngor (hafan)

1.4.2. Defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol - Twitter, Facebook ac Instagram i hysbysebu'r cynigion i ystod ehangach o drigolion

Nod pob un o'r sianeli uchod oedd rhoi cyhoeddusrwydd a chreu brwdfrydedd ymhlith dinasyddion a staff i ymgysylltu â'r cynigion cychwynnol ac ymateb iddynt .

1.5. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad trwy'r dulliau canlynol:

- Arolwg ar-lein ar ein gwefan
- E-bost

Dilynodd yr ymgynghoriad eleni batrwm tebyg i ddigwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn y blynyddoedd diwethaf, ond nid oedd mor eang oherwydd yr amserlen fyrrach a orfodwyd ar y Cyngor gan Lywodraeth Cymru ac wrth gwrs effaith y pandemig ar y gallu i ymgynghori wyneb yn wyneb â thrigolion Ynys Môn. O ganlyniad, rhoddwyd y pwyslais eto eleni ar gael ymateb electronig trwy wneud defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol o ganlyniad i'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig a'r ffaith na allai cyfarfodydd cyhoeddus arferol gymryd lle.

Cafodd y cynigion eu marchnata fel a ganlyn trwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol -

13 gwaith trwy gyfrif facebook Cymraeg

13 gwaith trwy gyfrif Facebook Saesneg

13 gwaith trwy gyfrif Twitter Cymraeg

13 gwaith trwy gyfrif Twitter Saesneg

3 gwaith trwy gyfrif Instagram dwyieithog

Derbyniodd y Cyngor bron i 600 o ymatebion trwy ddulliau electronig. Derbyniwyd gohebiaeth hefyd trwy e-bost. Mae'r ymatebion hyn yn nifer gweddol fawr o gymharu â'r niferoedd a gafwyd mewn ymateb i'r broses gosod cyllideb flynyddol yn y gorffennol pan gafwyd oddeutu 500 o ymatebion bob blwyddyn ar gyfartaledd. Yr eithriad oedd pan dderbyniwyd mwy na 5,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2019/20

O gofio bod ymgynghoriad eleni wedi rhedeg am  bythefnos yn unig, mae hwn yn ymateb priodol gan drigolion Ynys Môn i'r ymgynghoriad ac yn un i'w groesawu.

Mae'r canlyniadau / canfyddiadau fel a ganlyn -

| **1. Ydych chi'n cytuno i gynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor gan y Cyngor Sir er mwyn ariannu'r gweithgareddau / gwasanaethau uchod?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran** | **Nifer yr ymatebion** |
| 1 | Ydw | | 12.33% | 72 |
| 2 | Nac ydw | | 87.67% | 512 |
| | | | Wedi ateb | 584 |
| | | | Heb ateb | 4 |

Mae'r ymateb uchod yn dangos nad yw'r mwyafrif (bron i 9 o bob 10 o bobl) a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig i gynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor er mwyn ariannu'r gweithgareddau a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

| **2.Os nad ydych yn cytuno, pa weithgareddau / gwasanaethau o blith yr isod y credwch y dylai'r Cyngor Sir roi blaenoriaeth iddynt a'u hariannu o gynnydd yn y Dreth Gyngor ? (dewiswch gynifer o'r opsiynau isod y credwch y dylid eu hariannu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran** | **Nifer yr ymatebion** |
| 1 | Cyflwyno rhaglen Staff Proffesiynol Lefel Mynediad newydd i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc lleol | | 14.23% | 76 |

| **2.Os nad ydych yn cytuno, pa weithgareddau / gwasanaethau o blith yr isod y credwch y dylai'r Cyngor Sir roi blaenoriaeth iddynt a'u hariannu o gynnydd yn y Dreth Gyngor ? (dewiswch gynifer o'r opsiynau isod y credwch y dylid eu hariannu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran** | **Nifer yr ymatebion** |
| 2 | Cynyddu Capasiti'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i gynnal iechyd y cyhoedd ar Ynys Môn yn y dyfodol | | 18.54% | 99 |
| 3 | Gwella darpariaeth addysgol ar gyfer y dysgwyr mwyaf bregus yn CA4 drwy wneud buddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth Cynhwysiant Addysg | | 19.10% | 102 |
| 4 | Cymorth TG ychwanegol i Ysgolion i alluogi a chynyddu gweithgarwch TG mewn Addysg | | 21.54% | 115 |
| 5 | Rheoli traethau a'r blaendraethau yn well ynghyd a gwella trefniadau casglu data er mwyn cynorthwyo buddsoddiad mewn Twristiaeth yn y dyfodol | | 14.23% | 76 |
| 6 | Addasiadau Newid Hinsawdd | | 15.17% | 81 |
| 7 | Dim un o'r uchod – parhau fel yr ydych heb fod angen buddsoddiad pellach | | 45.69% | 244 |
| | | | Wedi ateb | 534 |
| | | | Heb ateb | 54 |

Mae'r uchod yn rhoi darlun o ble y byddai'r rheini nad ydynt eisiau gweld cynnydd o 1.1% yn y Dreth Gyngor i ariannu Gwasanaethau'r Cyngor yn blaenoriaethu pe bai angen. Gellir gweld yn glir y byddai'r mwyafrif yn parhau i nodi na ddylid buddsoddi o gwbl ac y dylai'r Cyngor barhau fel y mae

heb yr angen i wneud buddsoddiad pellach. Yr opsiwn hwn a gafodd yr ymateb mwyaf, sef oddeutu 46% a'r ail uchaf oedd buddsoddiad ychwanegol mewn cymorth TG i ysgolion er mwyn galluogi a chefnogi mwy o weithgaredd TG yn y maes addysg.

**2. Er mwyn cefnogi'r mentrau hyn ymhellach a chodi swm arfaethedig o £100,000, mae'r Cyngor hefyd yn cynnig codi ffioedd parcio ceir mewn lleoliadau glan môr gan ei fod wedi dod i'r casgliad bod y ffioedd presennol yn isel o gymharu ag awdurdodau a chyrchfannau eraill ac mae'n credu bod lle i gynyddu'r ffioedd hyn.**
**Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu'r ffioedd fel a ganlyn –**
**Hyd at 1 Awr – Ffi Bresennol £1.00, Ffi Newydd Arfaethedig £1.00**
**Hyd at 2 Awr – Ffi Bresennol £2.00, Ffi Newydd Arfaethedig £3.00**
**Hyd at 4 Awr – Ffi Bresennol £3.50, Ffi Newydd Arfaethedig £6.00**
**Hyd at 12 Awr – Ffi Bresennol £4.50, Ffi Newydd Arfaethedig £10.00**
**Hyd at 12 Awr (car a threlar) – Ffi Bresennol £6.00, Ffi Newydd Arfaethedig £20.00**
**A fyddech chi'n cytuno â'r cynigion hyn**

| | | | **Canran** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Byddwn | | 38.50% | 226 |
| 2 | Na fyddwn | | 61.50% | 361 |
| | | | Wedi ateb | 587 |
| | | | Heb ateb | 1 |

Mae'r cwestiwn uchod sy'n ymwneud â ffioedd parcio uwch yn dangos rhaniad clir ym marn ymatebwyr gyda rhaniad bras o 60:40 yn erbyn cynnig o'r fath. Derbyniwyd gohebiaeth gan Glwb Hwylio a Chwaraeon Dŵr lleol ynghylch y cynnig uchod, a oedd yn nodi -

"The Club recognise that the Covid 19 Pandemic has put enormous strain on Council budgets and reductions in the support from the UK Government via the Welsh Assembly over the years have forced local councils across Wales to have to make difficult decisions.

However, Members had a number of concerns about the potential impact a substantial increase in car parking fees could have on Club participation levels". Mae gan y Clwb ei hun dros 600 o aelodau, ac mae tua 250 ohonynt yn blant.

Mae'r Clwb yn ei ymateb yn gofyn i'r Cyngor Sir gydnabod ei bryder, gan fod llawer o'i aelodau yn ddefnyddio maes parcio Traeth Bychan yn rheolaidd am ddiwrnod llawn. Gallai cynnydd afresymol yn y ffi nid yn unig effeithio ar gyfranogiad yng ngweithgareddau'r Clwb, ar y dŵr ac oddi ar y dwr, ond gall hefyd ostwng ffynhonnell o incwm tymor hir i'r Cyngor Sir, sef incwm sicr i bob pwrpas am y tymor cyfan .

Mae hefyd yn deall bod y Cyngor yn cynnig cyflwyno peiriannau tocynnau mwy modern mewn rhai meysydd parcio. Os yw hyn yn wir, byddai'r Clwb yn cynnig y byddai o fudd i'r Clwb a'r Cyngor Sir gyflwyno cynllun sy'n gwobrwyo'r rheini sy'n defnyddio meysydd parcio'n rheolaidd, fel aelodau'r clwb, trwy gynnig disgownt teyrngarwch i ddefnyddwyr sy'n barod i brynu blociau o docynnau parcio ymlaen llaw.

Mae cynnig tebyg (sef y gellid codi tâl parcio is ar drigolion) hefyd wedi'i gynnig gan aelod etholedig i'w ystyried ymhellach.

**3. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig defnyddio rhywfaint o'i arian wrth gefn cyffredinol i gyllido'r prosiectau gwella unwaith ac am byth canlynol -**

**Prosiectau Datblygu Economaidd a llesiant amgylcheddol. Arian cyfatebol i'w ddefnyddio pan fydd arian grant allanol ar gael i'w hawlio er mwyn gwireddu prosiectau fydd o fudd i'r Ynys- £95,000**

**Cyfrifiaduron Chromebook ar gyfer ysgolion. Cyllido 1,672 o gyfrifiaduron Chromebook ar gyfer ysgolion Uwchradd a Chynradd i sicrhau bod cyfrifiaduron Chromebook ar gael i ddisgyblion, cynyddu cymhareb y cyfrifiaduron Chromebook i ddisgyblion a chyfrannu at gynllun ehangach Hwb 2019-2023 - £305,000**

**Ailwynebu ardaloedd chwarae. Ailwynebu dwy ardal chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi - £300,000**

**Cynlluniau Atal Llifogydd. Darparu arian cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach a darparu arian cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau mawr a flaenoriaethwyd er mwyn denu arian grant gan Lywodraeth Cymru. Felly, byddai grant LlC yn dod i gyfanswm o £2.295m ac yn caniatáu adeiladu Cynlluniau Atal Llifogydd yn Nhraeth Coch, Porthaethwy a Fali- £405,000**

**Ydych chi'n cytuno â'r gweithgareddau a gynigir uchod?**

| | | | Canran | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydw | | 51.55% | 300 |
| 2 | Nac ydw | | 48.45% | 282 |
| | | | Wedi ateb | 582 |
| | | | Heb ateb | 6 |

Mae'r ymateb i gynnig y Cyngor ynghylch sut i ddefnyddio ei gyllid cyfalaf dros y 12 mis nesaf yn groes i'r sylwadau blaenorol, gyda mwyafrif bach o blaid y cynigion.

Ceir sylwadau pellach ynghylch rhai o'r cynigion hyn a barn ymatebwyr mewn ateb i gwestiwn olaf yr ymgynghoriad fel a ganlyn.

**5. Os nad ydych yn cytuno, ymhle ac ar beth ddylai'r Cyngor fuddsoddi yn ystod y 12 mis nesaf?**

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi eu rhannu ar sail thematig fel y gellir eu dadansoddi'n rhwyddach. Fe'u rhestrir yn nhrefn nifer yr ymatebion h.y. y nifer fwyaf yn gyntaf / y nifer lleiaf yn olaf.

**Anfodlon: 69**

Dyma'r nifer a oedd yn anfodlon â'r awgrym o gynyddu'r dreth gyngor. Gwnaed sawl pwynt, ond fe wnaeth ychydig o themâu godi'n amlach na rhai eraill. Ail gartrefi - neu gartrefi gwyliau - oedd y brif thema y cafwyd ymatebion iddi. Roedd teimlad y dylai'r Cyngor fod yn ceisio cynyddu'r dreth ar gyfer y rheini nad ydynt yn byw yn Ynys Môn trwy gydol y flwyddyn ac sy'n berchen ar gartrefi gwyliau, yn hytrach na chynyddu'r dreth gyngor yn gyffredinol. Ar ben hynny, roedd ymatebwyr yn awyddus i nodi bod llawer o'r rhai sy'n berchen ar ail gartrefi yn elwa trwy redeg eu hail gartrefi fel 'AirBnB'. Nododd ymatebwyr hefyd ei bod yn annheg iawn awgrymu cynyddu'r dreth gyngor gan ystyried bod tâl o £35 bellach am wagio biniau gwyrdd, ynghyd â'r baich a'r gost sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Roedd llawer o bobl yn teimlo'n gryf na allent ddelio ag unrhyw gostau pellach. Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr eisiau sicrhau bod eu teimladau'n cael eu clywed o ran pa mor dda y mae rhai o'r cynghorwyr yn cael eu talu.

I ffwrdd o'r dreth gyngor, roedd mwyafrif y bobl a ymatebodd yn hollol yn erbyn y syniad o gynyddu ffioedd parcio ceir ar draethau a chyrchfannau twristiaeth eraill. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo y byddai'n achosi mwy o broblemau - pobl yn parcio ar ochrau ffyrdd a'r pryder y gallai droi rhai twristiaid i ffwrdd. Mae'r safbwyntiau hyn yn cyd-fynd â barn y Clwb Hwylio a Chwaraeon Dŵr a grybwyllwyd eisoes.

- **Dim Gwariant Pellach - Gwneud gyda'r hyn sydd gennym eisoes: 38**

Yn gyffredinol, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'n well ganddynt, oherwydd Covid, weld dim buddsoddiad ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir eleni os yw'n golygu bod yn rhaid cynyddu eu treth gyngor.

- **Priffyrdd 35**

Roedd nifer o ymatebwyr yn awyddus i nodi eu bod am weld gwelliant i'r ffyrdd ar Ynys Môn. Ar ben hynny, nid oedd hon yn farn a leisiwyd mewn rhai ardaloedd o'r ynys yn unig gan mai dyna oedd y farn gyffredinol ledled yr ynys gyfan. Tynnodd ymatebwyr sylw'n aml at y ffaith bod tyllau yn y ffyrdd ac wynebau gwael y ffyrdd wedi achosi difrod i'w ceir.

- **Addysg: 27**

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r syniad o sicrhau 'chromebooks' i'r ysgolion. Gellir gweld hyn yn nifer y bobl a gefnogodd welliant mewn addysg. Fodd bynnag, roedd yr ardal chwarae gwerth £300,000 yng Nghaergybi yn cael ei weld fel swm 'hurt' o arian i'w wario ar gyfleuster o'r fath.

- **Cynlluniau Atal Llifogydd: 23**

Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i wneud gwaith ychwanegol ar gyfer cynlluniau lleddfu llifogydd. Cyfeiriodd llawer at y llifogydd diweddar fel eu rheswm dros fod eisiau cyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau atal llifogydd mewn gwahanol rannau o'r Ynys.

- **Iechyd a Llesiant: 20**

Mae sawl elfen wahanol i'r ymatebion i'r pwynt hwn. Yn gyntaf, mae llawer o ymatebwyr yn teimlo bod angen cyllid ychwanegol tuag at sicrhau bod oedolion a phlant yn gallu derbyn gwasanaeth cwnsela iechyd meddwl pan fyddant ei angen. Roedd teimlad hefyd bod angen sicrhau bod arian ar gael tuag at les teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Yn olaf, roedd ychydig o ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol i'r henoed a'r anabl.

- **Mwy o Weithgareddau: 17**

Roedd llawer yn awyddus i weld mwy o lwybrau beicio a llwybrau cerdded ar yr ynys - yn enwedig ffyrdd o amgylch ardal Llangefni. Nododd pobl hefyd yr hoffent weld mwy o feysydd chwarae, neu feysydd chwarae’n cael eu hadnewyddu - gan dynnu sylw nad oes digon o fannau i blant chwarae mewn sawl ardal. Gellir cyplysu'r pwynt hwn â'r sylwadau a nodir uchod ynghylch iechyd a lles trigolion.

- **Tai: 15**

Gwnaed dau brif bwynt yma. Roedd ymatebwyr yn awyddus i weld cynnydd yn nifer y tai sydd ar gael i brynwyr tro cyntaf - hoffent weld menter gan y Cyngor sy'n cefnogi pobl iau i brynu eu tŷ cyntaf. Yn ail, roeddent yn awyddus i weld naill ai mwy o dai Cyngor yn cael eu prynu, neu welliant yng nghyflwr amryw o dai Cyngor.

- **Sbwriel a Gwastraff: 13**

Roedd yr ymateb hwn yn canolbwyntio'n enfawr ar faterion baw cŵn yn fwy na dim. Mae pobl wedi cael llond bol ar weld baw cŵn ar draethau a hoffent weld cyllid ychwanegol yn cael ei roi tuag at gael biniau ar draethau.

- **Gwella cymunedau: 11**

Roedd thema gyffredinol - yn enwedig o ran Caergybi - bod ymatebwyr eisiau gweld gwelliannau i drefi. Yn y bôn, roeddent yn awyddus i weld hen adeiladau blinedig yn cael eu hadnewyddu a'u gwneud i edrych yn fwy deniadol.

- **Busnesau Bach: 10**

Teimlai ymatebwyr fod angen cyllid ychwanegol ar fusnesau bach er mwyn eu helpu trwy'r pandemig. Mae effaith Covid wedi bod yn gostus iawn i fusnesau bach sydd wedi gorfod cau o ganlyniad i gyfyngiadau cyfnodau clo.

- **Twristiaeth: 10**

Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid sicrhau bod arian ar gael ar gyfer gweithgareddau twristiaeth. Roeddent yn teimlo mai twristiaeth oedd y ffordd orau i chwistrellu arian i'r economi leol ar ôl Covid, ac felly roeddent yn teimlo y dylai'r Cyngor geisio buddsoddi mewn atyniadau a allai ddenu mwy o bobl i ymweld ag Ynys Môn. Roedd hwn yn cael ei weld fel cyfle.

- **Mwy o gyfleon am swyddi: 9**

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn awyddus i weld buddsoddiad yn cael ei wneud i sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu cael swyddi. Amlygodd 5 o'r ymatebwyr yr hoffent weld cynnydd yn nifer y cyfleoedd i bobl ifanc yn benodol.

- **Gwella'r Amgylchedd: 6**

Soniodd ychydig o ymatebwyr yr hoffent weld cyllid ar gael er mwyn sicrhau bod Ynys Môn yn fwy ecogyfeillgar. Roedd yr ymatebion yn amrywio o fod eisiau gweld mwy o orsafoedd gwefru ceir trydan, i fod eisiau gweld mwy o goed ac ati yn cael eu plannu.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **16 Chwefror, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2020/21** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2020/21<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2020/21 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2020

| | |
|---|---|
| | lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2020/21 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → MEDI 2020 – EBRILL, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 28/01/21]**

Drafft Diwddaraf

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Medi, 2020 (14/09/20)** | **Medi, 2020 (21/09/20)** |
| Craffu Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 (yn cynnwys yr effaith ariannol) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Craffu Agweddau Partneriaethol: Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| **Medi, 2020 (22/09/20)** | |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 | |
| | |
| **Hydref, 2020 (20/10/20)** | **Hydref, 2020 (22/10/20)** |
| Strategaeth Ataliol Corfforaethol | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: Adroddiad Blynyddol 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Ffioedd Casglu Gwastraff Gwyrdd |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Tachwedd, 2020 (02/11/20) (Cyfarfod wedi'i ganslo)** | **Tachwedd, 2020 (10/11/20)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu ar y trefniadau llywodraethu |
| | Cytundeb Llywodraethu 2 - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| | Cyllidebau Cyfun (Anableddau Dysgu) |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Tachwedd, 2020 (17/11/20) [Ch2]** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2020/21 | |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol: 2020/21 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | |
| | |
| **Rhagfyr, 2020 (10/12/2020)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | |
| **Rhagfyr, 2020 (17/12/2020)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir a Bodffordd) | |
| | |
| **Ionawr, 2021 – Diddymu** | **Ionawr, 2021 (19/01/21)- Diddymu** |
| | |
| **Chwefror, 2021 (16/02/21) [cyllideb 2021/22]** | **Chwefror, 2021 (09/02/21)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2021/22 | Adroddiad Cynnydd GwE 2020/21: cefnogi ysgolion yn ystod pandemig Covid 19 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Estyn: Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Canllaw Cynllunio Atodol- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Mawrth, 2021 (08/03/21)** | **Mawrth, 2021 (11/03/21)** |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai (i'w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2020/21 |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2020/21 | Newid Hinsawdd (eitem i'w chadarnhau) |
| Cwrs Golff Llangefni | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Ebrill, 2021 (12/04/21)** | **Ebrill, 2021 (14/04/21)** |
| | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad: diweddariad |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu**

Drafft Diweddaraf

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - ardaloedd Llangefni/Amlwch**

**Ymateb y Cyngor i Covid-19 – materion dilyn i fyny ar gais y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (14/09/2020):**

- **Llesiant staff y Cyngor a chymunedau**
- **Monitro effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP)**

Draft Diweddaraf

This page is intentionally left blank